OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 191 (Cy. 42)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *14 Chwefror 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *16 Chwefror 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *12 Mawrth 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 22 a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) ac sy'n arferadwy bellach ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

## RHAN 1

### ENWI, CYCHWYN A CHYMHWYSO

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 12 Mawrth 2018.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 1 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

(**1**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 146 ac Atodlen 11, Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p. 1), Atodlen 6, Deddf Cyllid 2003 (p. 14), adran 147, Deddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), adrannau 42 a 43 ac Atodlen 7, Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), adran 257, Deddf Addysg 2011 (p. 21), adran 76 ac O.S. 2013/1881. *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i gael y diffiniad o "prescribed" a "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a) i (i) a (k) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), ac mae is-adrannau (a), (c) a (k) yn arferadwy ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42, i'r graddau yr oedd yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

**Cymhwyso**

**2.**—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i'r ddarpariaeth o gymorth i fyfyrwyr mewn perthynas â chwrs sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018 pa un a gaiff unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn ei wneud cyn, ar neu ar ôl 1 Awst 2018.

(3) Ond nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i'r ddarpariaeth o gymorth i fyfyrwyr mewn perthynas â chwrs o'r fath—

(a) os yw'r cwrs yn un y mae statws y myfyriwr wedi trosglwyddo mewn perthynas ag ef o dan reoliad 8, 75, 102 neu 114 o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017")(**3**) neu baragraff 11 o Atodlen 4 iddynt, neu

(b) os yw'r cwrs yn gwrs penben o fewn ystyr Rheoliadau 2017.

(4) Am ddarpariaeth ynghylch cymorth a ddarperir i fyfyrwyr mewn perthynas â chwrs—

(a) y mae paragraff (3) yn gymwys iddo, neu

(b) sy'n dechrau cyn 1 Awst 2018,

gweler Rheoliadau 2017 fel y'u diwygir gan Atodlen 6 i'r Rheoliadau hyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 2 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 2

## TROSOLWG

**Trosolwg**

**3.**—(1) Mae'r Rhannau sy'n weddill o'r Rheoliadau hyn wedi eu trefnu fel a ganlyn.

(2) Mae Rhan 3 yn cyflwyno 2 Atodlen—

(a) Atodlen 1, sy'n cynnwys darpariaethau ynghylch dehongli termau allweddol penodol, a

(b) Atodlen 7, sy'n cynnwys mynegai o'r termau wedi eu diffinio yn y Rheoliadau hyn.

(3) Mae 2 Bennod i Ran 4, sy'n cynnwys darpariaeth ynghylch y cysyniadau allweddol sy'n penderfynu cymhwystra i gael cymorth o dan y Rheoliadau hyn—

(a) mae Pennod 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch penderfynu a yw cwrs yn gwrs dynodedig at ddibenion y Rheoliadau hyn ac felly yn gwrs y caiff myfyriwr fod yn gymwys i gael cymorth mewn cysylltiad ag ef;

(b) mae 5 Adran i Bennod 2, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch sut y caiff myfyriwr sy'n ymgymryd â chwrs dynodedig fod yn gymwys i gael cymorth o dan y Rheoliadau hyn—

(i) mae Adran 1 yn nodi'r meini prawf er mwyn penderfynu a yw myfyriwr yn gymwys i gael cymorth (gweler yn benodol Atodlen 2 sy'n nodi'r categorïau o fyfyrwyr cymwys) ac yn cynnwys darpariaeth ynghylch yr eithriadau a all olygu nad yw myfyriwr yn gymwys;

(**3**) O.S. 2017/47 (Cy. 21).

(ii) mae Adran 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyfnod y caiff myfyriwr barhau i fod yn gymwys i gael cymorth ar ei gyfer, gan gynnwys mewn achosion pan fo myfyriwr yn ymgymryd â mwy nag un cwrs;

(iii) mae Adran 3 yn nodi'r rheolau ar gyfer terfynu cymhwystra myfyriwr cymwys yn gynnar, er enghraifft o ganlyniad i gamymddygiad y myfyriwr;

(iv) mae Adran 4 yn nodi'r cyfyngiadau ar gymorth sydd ar gael o dan y Rheoliadau hyn mewn achosion pan fo myfyriwr wedi ymgymryd ag astudio blaenorol, megis gradd flaenorol;

(v) mae Adran 5 yn ymdrin ag achosion pan fo myfyriwr yn trosglwyddo o un cwrs dynodedig i un arall, gan gynnwys darpariaeth ynghylch ailasesu'r swm sy'n daladwy i fyfyriwr o dan amgylchiadau o'r fath a darpariaeth sy'n ymdrin ag achosion pan fo myfyriwr yn trosglwyddo o astudio llawnamser i astudio rhan-amser ac i'r gwrthwyneb.

(4) Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth weinyddol ynghylch—

(a) ceisiadau am gymorth o dan y Rheoliadau hyn;

(b) gofynion a osodir ar geiswyr a myfyrwyr cymwys i ddarparu gwybodaeth;

(c) contractau ar gyfer benthyciadau y gwneir cais amdanynt o dan y Rheoliadau hyn.

(5) Mae Rhan 6 yn gwneud darpariaeth ynghylch benthyciadau at ffioedd dysgu gan gynnwys darpariaeth ynghylch—

(a) yr amodau cymhwyso y mae rhaid i fyfyriwr eu bodloni er mwyn cymhwyso i gael benthyciad at ffioedd dysgu, a

(b) symiau'r benthyciad sydd ar gael i gategorïau amrywiol o fyfyriwr cymwys.

(6) Mae 4 Pennod i Ran 7, sy'n cynnwys darpariaeth ynghylch y prif gymorth grant sydd ar gael i fyfyrwyr cymwys mewn cysylltiad â chostau byw ac astudio, yn benodol—

(a) mae Pennod 1 yn nodi'r amodau cymhwyso y mae rhaid iddynt gael eu bodloni er mwyn i fyfyriwr gymhwyso i gael grant o dan Benodau 2 neu 3;

(b) mae Pennod 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch y grant sylfaenol, gan bennu swm y grant sylfaenol sydd ar gael;

(c) mae Pennod 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch y grant cynhaliaeth, gan gynnwys darpariaeth ynghylch—

(i) swm y grant sydd ar gael;

(ii) sut y caiff swm y grant sydd ar gael ei ostwng mewn perthynas ag incwm aelwyd y myfyriwr (gweler Atodlen 3 ar gyfer darpariaeth ynghylch sut i gyfrifo incwm yr aelwyd);

(iii) achosion pan na fo incwm aelwyd myfyriwr yn berthnasol a bod uchafswm y grant ar gael;

(d) mae Pennod 4 yn cynnwys darpariaethau sy'n penderfynu pryd y caniateir i swm grantiau sy'n daladwy o dan y Rhan hon gael ei ystyried yn gymorth arbennig oherwydd i'r myfyriwr fodloni amodau penodol mewn cysylltiad â hawlogaeth i gael budd-daliadau neu gredydau, gan gynnwys darpariaeth sy'n pennu'r swm sydd i'w ystyried felly.

(7) Mae Rhan 8 yn gwneud darpariaeth ynghylch benthyciadau cynhaliaeth gan gynnwys darpariaeth ynghylch—

(a) uchafswm y benthyciad sydd ar gael;

(b) sut y mae uchafswm y benthyciad sydd ar gael i'w ostwng mewn perthynas â swm y grant cynhaliaeth sy'n daladwy i fyfyriwr cymwys.

(8) Mae Rhan 9 yn gwneud darpariaeth ynghylch y grant myfyriwr anabl sef grant sydd ar gael i fyfyrwyr cymwys penodol ag anabledd sy'n ymgymryd â chwrs dynodedig mewn cysylltiad â chostau ychwanegol penodol a nodir yn y Rhan ac yr eir iddynt oherwydd anabledd y myfyriwr.

(9) Mae Rhan 10 yn gwneud darpariaeth ynghylch grantiau at gostau teithio y mae myfyrwyr cymwys penodol yn mynd iddynt.

(10) Mae 5 Pennod i Ran 11, ynghylch grantiau ychwanegol sydd ar gael i fyfyrwyr cymwys y mae ganddynt ddibynyddion ("grantiau ar gyfer dibynyddion"), yn benodol—

(a) mae Pennod 1 yn nodi'r 3 math o grantiau ar gyfer dibynyddion ac yn cynnwys darpariaeth ynghylch yr amodau cymhwyso a'r termau wedi eu diffinio sy'n gyffredin i bob un o'r grantiau ar gyfer dibynyddion;

(b) mae Pennod 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch y grant oedolion dibynnol gan gynnwys darpariaeth ynghylch y meini prawf cymhwyso ac uchafswm y grant sydd ar gael;

(c) mae Pennod 3 yn gwneud darpariaeth debyg mewn cysylltiad â'r grant dysgu ar gyfer rhieni;

(d) mae Pennod 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch y grant gofal plant gan gynnwys darpariaeth ynghylch yr amodau cymhwyso, y mathau o ofal plant y mae cymorth ar gael ar eu cyfer a sut i gyfrifo uchafswm y grant gofal plant sydd ar gael;

(e) mae Pennod 5 yn nodi sut i gyfrifo swm y grantiau ar gyfer dibynyddion sy'n daladwy i fyfyriwr gan gynnwys gostwng y swm sy'n daladwy drwy gyfeirio at incwm (gweler Atodlen 3 am ddarpariaeth ynghylch cyfrifo incwm at ddibenion y darpariaethau hyn).

(11) Mae Rhan 12 yn gwneud darpariaeth ynghylch achosion pan gaiff myfyriwr ddod yn gymwys i gael cymorth o dan y Rheoliadau hyn ar ôl i'r flwyddyn academaidd ddechrau.

(12) Mae 4 Pennod i Ran 13, ynghylch taliadau, gordaliadau ac adennill gordaliadau, yn benodol—

(a) mae Pennod 1 yn gwneud darpariaeth sy'n caniatáu i daliadau gael eu gwneud ar sail penderfyniadau dros dro;

(b) mae Pennod 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch talu benthyciadau at ffioedd dysgu, gan gynnwys darpariaeth ynghylch pryd y caniateir i'r benthyciad gael ei dalu a'r gofynion sydd i'w bodloni cyn y gwneir taliadau;

(c) mae Pennod 3 yn gwneud darpariaeth debyg mewn cysylltiad â thalu benthyciadau cynhaliaeth neu grantiau;

(d) mae Pennod 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch gordaliadau, gan gynnwys darpariaeth sy'n pennu'r hyn sy'n ordaliad a sut y caniateir i ordaliad gael ei adennill.

(13) Mae 2 Bennod i Ran 14, ynghylch cyfyngiadau ar daliadau a symiau a all fod yn daladwy i fyfyriwr cymwys, yn benodol—

(a) mae Pennod 1 yn nodi cyfyngiadau ar dalu benthyciadau cynhaliaeth a grantiau, gan gynnwys darpariaeth ynghylch—

(i) ei gwneud yn ofynnol darparu manylion cyfrif banc cyn y gwneir taliadau;

(ii) cyfrifo'r gostyngiad mewn swm sy'n daladwy o ganlyniad i gyfnod o absenoldeb;

(iii) cyfrifo'r gostyngiad mewn swm sy'n daladwy o ganlyniad i gymhwystra'n dod i ben neu'n cael ei derfynu;

(b) mae Pennod 2 yn nodi cyfyngiadau ar dalu benthyciadau, gan gynnwys darpariaeth sy'n—

(i) cyfyngu ar dalu benthyciad os yw'r myfyriwr yn methu â darparu rhif Yswiriant Gwladol;

(ii) cadw taliad benthyciad yn ôl os yw'r myfyriwr yn methu â darparu gwybodaeth benodol y gofynnir amdani.

(14) Mae Rhan 15 yn cyflwyno Atodlen 4 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch y grant myfyriwr ôl-raddedig anabl, sef grant sydd ar gael i fyfyrwyr ôl-raddedig penodol sy'n ymgymryd â chwrs ôl-radd dynodedig mewn cysylltiad â chostau byw yr eir iddynt oherwydd anabledd y myfyriwr.

(15) Mae Rhan 16 yn cyflwyno Atodlen 5 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch benthyciadau sydd ar gael ar gyfer ffioedd coleg sy'n daladwy gan fyfyrwyr penodol sy'n ymgymryd â chyrsiau penodol ym Mhrifysgol Rhydychen neu ym Mhrifysgol Caergrawnt (benthyciadau at ffioedd colegau Oxbridge).

(16) Mae Rhan 17 yn cyflwyno Atodlen 6 sy'n cynnwys diwygiadau i Reoliadau 2017.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 3 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 3

## DEHONGLI A'R MYNEGAI

**Dehongli a'r mynegai**

**4.**—(1) Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch dehongli termau allweddol penodol at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(2) Mae Atodlen 7, sef yr Atodlen derfynol i'r Rheoliadau hyn, yn cynnwys y mynegai o dermau wedi eu diffinio.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Rhl. 4 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 4

## CYSYNIADAU ALLWEDDOL

### PENNOD 1

### CYRSIAU DYNODEDIG

**Cyrsiau dynodedig**

**5.** Yn y Rheoliadau hyn (ac at ddibenion adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ("Deddf 1998")) mae cwrs yn gwrs dynodedig—

(a) os yw'n bodloni pob un o'r amodau yn rheoliad 6(1), a

(b) os nad yw'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r eithriadau yn rheoliad 7(1).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Rhl. 5 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Cyrsiau dynodedig – amodau**

**6.**—(1) Yr amodau yw—

*Amod 1*
Mae'r cwrs yn un o'r canlynol—

(a) cwrs gradd gyntaf;

(b) cwrs ar gyfer y Diploma Addysg Uwch;

(c) cwrs ar gyfer Diploma Cenedlaethol Uwch neu Dystysgrif Genedlaethol Uwch y canlynol—

(i) y Cyngor Addysg Busnes a Thechnoleg, neu

(ii) Awdurdod Cymwysterau'r Alban;

(d) cwrs ar gyfer y Dystysgrif Addysg Uwch;

(e) cwrs ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon;

(f) cwrs o hyfforddiant pellach i weithwyr ieuenctid a chymunedol;

(g) cwrs i baratoi at arholiad proffesiynol o safon sy'n uwch na'r canlynol—

(i) arholiad safon uwch ar gyfer y Dystysgrif Addysg Gyffredinol neu arholiad lefel uwch ar gyfer Tystysgrif Addysg yr Alban; neu

(ii) arholiad ar gyfer Tystysgrif Genedlaethol neu Ddiploma Cenedlaethol y naill neu'r llall o'r cyrff a grybwyllir ym mharagraff (c),

cyhyd ag nad yw gradd gyntaf (neu gymhwyster cyfatebol) fel arfer yn ofynnol ar gyfer mynediad i'r cwrs;

(h) cwrs—

(i) sy'n darparu addysg (pa un a yw i baratoi at arholiad ai peidio) y mae ei safon yn uwch na safon cwrs a grybwyllir ym mharagraff (g) ond nad yw'n uwch na safon cwrs gradd gyntaf, a

(ii) nad yw gradd gyntaf (neu gymhwyster cyfatebol) fel arfer yn ofynnol ar gyfer mynediad iddo.

*Amod 2*
Mae'r cwrs naill ai'n—

(a) cwrs llawnamser,

(b) cwrs rhyngosod, neu'n

(c) cwrs rhan-amser.

*Amod 3*
Hyd y cwrs yw o leiaf un flwyddyn academaidd.

***[**[F1]Amod 4*

(a) (a) Pan fo'r cwrs yn gwrs llawnamser sy'n dechrau cyn 1 Awst 2019, mae'n cael ei ddarparu—

(i) gan sefydliad rheoleiddiedig Cymreig, darparwr Seisnig gwarchodedig, sefydliad a gyllidir gan yr Alban neu sefydliad a gyllidir gan Ogledd Iwerddon (pa un ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â sefydliad sydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig),

(ii) gan elusen o fewn yr ystyr a roddir i "charity" gan adran 1 o Ddeddf Elusennau 2011 ar ran sefydliad rheoleiddiedig Cymreig, neu

(iii) ar ran darparwr Seisnig gwarchodedig gan sefydliad a oedd cyn 1 Awst 2019 yn sefydliad a gyllidir yn gyhoeddus.

(b) Pan fo'r cwrs yn gwrs rhan-amser sy'n dechrau cyn 1 Awst 2019, mae'n cael ei ddarparu gan sefydliad a oedd cyn 1 Awst 2019 yn sefydliad a gyllidir yn gyhoeddus (pa un ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â sefydliad sydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig).

(c) Pan fo'r cwrs yn gwrs llawnamser sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2019, mae'n cael ei ddarparu gan—

(i) sefydliad rheoleiddiedig Cymreig, sefydliad rheoleiddiedig Seisnig, sefydliad a gyllidir gan yr Alban neu sefydliad a gyllidir gan Ogledd Iwerddon (pa un ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â sefydliad sydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig),

(ii) elusen o fewn yr ystyr a roddir i "charity" gan adran 1 o Ddeddf Elusennau 2011 ar ran sefydliad rheoleiddiedig Cymreig, neu

(iii) sefydliad Seisnig cofrestredig ar ran darparwr cynllun Seisnig.

(d) Pan fo'r cwrs yn gwrs rhan-amser sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2019, mae'n cael ei ddarparu gan—

(i) sefydliad a gyllidir gan Gymru, sefydliad a gyllidir gan yr Alban, sefydliad a gyllidir gan Ogledd Iwerddon neu sefydliad rheoleiddiedig Seisnig (pa un ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â sefydliad sydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig), neu

(ii) sefydliad Seisnig cofrestredig ar ran darparwr cynllun Seisnig.**]**

*Amod 5*
Mae o leiaf hanner yr addysgu a'r goruchwylio sy'n ffurfio'r cwrs yn cael ei ddarparu yn y Deyrnas Unedig.

*Amod 6*
Mae'r cwrs yn arwain at ddyfarndal sydd wedi ei roi neu sydd i gael ei roi gan gorff sy'n dod o fewn adran 214(2)(a) neu (b) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**4**) oni bai bod y cwrs yn dod o fewn paragraff (c) neu (e) o Amod 1.

(2) At ddibenion Amod 4—

(a) mae cwrs yn cael ei ddarparu gan sefydliad os yw'n darparu'r addysgu a'r goruchwylio sy'n ffurfio'r cwrs, pa un a yw'r sefydliad wedi ymrwymo i gytundeb â'r myfyriwr i ddarparu'r cwrs ai peidio;

(b) bernir bod prifysgol, ac unrhyw goleg cyfansoddol mewn prifysgol, neu sefydliad cyfansoddol sydd o natur coleg mewn prifysgol, yn sefydliad addysgol cydnabyddedig os yw naill ai'r brifysgol neu'r coleg neu'r sefydliad cyfansoddol yn sefydliad addysgol cydnabyddedig;

**[**F2(c) ni fernir bod sefydliad yn sefydliad a gyllidir gan Gymru neu sefydliad a gyllidir yn gyhoeddus dim ond oherwydd—

(i) pan fo'r cwrs yn dechrau cyn 1 Awst 2019, ei fod yn sefydliad cysylltiedig a gafodd daliad perthnasol cyn y dyddiad hwnnw, neu

(ii) pan fo'r cwrs yn dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2019, ei fod yn sefydliad cysylltiedig sy'n cael taliad perthnasol.**]**

**[**F3(2A) At ddiben paragraff (2)—

(a) ystyr "sefydliad cysylltiedig" yw sefydliad cysylltiedig o fewn ystyr "connected institution" yn adran 65(3B) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, a

(**4**) 1988 p. 40; diwygiwyd adran 214(2) gan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p. 13), adran 93 ac Atodlen 8.

(b) ystyr "taliad perthnasol" yw talu'r cyfan neu ran o unrhyw grant, benthyciad neu daliad arall gan gorff llywodraethu sefydliad a ddarperir i'r sefydliad cysylltiedig yn unol ag adran 65(3A) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.]

(3) Yn y rheoliad hwn, os yw paragraff (4) yn gymwys i gwrs, ystyrir ei fod yn gwrs sengl ar gyfer gradd gyntaf (neu gymhwyster cyfatebol) hyd yn oed os yw'r cwrs yn arwain at roi gradd neu gymhwyster arall cyn y radd (neu'r cymhwyster cyfatebol) (pa un a yw rhan o'r cwrs yn opsiynol ai peidio).

(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gwrs—

(a) nad yw ei safon yn uwch na safon gradd gyntaf, a

(b) sy'n arwain at gymhwyster fel meddyg, deintydd, milfeddyg, pensaer, pensaer tirwedd, dylunydd tirwedd, rheolwr tirwedd, cynllunydd tref neu gynllunydd gwlad a thref.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn rhl. 6 wedi eu hamnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(3)(b) of the amending S.I.) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/235), rhlau. 1(3)(a), **42(a)**

**F2** Rhl. 6(2)(c) wedi ei amnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(3)(b) of the amending S.I.) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/235), rhlau. 1(3)(a), **42(b)**

**F3** Rhl. 6(2A) wedi ei fewnosod (gyda chais yn unol â rhl. 1(3)(b) of the amending S.I.) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/235), rhlau. 1(3)(a), **42(c)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Rhl. 6 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Cyrsiau dynodedig – eithriadau

**7.**—(1) Yr eithriadau yw—

*Eithriad 1*
Cwrs a ddilynir fel rhan o gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth.

*Eithriad 2*
Cwrs sy'n dod o fewn paragraff (g) neu (h) o Amod 1 o reoliad 6(1) os yw corff llywodraethu ysgol a gynhelir wedi trefnu i'r cwrs gael ei ddarparu i un o ddisgyblion yr ysgol.

(2) At ddibenion Eithriad 1, ystyr "cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth" yw—

(a) cynllun a sefydlir gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 8 o Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004(**5**) neu o dan reoliad 8 o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012(**6**), sy'n caniatáu i berson ymgymryd â hyfforddiant cychwynnol athrawon er mwyn ennill statws athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig tra bo'n cael ei gyflogi i addysgu mewn ysgol a gynhelir, ysgol annibynnol neu sefydliad arall ac eithrio uned cyfeirio disgyblion;

(b) cynllun a sefydlir gan yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n caniatáu i berson ymgymryd â hyfforddiant cychwynnol athrawon er mwyn ennill statws athro cymwysedig neu athrawes

(**5**) O.S. 2004/1729 (Cy. 173), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/2811 (Cy. 238), O.S. 2008/215 (Cy. 26) ac O.S. 2010/1142 (Cy. 101). Dirymwyd O.S. 2004/1729, gydag arbedion, gan O.S. 2012/724 (Cy. 96).
(**6**) O.S. 2012/724 (Cy. 96).

gymwysedig tra bo'n cael ei gyflogi i addysgu mewn ysgol, coleg dinas, Academi, ysgol annibynnol neu sefydliad arall ac eithrio uned cyfeirio disgyblion.

(3) At ddibenion Eithriad 2, ystyr "ysgol a gynhelir" yw—

(a) ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol,

(b) ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig, neu

(c) ysgol feithrin a gynhelir.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Rhl. 7 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Dynodi cyrsiau eraill**

**8.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru bennu bod cwrs i'w drin fel pe bai'n gwrs dynodedig er gwaethaf y ffaith na fyddai fel arall yn gwrs dynodedig, oni bai am y dynodiad(**7**).

(2) Caiff Gweinidogion Cymru atal dros dro neu ddirymu dynodiad cwrs a wneir o dan baragraff (1).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** Rhl. 8 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

PENNOD 2

CYMHWYSTRA

*ADRAN 1*

*Myfyrwyr cymwys*

**Myfyrwyr cymwys**

**9.**—(1) Mae person yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chwrs dynodedig y mae'r person yn ymgymryd ag ef—

(a) os yw'r person yn dod o fewn un o'r categorïau o bersonau a nodir yn Atodlen 2 ac nad yw unrhyw un neu ragor o'r eithriadau a nodir yn rheoliad 10 yn gymwys i'r person, neu

(b) os yw amgylchiadau'r person yn dod o fewn un o'r achosion a nodir yn rheoliad 11.

(2) Dim ond mewn cysylltiad ag un cwrs dynodedig y caiff person fod yn fyfyriwr cymwys ar unrhyw un adeg.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** Rhl. 9 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

(**7**) Gweler http://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/ymarferwyr/gwybodaeth-polisi/cyrsiau-dynodedig.aspx i gael rhestr o gyrsiau dynodedig sydd wedi eu pennu, wedi eu hatal dros dro neu wedi eu dirymu gan Weinidogion Cymru o dan y rheoliad hwn.

**Myfyrwyr cymwys - Eithriadau**

**10.**—(1) Nid yw person ("P") yn fyfyriwr cymwys os yw unrhyw un neu ragor o'r eithriadau a ganlyn yn gymwys—

*Eithriad 1*
Pan fo'r cwrs dynodedig yn gwrs llawnamser, mae dyfarndal o fewn ystyr Rheoliadau Addysg (Dyfarndaliadau Mandadol) 2003(**8**) wedi cael ei roi i P mewn cysylltiad â'r cwrs.

*Eithriad 2*
Pan fo'r cwrs dynodedig yn gwrs llawnamser, mae P yn gymwys i gael benthyciad mewn perthynas â blwyddyn academaidd o'r cwrs dynodedig o dan Orchymyn Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Gogledd Iwerddon) 1990(**9**).

*Eithriad 3*
Mewn cysylltiad â P yn ymgymryd â'r cwrs dynodedig, rhoddwyd i P neu talwyd iddo—

(a) pan fo'r cwrs yn gwrs llawnamser—
  (i) bwrsari gofal iechyd, nad yw ei swm yn cael ei gyfrifo drwy gyfeirio at incwm P (oni bai ei fod yn grant bwrsari at gostau byw), neu
  (ii) lwfans o dan Reoliadau Lwfansau Myfyrwyr Nyrsio a Bydwreigiaeth (Yr Alban) 2007(**10**);
(b) pan fo'r cwrs yn gwrs rhan-amser—
  (i) bwrsari gofal iechyd (pa un a yw wedi ei gyfrifo drwy gyfeirio at incwm P ai peidio),
  (ii) lwfans o dan Reoliadau Lwfansau Myfyrwyr Nyrsio a Bydwreigiaeth (Yr Alban) 2007, neu
  (iii) lwfans gofal iechyd yr Alban (pa un a yw wedi ei gyfrifo drwy gyfeirio at incwm P ai peidio).

*Eithriad 4*
Mae P wedi torri rhwymedigaeth i ad-dalu benthyciad myfyriwr.

*Eithriad 5*
Mae P wedi cyrraedd 18 oed ac nid yw wedi dilysu cytundeb ar gyfer benthyciad myfyriwr a wnaed gyda P pan oedd P o dan 18 oed.

*Eithriad 6*
Mae Gweinidogion Cymru yn meddwl bod ymddygiad P o'r fath fel nad yw P yn addas i gael cymorth.

*Eithriad 7*
Mae P yn garcharor.

Ond caiff P fod yn fyfyriwr cymwys er ei fod yn garcharor—

(**8**) O.S. 2003/1994, a ddiwygiwyd gan O.S. 2004/1038, O.S. 2004/1792, O.S. 2005/2083, O.S. 2005/3137, O.S. 2005/3482, O.S. 2006/930, O.S. 2007/1629, O.S. 2008/1477, O.S. 2010/1142 (Cy. 101), O.S. 2010/1172, O.S. 2011/1043, O.S. 2014/107, O.S. 2016/211 a Deddf Addysg 2005 adran 74.
(**9**) O.S. 1990/1506 (G.I. 11), a ddiwygiwyd gan O.S. 1996/274 (G.I. 1), Erthygl 43 ac Atodlen 5 Rhan II, O.S. 1996/1918 (G.I. 15), Erthygl 3 a'r Atodlen ac O.S. 1998/258 (G.I. 1), Erthyglau 3 i 6 ac a ddirymwyd, gydag arbedion, gan Rh.St. (G.I.) 1998 Rhif 306.
(**10**) O.S.A. 2007/151 fel y'i diwygiwyd gan O.S.A. 2007/503, O.S.A. 2008/206, O.S.A. 2009/188, O.S.A. 2009/309, O.S.A. 2012/72, O.S.A. 2013/80 ac O.S.A. 2017/180.

(a) os yw cais P am gymorth mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd y mae P yn mynd i'r carchar neu'n cael ei ryddhau o'r carchar ynddi,

(b) os yw cwrs presennol P yn gwrs penben llawnamser, neu

(c) os yw P wedi cael ei awdurdodi gan Lywodraethwr neu Gyfarwyddwr y carchar neu gan awdurdod priodol arall i astudio'r cwrs presennol a bod dyddiad rhyddhau cynharaf P o fewn 6 mlynedd i ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

**10.**—(2) Yn Eithriad 3, mae "grant bwrsari at gostau byw" yn grant at gostau byw sy'n cael ei roi ar gael o dan Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru.

(3) Yn Eithriadau 4 a 5, ystyr "benthyciad myfyriwr" yw benthyciad a wneir o dan—

(a) Deddf Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) 1990(**11**);

(b) Deddf Addysg (Yr Alban) 1980;

(c) Gorchymyn Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Gogledd Iwerddon) 1990(**12**);

(d) Gorchymyn Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Gogledd Iwerddon) 1998(**13**);

(e) rheoliadau a wneir o dan unrhyw un neu ragor o'r Deddfau neu'r Gorchmynion hynny;

(f) y Rheoliadau hyn neu unrhyw reoliadau eraill a wneir o dan Ddeddf 1998.

(4) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "bwrsari gofal iechyd" ("*healthcare bursary*") yw bwrsari neu ddyfarndal o ddisgrifiad tebyg o dan—

(a) adran 63(6) o Ddeddf Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd 1968(**14**), ond nid taliad a wneir o'r Gronfa Cymorth Dysgu;

(b) Erthygl 44 o Orchymyn Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 1972(**15**);

ystyr "Cronfa Cymorth Dysgu" ("*Learning Support Fund*") yw'r gronfa sy'n cael ei rhoi ar gael gan GIG Lloegr i fyfyrwyr penodol mewn cysylltiad â chyrsiau gofal iechyd cymhwysol;

ystyr "lwfans gofal iechyd yr Alban" ("*Scottish healthcare allowance*") yw lwfans o dan adrannau 73(f) a 74(1) o Ddeddf Addysg (Yr Alban) 1980(**16**) a roddir mewn cysylltiad â phresenoldeb P ar gwrs sy'n arwain at gymhwyster mewn proffesiwn gofal iechyd ac eithrio fel meddyg neu ddeintydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** Rhl. 10 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

## Myfyrwyr cymwys sy'n parhau ar gwrs

**11.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys i berson ("P") —

(a) os yw amgylchiadau P yn dod o fewn un o'r achosion ym mharagraff (3), a

(**11**) 1990 p. 6; a ddiddymwyd gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30), Atodlen 4, gydag arbedion *gweler* Gorchymyn Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) 1998 (O.S. 1998/2004) (C. 46).
(**12**) O.S. 1990/1506 (G.I. 11) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1996/274 (G.I. 1), Erthygl 43 ac Atodlen 5 Rhan II, O.S. 1996/1918 (G.I. 15), Erthygl 3 a'r Atodlen ac O.S. 1998/258 (G.I. 1), Erthyglau 3 i 6 ac a ddirymwyd, gydag arbedion, gan Rh.St. (G.I.) 1998 Rhif 306.
(**13**) O.S. 1998/1760 (G.I. 14).
(**14**) 1968 p. 46.
(**15**) O.S. 1972/1265 (G.I. 14).
(**16**) 1980 p. 44; diwygiwyd adran 73(f) gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30), adran 29(1) a chan Ddeddf Addysg (Gwaddol Graddedigion a Chymorth i Fyfyrwyr) (Yr Alban) 2001 (dsa 6), adran 3(2) a diwygiwyd adran 74 gan Ddeddf Ysgolion Hunanlywodraethol etc. (Yr Alban) 1989 (p. 39), adran 82 ac Atodlen 10, paragraff 8(17).

(b) os nad yw Eithriad 3 yn rheoliad 10 yn gymwys mewn cysylltiad â'r flwyddyn y mae P yn gwneud cais am gymorth ar ei chyfer.

(2) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, mae P yn fyfyriwr cymwys ac yn unol â hynny—

(a) nid oes angen i P ddod o fewn unrhyw un o'r categorïau o fyfyriwr a nodir yn Atodlen 2, a

(b) nid yw unrhyw un o'r eithriadau a nodir yn rheoliad 10 (ac eithrio Eithriad 3) yn rhwystro P rhag bod yn fyfyriwr cymwys.

(3) Yr achosion yw—

*Achos 1*

(a) roedd P yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd gynharach o gwrs presennol P, ac

(b) roedd P yn preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs hwnnw.

*Achos 2*

(a) mae cwrs presennol P yn gwrs penben,

(b) roedd P yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â'r cwrs (y "cwrs cynharach") y mae cwrs presennol P yn gwrs penben mewn perthynas ag ef,

(c) dim ond oherwydd bod P wedi cwblhau'r cwrs cynharach hwnnw y daeth cyfnod cymhwystra P ar gyfer y cwrs i ben, a

(d) roedd P yn preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs cynharach.

*Achos 3*

(a) roedd P yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chwrs dynodedig (y "cwrs cynharach") ac eithrio'r cwrs presennol,

(b) mae statws P fel myfyriwr cymwys mewn cysylltiad â'r cwrs cynharach wedi cael ei drosglwyddo i'r cwrs presennol (gweler adran 5), ac

(c) roedd P yn preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs cynharach.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** Rhl. 11 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

*ADRAN 2*

*Cyfnod cymhwystra*

**Cyfnod cymhwystra – y rheol gyffredinol**

**12.**—(1) Cedwir statws myfyriwr fel myfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chwrs dynodedig tan ddiwedd cyfnod cymhwystra'r myfyriwr oni bai bod ei statws wedi ei derfynu yn unol â rheoliad 19, 20, 22 neu 23.

(2) Daw cyfnod cymhwystra myfyriwr i ben ar ddiwedd y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr yn cwblhau'r cwrs dynodedig ynddi.

(3) Ond—

(a) os yw'r cwrs dynodedig yn gwrs llawnamser neu'n gwrs rhyngosod, a

(b) os yw rheoliad 14, 15 neu 16 yn gymwys i'r myfyriwr,

mae cyfnod cymhwystra'r myfyriwr ar gyfer y cwrs wedi ei gyfyngu i'r cyfnod cymhwystra hwyaf a bennir yn y rheoliad cymwys ar gyfer y categori o gymorth a bennir yn y rheoliad hwnnw.

(4) Pan fo cymhwystra myfyriwr i gael cymorth wedi ei gyfyngu o dan reoliad 14, 15 neu 16 fel bod nifer y blynyddoedd academaidd y mae'r categori o gymorth a bennir yn y rheoliad o dan sylw ar gael mewn cysylltiad â hwy yn llai na chyfnod arferol y cwrs presennol, mae'r categori o gymorth sydd wedi ei bennu felly ar gael mewn cysylltiad â blynyddoedd academaidd diweddaraf y cwrs.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I12** Rhl. 12 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Cyrsiau rhan-amser – dim cymhwystra am flynyddoedd o astudio dwysedd isel

**13.** Pan fo myfyriwr cymwys yn ymgymryd â chwrs rhan-amser, nid yw'r myfyriwr yn gymwys i gael cymorth o dan y Rheoliadau hyn mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd pan fo'r dwysedd astudio ar gyfer y flwyddyn honno yn llai na 25% (gweler paragraff 5 o Atodlen 1 am sut i gyfrifo'r dwysedd astudio ar gyfer blwyddyn academaidd).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I13** Rhl. 13 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Y cyfnod cymhwystra hwyaf – benthyciadau at ffioedd dysgu a grantiau ar gyfer myfyrwyr newydd

**14.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i fyfyriwr cymwys—

(a) sy'n ymgymryd â chwrs llawnamser neu gwrs rhyngosod, a

(b) nad yw wedi ymgymryd â chwrs blaenorol.

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, y cyfnod cymhwystra hwyaf ar gyfer benthyciad at ffioedd dysgu, grant sylfaenol, grant cynhaliaeth **[**[F4]neu**]** grant at deithio[F5]... yw'r cyfnod sydd wedi ei gyfrifo fel a ganlyn—

Cyfnod arferol y cwrs presennol.

*Plws*

Nifer y blynyddoedd academaidd y mae'r myfyriwr cymwys wedi eu hailadrodd am resymau personol anorchfygol.

*Plws*

Un flwyddyn.

**Diwygiadau Testunol**

**F4** Gair yn rhl. 14(2) wedi ei amnewid (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **3(a)**

**F5** Geiriau yn rhl. 14(2) wedi eu hepgor (30.7.2018) yn rhinwedd Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **3(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I14** Rhl. 14 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Y cyfnod cymhwystra hwyaf – benthyciadau at ffioedd dysgu a grantiau penodedig i fyfyrwyr sydd wedi ymgymryd â chwrs blaenorol

**15.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i fyfyriwr cymwys—

(a) sy'n ymgymryd â chwrs llawnamser neu gwrs rhyngosod, a

(b) sydd wedi ymgymryd â chwrs blaenorol.

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, y cyfnod cymhwystra hwyaf ar gyfer benthyciad at ffioedd dysgu, grant sylfaenol, grant cynhaliaeth neu grant at deithio yw'r cyfnod sydd wedi ei gyfrifo fel a ganlyn—

Cyfnod arferol y cwrs presennol.

*Plws*

Nifer y blynyddoedd academaidd y mae'r myfyriwr cymwys wedi eu hailadrodd am resymau personol anorchfygol.

*Plws*

Un flwyddyn.

*Llai*

Nifer y blynyddoedd academaidd yr ymgymerodd y myfyriwr cymwys â hwy ar y cwrs neu'r cyrsiau blaenorol (os yw'r myfyriwr wedi ymgymryd â mwy nag un cwrs blaenorol).

Ond nid yw didyniad i'w wneud os yw'r myfyriwr ar gwrs hyfforddi athrawon neu os yw'n ymgymryd â chwrs mynediad graddedig carlam.

(3) Os na chwblhaodd y myfyriwr cymwys y cwrs blaenorol diweddaraf yn llwyddiannus am resymau personol anorchfygol—

(a) mae un flwyddyn ychwanegol i'w hadio at y cyfrifiad a wneir o dan baragraff (2), a

(b) caniateir i flwyddyn ychwanegol arall gael ei hadio os yw Gweinidogion Cymru yn meddwl ei bod yn briodol gwneud hynny gan roi sylw i'r rhesymau hynny.

(4) Os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu bod rheoliad 18 yn gymwys i fyfyriwr, cânt adio un neu ragor o flynyddoedd ychwanegol at y cyfrifiad a wneir o dan baragraff (2) fel y maent yn meddwl ei bod yn briodol.

(5) Pan fo'r rheoliad hwn a rheoliad 16 yn gymwys i fyfyriwr cymwys, mae cyfnod cymhwystra hwyaf y myfyriwr i gael—

(a) benthyciad at ffioedd dysgu,

(b) grant sylfaenol,

(c) grant cynhaliaeth, neu

(d) grant at deithio

i'w gyfrifo yn unol â rheoliad 16.

(6) Ym mharagraff (2), ystyr "myfyriwr ar gwrs hyfforddi athrawon" yw myfyriwr nad yw'n athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig sy'n ymgymryd â chwrs llawnamser ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon nad yw'n para'n hwy na 2 flynedd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I15** Rhl. 15 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Y cyfnod cymhwystra hwyaf – benthyciadau at ffioedd dysgu a grantiau i fyfyrwyr penodol sy'n parhau â'u hastudiaethau

**16.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i'r canlynol—

(a) myfyriwr cymwys y mae ei gwrs presennol yn gwrs penben llawnamser (cyfeirir at y cwrs y mae'r cwrs presennol yn gwrs penben mewn perthynas ag ef ym mharagraff (2) fel y "cwrs rhagarweiniol");

(b) myfyriwr cymwys—

[F6(i) sydd wedi cwblhau cwrs perthnasol (y "cwrs rhagarweiniol"),]

(ii) y mae ei gwrs presennol yn gwrs gradd gyntaf llawnamser (ac eithrio cwrs gradd gyntaf ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon) na ddechreuodd y myfyriwr arno yn union ar ôl y cwrs rhagarweiniol; a

(iii) nad yw wedi ymgymryd â chwrs gradd gyntaf llawnamser ar ôl y cwrs rhagarweiniol a chyn y cwrs presennol;

(c) myfyriwr cymwys—

(i) sydd wedi cwblhau cwrs gradd sylfaen llawnamser [F7neu gwrs gradd arferol] (y "cwrs rhagarweiniol"),

(ii) y mae ei gwrs presennol yn gwrs gradd anrhydedd llawnamser na ddechreuodd y myfyriwr arno yn union ar ôl y cwrs rhagarweiniol, a

(iii) nad yw wedi ymgymryd â chwrs gradd gyntaf llawnamser ar ôl y cwrs rhagarweiniol a chyn y cwrs presennol.

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, y cyfnod cymhwystra hwyaf ar gyfer benthyciad at ffioedd dysgu, grant sylfaenol, grant cynhaliaeth, [F8neu] grant at deithio F9... yw'r cyfnod sydd wedi ei gyfrifo fel a ganlyn—

Tair blynedd neu gyfnod arferol y cwrs presennol, pa un bynnag yw'r hwyaf.

*Plws*

Un flwyddyn neu'r cyfnod arferol llai un flwyddyn o'r cwrs rhagarweiniol (neu gyfanswm y cyrsiau rhagarweiniol os cwblhaodd y myfyriwr fwy nag un cwrs sydd i'w drin yn gwrs rhagarweiniol), pa un bynnag yw'r hwyaf.

*Llai*

Nifer y blynyddoedd academaidd yr ymgymerodd y myfyriwr cymwys â hwy ar y cwrs rhagarweiniol (neu'r cyrsiau rhagarweiniol) ac eithrio blynyddoedd sydd wedi eu hailadrodd gan y myfyriwr cymwys am resymau personol anorchfygol.

(3) Os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu bod rheoliad 18 yn gymwys i fyfyriwr, cânt adio un neu ragor o flynyddoedd ychwanegol at y cyfrifiad a wneir o dan baragraff (2) fel y maent yn meddwl ei bod yn briodol.

[F10(4) Ym mharagraff (1)(b)(i), ystyr "cwrs perthnasol" yw cwrs llawnamser ar gyfer—

(a) y Diploma Addysg Uwch,

(b) y Dystysgrif Addysg Uwch, neu

(c) Diploma Cenedlaethol Uwch neu Dystysgrif Genedlaethol Uwch naill ai'r Cyngor Addysg Busnes a Thechnoleg neu Awdurdod Cymwysterau'r Alban.]

**Diwygiadau Testunol**

**F6** Rhl. 16(1)(b)(i) wedi ei amnewid (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **4(a)**

**F7** Geiriau yn rhl. 16(1)(c)(i) wedi eu mewnosod (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **4(b)**

**F8** Gair yn rhl. 16(2) wedi ei amnewid (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **4(c)(i)**

**F9** Geiriau yn rhl. 16(2) wedi eu hepgor (30.7.2018) yn rhinwedd Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **4(c)(ii)**

**F10** Rhl. 16(4) wedi ei fewnosod (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **4(d)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I16** Rhl. 16 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

## Y cyfnod cymhwystra hwyaf – dehongli

**17.**—(1) At ddibenion rheoliadau 12 a 14 i 16, ystyr "cyfnod arferol" cwrs yw nifer y blynyddoedd academaidd sy'n ofynnol fel arfer i'w gwblhau.

(2) At ddibenion cyfrifo—

(a) cyfnod cymhwystra hwyaf myfyriwr o dan reoliad 14(2), 15(2) neu 16(2), neu

(b) a yw cyfnod cymhwystra myfyriwr wedi dod i ben,

mae unrhyw flwyddyn rannol yr ymgymerodd y myfyriwr â hi i'w chyfrif fel blwyddyn academaidd gyfan.

(3) Yn rheoliadau 14 a 15, ystyr "cwrs blaenorol" yw cwrs—

(a) sy'n—

(i) cwrs addysg uwch llawnamser, neu

(ii) cwrs rhan-amser ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon,

y dechreuodd y myfyriwr ymgymryd ag ef cyn y cwrs presennol,

(b) sy'n bodloni un o'r amodau a nodir ym mharagraff (4), ac

(c) nad yw wedi ei eithrio rhag bod yn gwrs blaenorol yn rhinwedd paragraff (5), (6) neu (7).

(4) Yr amodau yw—

*Amod 1*
Mae'r cwrs yn cael ei ddarparu gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig a oedd yn sefydliad addysgol cydnabyddedig am rai neu bob un o'r blynyddoedd academaidd pan oedd y myfyriwr yn ymgymryd â'r cwrs.

*Amod 2*
Mae'r cwrs yn un—

(a) y talwyd mewn perthynas ag ef ysgoloriaeth, arddangostal, bwrsari, grant, lwfans neu ddyfarndal o unrhyw ddisgrifiad mewn cysylltiad â'r myfyriwr yn ymgymryd â'r cwrs i dalu ffioedd, a

(b) y darparwyd y taliad mewn perthynas ag ef gan sefydliad a gyllidir yn gyhoeddus.

(5) Nid yw cwrs sy'n dod o fewn paragraff (3)(a) a (b) er hynny yn gwrs blaenorol—

(a) os yw'r cwrs presennol yn gwrs llawnamser ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon nad yw'n para'n hwy na dwy flynedd, a

(b) os nad yw'r myfyriwr yn athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig.

(6) Nid yw cwrs ar gyfer y Dystysgrif mewn Addysg sy'n dod o fewn paragraff (3)(a) a (b) er hynny yn gwrs blaenorol—

(a) os yw'r cwrs presennol yn gwrs ar gyfer gradd (gan gynnwys gradd anrhydedd) Baglor mewn Addysg, a

(b) os—

(i) trosglwyddodd y myfyriwr i'r cwrs presennol o'r cwrs ar gyfer y Dystysgrif mewn Addysg cyn cwblhau'r cwrs hwnnw, neu

(ii) dechreuodd y myfyriwr ar y cwrs presennol ar ôl cwblhau'r cwrs ar gyfer y Dystysgrif mewn Addysg.

(7) Nid yw cwrs ar gyfer gradd (ac eithrio gradd anrhydedd) Baglor mewn Addysg yn gwrs blaenorol—

(a) os yw'r cwrs presennol yn gwrs ar gyfer gradd anrhydedd Baglor mewn Addysg, a

(b) os—

(i) trosglwyddodd y myfyriwr i'r cwrs presennol o'r cwrs ar gyfer gradd (ac eithrio gradd anrhydedd) Baglor mewn Addysg cyn cwblhau'r cwrs hwnnw, neu

(ii) dechreuodd y myfyriwr ar y cwrs presennol ar ôl cwblhau'r cwrs ar gyfer gradd (ac eithrio gradd anrhydedd) Baglor mewn Addysg.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I17** Rhl. 17 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Estyn y cyfnod hwyaf pan fo'r myfyriwr yn cael hysbysiad anghywir**

**18.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i fyfyriwr cymwys ("P")—

(a) y mae ei gyfnod cymhwystra hwyaf i'w gyfrifo yn unol â rheoliad 15 neu 16,

(b) sydd wedi darparu'r holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag—

(i) cwrs blaenorol yr ymgymerodd P ag ef, a

(ii) unrhyw gymwysterau sydd gan P, ac

(c) sydd wedi cael hysbysiad gan Weinidogion Cymru sy'n datgan cyfnod cymhwystra hwyaf anghywir.

(2) Ond nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys os yw'r hysbysiad yn anghywir oherwydd bod yr wybodaeth a ddarparwyd gan P yn sylweddol anghywir.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I18** Rhl. 18 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

*ADRAN 3*

*Terfynu cymhwystra*

### Terfynu cymhwystra yn gynnar

**19.**—(1) Mae cyfnod cymhwystra myfyriwr cymwys ("P") yn terfynu ar ddiwedd y diwrnod—

(a) pan fydd P yn tynnu'n ôl o'i gwrs dynodedig ac nad yw Gweinidogion Cymru yn trosglwyddo statws P fel myfyriwr cymwys o dan reoliad 28, neu

(b) pan fydd P yn cefnu ar ei gwrs dynodedig neu'n cael ei ddiarddel ohono.

(2) Pan—

(a) bo cwrs dynodedig myfyriwr cymwys ("P") yn gwrs dysgu o bell, a

(b) bo P yn ymgymryd â'r cwrs y tu allan i'r Deyrnas Unedig,

mae cyfnod cymhwystra P yn terfynu ar ddechrau'r diwrnod cyntaf pan fo P yn ymgymryd â'r cwrs y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

**[**[F11](3) Ond nid yw paragraff (2) yn gymwys os yw P yn ymgymryd â chwrs dysgu o bell y tu allan i'r Deyrnas Unedig oherwydd—

(a) bod P neu berthynas agos i P yn gwasanaethu fel aelod o'r lluoedd arfog, neu

(b) nad yw P yn gallu bod yn y Deyrnas Unedig am reswm sy'n ymwneud â'r coronafeirws.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F11** Rhl. 19(3) wedi ei amnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(2) o'r O.S. diwygio) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/708), **rhl. 5**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I19** Rhl. 19 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Camymddwyn a methu â darparu gwybodaeth gywir

**20.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru derfynu cyfnod cymhwystra myfyriwr cymwys os ydynt wedi eu bodloni bod ymddygiad y myfyriwr o'r fath fel nad yw'r myfyriwr yn addas mwyach i gael cymorth.

(2) Mae paragraff (3) yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod myfyriwr cymwys—

(a) wedi methu â chydymffurfio â gofyniad i ddarparu gwybodaeth neu ddogfennaeth o dan y Rheoliadau hyn, neu

(b) wedi darparu gwybodaeth neu ddogfennaeth a oedd yn sylweddol anghywir.

(3) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, caiff Gweinidogion Cymru—

(a) terfynu cyfnod cymhwystra'r myfyriwr;

(b) penderfynu nad yw'r myfyriwr yn cymhwyso i gael categori penodol o gymorth neu swm y cymorth hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I20** Rhl. 20 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Adfer cymhwystra ar ôl iddo derfynu

**21.**—(1) Pan fo cyfnod cymhwystra myfyriwr yn terfynu o dan reoliad 19 neu 20 yn ystod y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr yn cwblhau'r cwrs presennol ynddi, caiff Gweinidogion Cymru adfer cyfnod cymhwystra'r myfyriwr am unrhyw gyfnod y maent yn meddwl ei fod yn briodol.

(2) Ond ni chaniateir i gyfnod cymhwystra sydd wedi ei adfer estyn y tu hwnt i ddiwedd y cyfnod cymhwystra hwyaf a gyfrifir yn unol ag Adran 2 o'r Bennod hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I21** Rhl. 21 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Ffoaduriaid y mae eu caniatâd i aros wedi dod i ben

**22.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys—

(a) pan oedd person ("P") yn fyfyriwr cymwys Categori 2 (gweler Atodlen 2) mewn cysylltiad â chais am gymorth—

(i) ar gyfer blwyddyn gynharach o'r cwrs presennol,

(ii) ar gyfer cwrs llawnamser y mae'r cwrs presennol yn gwrs penben llawnamser mewn perthynas ag ef, neu

(iii) ar gyfer cwrs y mae statws P fel myfyriwr cymwys wedi cael ei drosglwyddo ohono i'r cwrs presennol o dan reoliad 28 neu baragraff 7 o Atodlen 5, a

(b) pan, ar ddiwedd y diwrnod cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi, fo statws ffoadur—

(i) P, neu

(ii) y person yr oedd ei statws fel ffoadur yn golygu bod P yn fyfyriwr cymwys Categori 2,

wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i aros wedi cael ei roi ac nad oes apêl yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002)(**17**).

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, mae statws P fel myfyriwr cymwys yn terfynu yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi.

(3) Yn y rheoliad hwn, mae i "ffoadur" yr ystyr a roddir gan baragraff 11 o Atodlen 2.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I22** Rhl. 22 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### [F12Personau y mae eu caniatâd i aros fel personau diwladwriaeth wedi dod i ben

**22A.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys—

(a) pan oedd person ("P") yn fyfyriwr cymwys Categori 2A (gweler Atodlen 2) mewn cysylltiad â chais am gymorth—

(i) ar gyfer blwyddyn gynharach o'r cwrs presennol,

(**17**) 2002 p. 41. Diwygiwyd adran 104 gan Ddeddf Lloches a Mewnfudo (Trin Ceiswyr etc.) 2004 (p. 19), Atodlenni 2 a 4, Deddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006 (p. 13), adran 9, O.S. 2010/21, Deddf Mewnfudo 2014 (p. 22), Atodlen 9.

(ii) ar gyfer cwrs llawnamser y mae'r cwrs presennol yn gwrs penben llawnamser mewn perthynas ag ef, neu

(iii) ar gyfer cwrs y mae statws P fel myfyriwr cymwys wedi cael ei drosglwyddo ohono i'r cwrs presennol o dan reoliad 28 neu baragraff 7 o Atodlen 5, a

(b) pan, ar ddiwedd y diwrnod cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi, fo'r cyfnod y caiff—

(i) P, neu

(ii) y person, oherwydd ei fod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth, a oedd yn peri i P fod yn fyfyriwr cymwys Categori 2A,

aros yn y Deyrnas Unedig wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i aros wedi cael ei roi ac nad oes cais am adolygiad gweinyddol yn unol â'r rheolau mewnfudo yn yr arfaeth.

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, mae statws P fel myfyriwr cymwys yn terfynu yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F12** Rhl. 22A wedi ei fewnosod (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **5**

**Personau eraill y mae eu caniatâd i ddod i mewn neu i aros wedi dod i ben**

**23.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys—

(a) pan oedd person ("P") **[**F13yn fyfyriwr cymwys Categori 3 neu'n fyfyriwr cymwys ar sail diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo (gweler Atodlen 2)**]** mewn cysylltiad â chais am gymorth—

(i) ar gyfer blwyddyn gynharach o'r cwrs presennol,

(ii) ar gyfer cwrs llawnamser y mae'r cwrs presennol yn gwrs penben llawnamser mewn perthynas ag ef, neu

(iii) ar gyfer cwrs y mae statws P fel myfyriwr cymwys wedi cael ei drosglwyddo ohono i'r cwrs presennol o dan reoliad 28 neu baragraff 7 o Atodlen 5, a

(b) pan, ar ddiwedd y diwrnod cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi, fo'r cyfnod y caiff—

(i) P, neu

(ii) y person, oherwydd bod ganddo ganiatâd i ddod i mewn neu i aros, a oedd yn peri i P fod yn fyfyriwr cymwys Categori 3 **[**F14neu'n fyfyriwr cymwys ar sail diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo**]** ,

aros yn y Deyrnas Unedig wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i aros wedi cael ei roi ac nad oes apêl yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002).

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, mae statws P fel myfyriwr cymwys yn terfynu yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi.

**Diwygiadau Testunol**

**F13** Geiriau yn rhl. 23(1)(a) wedi eu hamnewid (28.1.2021) gan Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/9), rhlau. 1(2), **42(a)**

**F14** Geiriau yn rhl. 23(1)(b)(ii) wedi eu mewnosod (28.1.2021) gan Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/9), rhlau. 1(2), **42(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I23** Rhl. 23 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**[F15 Personau y mae eu caniatâd i aros o dan adran 67 wedi dod i ben**

**23A.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys—

(a) pan oedd person ("P") yn fyfyriwr cymwys Categori 3A (gweler Atodlen 2) mewn cysylltiad â chais am gymorth—

(i) ar gyfer blwyddyn gynharach o'r cwrs presennol,

(ii) ar gyfer cwrs llawnamser y mae'r cwrs presennol yn gwrs penben llawnamser mewn perthynas ag ef, neu

(iii) ar gyfer cwrs y mae statws P fel myfyriwr cymwys wedi cael ei drosglwyddo ohono i'r cwrs presennol o dan reoliad 28 neu baragraff 7 o Atodlen 5, a

(b) pan, ar ddiwedd y diwrnod cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi, fo'r cyfnod y caiff—

(i) P, neu

(ii) y person, oherwydd bod ganddo ganiatâd i aros o dan adran 67, a oedd yn peri i P fod yn fyfyriwr cymwys Categori 3A,

aros yn y Deyrnas Unedig wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i aros wedi cael ei roi ac nad oes apêl yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002).

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, mae statws P fel myfyriwr cymwys yn terfynu yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F15** Rhl. 23A wedi ei fewnosod (gyda chais yn unol â rhl. 1(3)(b) of the amending S.I.) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/235), rhlau. 1(3)(a), **43**

*ADRAN 4*

*Astudio blaenorol*

**Myfyrwyr llawnamser – cyfyngiadau ar gymorth i raddedigion â gradd anrhydedd**

**24.**—(1) Os yw myfyriwr cymwys sy'n ymgymryd â chwrs llawnamser wedi cael gradd anrhydedd o sefydliad yn y Deyrnas Unedig ("person â gradd anrhydedd"), nid yw'r myfyriwr yn cymhwyso i gael benthyciad at ffioedd dysgu, grant sylfaenol, grant cynhaliaeth neu fenthyciad cynhaliaeth o dan y Rheoliadau hyn oni bai bod y myfyriwr—

(a) yn dod o fewn un o'r Achosion a nodir ym mharagraff (2), a

(b) ym mhob Achos, yn bodloni'r amodau cymhwyso penodol sy'n ymwneud â'r cymorth o dan sylw.

(2) Yr Achosion yw—

*Achos 1*

Caiff person â gradd anrhydedd gymhwyso i gael cymorth o dan y Rheoliadau hyn os yw'r cwrs presennol yn—

(a) cwrs ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon nad yw'n para'n hwy na dwy flynedd, ac nid yw'r person graddedig yn athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig, neu'n

(b) cwrs mynediad graddedig carlam.

*Achos 2*
Caiff person â gradd anrhydedd gymhwyso i gael benthyciad cynhaliaeth os yw unrhyw un neu ragor o'r canlynol yn gymwys—

(a) mae'r cwrs presennol yn arwain at gymhwyster fel gweithiwr cymdeithasol, meddyg, deintydd, milfeddyg neu bensaer;

(b) mae'r person graddedig i gael unrhyw daliad o dan—

(i) bwrsari gofal iechyd y mae ei swm yn cael ei gyfrifo drwy gyfeirio at incwm y person graddedig, neu

(ii) lwfans gofal iechyd yr Alban y mae ei swm yn cael ei gyfrifo drwy gyfeirio at incwm y person graddedig mewn cysylltiad ag unrhyw flwyddyn academaidd o'r cwrs presennol;

(c) mae'r cwrs presennol yn gwrs ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon.

*Achos 3*
Er gwaethaf paragraff (1)—

(a) os ystyrir bod y cwrs presennol yn gwrs sengl yn rhinwedd rheoliad 6(3) a (4), a

(b) os yw'r cwrs yn arwain at roi gradd anrhydedd o sefydliad yn y Deyrnas Unedig i'r myfyriwr cymwys cyn y radd derfynol neu'r cymhwyster cyfatebol,

nid yw rhoi'r radd anrhydedd honno yn rhwystro'r myfyriwr rhag cymhwyso i gael cymorth o dan y Rheoliadau hyn mewn cysylltiad ag unrhyw ran o'r cwrs sengl hwnnw.

*Achos 4*
Mae rheoliad 26 yn gymwys.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I24** Rhl. 24 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Myfyrwyr rhan-amser – cyfyngiadau ar gymorth i raddedigion**

**25.**—(1) Os yw myfyriwr cymwys sy'n ymgymryd â chwrs rhan-amser wedi cael gradd gyntaf o sefydliad yn y Deyrnas Unedig ("person graddedig"), nid yw'r myfyriwr yn cymhwyso i gael cymorth o dan y Rheoliadau hyn ac eithrio grant myfyriwr anabl oni bai bod y myfyriwr yn dod o fewn un o'r Achosion a nodir ym mharagraff (2).

(2) Yr Achosion yw—

*Achos 1*
O ran y radd gyntaf—

(a) nid gradd anrhydedd ydoedd; a

(b) fe'i dyfarnwyd i'r person graddedig ar ôl iddo gwblhau'r modiwlau, yr arholiadau neu'r mathau eraill o asesiad a oedd yn ofynnol ar gyfer y radd gyntaf honno,

ac mae'r person graddedig yn ymgymryd â'r cwrs presennol er mwyn cael gradd anrhydedd ar ôl cwblhau'r modiwlau, yr arholiadau neu'r mathau eraill o asesiad sy'n ofynnol (pa un a yw'r person graddedig yn parhau i wneud y cwrs yn yr un sefydliad a ddyfarnodd y radd gyntaf iddo ai peidio).

*Achos 2*
Mae'r cwrs presennol yn gwrs ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon nad yw'n para'n hwy na phedair blynedd ac nid yw'r person graddedig yn athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig.

*[F16 Achos 3*
Mae'r cwrs presennol yn arwain at radd anrhydedd ac—

(a) (a) yn ymwneud ag astudio hanes a gramadeg y Gymraeg a'r defnydd ohoni,

(b) (b) yn gwrs y mae ei god a'i label o dan y Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch wedi eu rhestru yn Atodlen 5A, neu

( c) wedi ei restru yn y Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch yn un o grwpiau'r Hierarchiaeth Cydgasglu Cyffredin yng Ngholofn 1 o Dabl A1 ac eithrio ar gyfer y pynciau hynny y mae eu cod a'u label o dan y Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch wedi eu pennu yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 2.

**Tabl A1**

| *Colofn 1*<br>*Grwpiau'r Hierarchiaeth Cydgasglu Cyffredin* | *Colofn 2*<br>*Cod a label Pynciau a eithrir* |
|---|---|
| Pynciau perthynol i feddygaeth (**CAH02**) | |
| Y gwyddorau biolegol a'r gwyddorau chwaraeon (**CAH03**) | |
| Seicoleg (**CAH04**) | |
| Milfeddygaeth (**CAH05**) | |
| Amaethyddiaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig (**CAH06**) | |
| Y gwyddorau ffisegol (**CAH07**) | (**100392**) Gwyddoniaeth gymhwysol |
| | (**100390**) Gwyddoniaeth gyffredinol |
| | (**100391**) Y gwyddorau naturiol |
| Y gwyddorau mathemategol (**CAH09**) | |
| Peirianneg a thechnoleg (**CAH10**) | |
| Cyfrifiadura (**CAH11**) ] | |

(c) (c) yn gwrs y mae ei god a'i label o dan y Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch wedi eu rhestru yn Atodlen 5A.

*Achos 4*
Mae rheoliad 26 yn gymwys.

[F17(3) Yn Achos 3, ystyr "Hierarchiaeth Cydgasglu Cyffredin" yw fersiwn 1.3.3 o'r Hierarchiaeth Cydgasglu Cyffredin sydd wedi ei chymeradwyo gan Grŵp Llywio Tirwedd Ddata yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ac ystyr "y Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch" yw'r

Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch a gynhelir gan Wasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch.]

**Diwygiadau Testunol**

**F16** Geiriau yn rhl. 25(2) wedi eu hamnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(2) o'r O.S. diwygio) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 45(a)**

**F17** Rhl. 25(3) wedi ei amnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(2) o'r O.S. diwygio) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 45(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I25** Rhl. 25 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Codi'r cyfyngiadau pan geir hysbysiad anghywir

**26.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys—

(a) pan fo person â gradd anrhydedd o fewn ystyr rheoliad 24 neu berson graddedig o fewn ystyr rheoliad 25 ("G") wedi darparu'r holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â gradd anrhydedd neu, yn ôl y digwydd, radd gyntaf, a ddyfarnwyd i'r person o'r blaen, a

(b) pan fo G yn cael hysbysiad gan Weinidogion Cymru sy'n datgan yn anghywir fod G yn cymhwyso i gael cymorth o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, caiff G gymhwyso i gael y cymorth a bennir yn yr hysbysiad am y cyfnod hwnnw y mae Gweinidogion Cymru yn meddwl ei fod yn briodol.

(3) Ond nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys os yw'r hysbysiad yn anghywir oherwydd bod yr wybodaeth a ddarparwyd gan G yn sylweddol anghywir.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I26** Rhl. 26 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Cyfyngiad pellach ar gymorth i fyfyrwyr rhan-amser

**27.**—(1) Nid yw myfyriwr cymwys sy'n ymgymryd â chwrs rhan-amser yn cymhwyso i gael cymorth o dan y Rheoliadau hyn ac eithrio grant myfyriwr anabl os yw'r myfyriwr—

(a) wedi ymgymryd ag un neu ragor o gyrsiau rhan-amser am gyfnod cyfanredol o—

(i) 8 mlynedd academaidd o leiaf (pan ddechreuodd y cwrs hwnnw neu'r cwrs cynharaf o'r cyrsiau hynny cyn 1 Medi 2014), neu

(ii) 16 o flynyddoedd academaidd o leiaf (pan ddechreuodd y cwrs hwnnw neu'r cwrs cynharaf o'r cyrsiau hynny ar neu ar ôl 1 Medi 2014), a

(b) wedi cael cymorth perthnasol mewn cysylltiad ag o leiaf 8 neu, yn ôl y digwydd, 16 o'r blynyddoedd academaidd hynny o'r cwrs rhan-amser neu'r cyrsiau rhan-amser.

(2) Ym mharagraff (1)(b), ystyr "cymorth perthnasol" yw—

(a) benthyciad, grant mewn cysylltiad â ffioedd neu grant at lyfrau, teithio a gwariant arall a wneir mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd—

(i) o dan y Rheoliadau hyn neu unrhyw reoliadau eraill a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998, neu

(ii) o dan reoliadau a wneir o dan Erthyglau 3 ac 8(4) o Orchymyn Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Gogledd Iwerddon) 1998(**18**);

(b) benthyciad a wneir mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd o dan reoliadau a wneir o dan adrannau 73(f), 73B a 74(1) o Ddeddf Addysg (Yr Alban) 1980(**19**).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I27** Rhl. 27 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

*ADRAN 5*

*Trosglwyddo a throsi*

### Trosglwyddo statws

**28.**—(1) Pan fo myfyriwr cymwys yn trosglwyddo o gwrs dynodedig (yn yr Adran hon, yr "hen gwrs") i gwrs dynodedig arall (yn yr Adran hon, y "cwrs newydd"), rhaid i Weinidogion Cymru drosglwyddo statws y myfyriwr fel myfyriwr cymwys i'r cwrs newydd—

(a) os ydynt yn cael cais oddi wrth y myfyriwr i wneud hynny,

(b) os ydynt wedi eu bodloni bod un o'r seiliau trosglwyddo yn gymwys (gweler paragraff (2)), ac

(c) os nad yw cyfnod cymhwystra'r myfyriwr wedi dod i ben nac wedi cael ei derfynu.

(2) Y seiliau trosglwyddo yw—

*Y sail gyntaf*
Mae'r myfyriwr cymwys yn peidio ag ymgymryd â'r hen gwrs ac yn ymgymryd â'r cwrs newydd yn yr un sefydliad.

Gan gynnwys—

(a) pan na fo'r hen gwrs yn gwrs gradd cywasgedig, os yw'r myfyriwr yn ymgymryd â'r un cwrs fel cwrs gradd cywasgedig, neu

(b) pan fo'r hen gwrs yn gwrs gradd cywasgedig, os yw'r myfyriwr yn ymgymryd â'r un cwrs ar y sail nad yw'n gywasgedig.

*Yr ail sail*
Mae'r myfyriwr cymwys yn ymgymryd â'r cwrs newydd mewn sefydliad arall.

*Y drydedd sail*
Ar ôl iddo ddechrau cwrs ar gyfer y Dystysgrif mewn Addysg, mae'r myfyriwr cymwys, wrth gwblhau'r cwrs hwnnw neu cyn hynny, yn cael ei dderbyn ar gwrs dynodedig ar gyfer gradd (gan gynnwys gradd anrhydedd) Baglor mewn Addysg.

*Y bedwaredd sail*

(**18**) O.S. 1998/1760 (G.I. 14), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**19**) 1980 p. 44; mewnosodwyd adran 73B gan adran 29(2) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30) ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg (Gwaddol Graddedigion a Chymorth i Fyfyrwyr) (Yr Alban) 2001 (dsa 6), Atodlen 6 i Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p. 1), adran 34(1) o Ddeddf Methdaliad a Diwydrwydd etc. (Yr Alban) 2007 (dsa 3) ac Atodlen 8 i Ddeddf Methdaliad (Yr Alban) 2016 (dsa 21).

Ar ôl iddo ddechrau cwrs ar gyfer gradd (ac eithrio gradd anrhydedd) Baglor mewn Addysg, mae'r myfyriwr cymwys, wrth gwblhau'r cwrs hwnnw neu cyn hynny, yn cael ei dderbyn ar gwrs dynodedig ar gyfer gradd anrhydedd Baglor mewn Addysg.

*Y bumed sail*
Ar ôl iddo ddechrau cwrs ar gyfer gradd gyntaf (ac eithrio gradd anrhydedd), mae'r myfyriwr cymwys, cyn cwblhau'r cwrs hwnnw, yn cael ei dderbyn ar gwrs dynodedig ar gyfer gradd anrhydedd yn yr un pwnc yn yr un sefydliad.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I28** Rhl. 28 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Effaith trosglwyddiad – benthyciadau at ffioedd dysgu

**29.** Pan fo Gweinidogion Cymru yn trosglwyddo statws myfyriwr cymwys o dan reoliad 28 yn ystod blwyddyn academaidd, mae swm y benthyciad at ffioedd dysgu sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd honno i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru fel a ganlyn—

*Cam 1*
Cyfrifo, yn unol â Rhan 6, symiau'r benthyciad at ffioedd dysgu a fyddai wedi bod yn daladwy mewn cysylltiad ag—

(a) yr hen gwrs, a

(b) y cwrs newydd,

ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfan.

*Cam 2*
Gostwng y symiau hyn yn ôl y gyfran honno y mae Gweinidogion Cymru yn meddwl ei bod yn briodol ar ôl rhoi sylw i—

(a) y diwrnod y mae'r trosglwyddiad yn digwydd arno, a

(b) yr angen i sicrhau nad yw unrhyw swm yn daladwy mewn cysylltiad â'r ddau gwrs ar gyfer yr un cyfnod.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I29** Rhl. 29 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Effaith trosglwyddiad –benthyciadau cynhaliaeth a grantiau

**30.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn trosglwyddo statws myfyriwr cymwys o dan reoliad 28 yn ystod blwyddyn academaidd.

(2) Os yw rheoliad 31 yn gymwys i'r trosglwyddiad, rhaid i gyfanswm unrhyw fenthyciad cynhaliaeth a grantiau sy'n daladwy i'r myfyriwr cymwys ar gyfer y flwyddyn academaidd gael ei ailasesu yn unol â'r rheoliad hwnnw.

(3) Os nad yw rheoliad 31 yn gymwys i'r trosglwyddiad—

(a) caiff Gweinidogion Cymru ailasesu swm unrhyw fenthyciad cynhaliaeth a grantiau sy'n daladwy i'r myfyriwr cymwys ar gyfer y flwyddyn academaidd, ond

(b) os na wneir unrhyw ailasesiad, cyfanswm unrhyw fenthyciad cynhaliaeth a grantiau sy'n daladwy i'r myfyriwr cymwys yw'r swm y mae Gweinidogion Cymru wedi ei asesu fel y swm sy'n daladwy i'r myfyriwr ar gyfer y flwyddyn academaidd mewn cysylltiad â'r hen gwrs.

(4) Mae paragraff (5) yn gymwys pan fo'r trosglwyddiad yn digwydd ar ôl i Weinidogion Cymru asesu swm unrhyw fenthyciad cynhaliaeth **[**[F18]neu**]** grantiau sy'n daladwy i'r myfyriwr cymwys ar gyfer y flwyddyn academaidd mewn cysylltiad â'r hen gwrs ond cyn i'r myfyriwr gwblhau'r flwyddyn honno.

(5) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, ni chaiff y myfyriwr cymwys wneud cais mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd y cwrs newydd am grant neu fenthyciad arall o fath y mae'r myfyriwr eisoes wedi gwneud cais amdano mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd yr hen gwrs (oni bai bod y Rheoliadau hyn yn rhoi caniatâd penodol i wneud hynny).

(6) Pan, yn union cyn y trosglwyddiad—

(a) oedd y myfyriwr cymwys yn gymwys i wneud cais am fenthyciad cynhaliaeth ar gyfer blwyddyn academaidd yr hen gwrs, a

(b) nad oedd y myfyriwr cymwys wedi gwneud cais am yr uchafswm yr oedd ganddo hawlogaeth i'w gael,

nid yw paragraff (5) yn rhwystro'r myfyriwr rhag gwneud cais am swm ychwanegol o fenthyciad (pa un a yw ailasesiad yn cael ei wneud o dan y rheoliad hwn neu o dan reoliad 31 ai peidio).

(7) Pan fo myfyriwr cymwys wedi gwneud cais am grant myfyriwr anabl ar gyfer y flwyddyn academaidd y mae'r trosglwyddiad yn digwydd ynddi, nid yw paragraff (5) yn rhwystro'r myfyriwr rhag gwneud cais pellach o'r fath—

(a) at ddiben nad yw'r myfyriwr eisoes wedi gwneud cais amdano, neu

(b) am swm ychwanegol mewn cysylltiad â diben y mae'r myfyriwr eisoes wedi gwneud cais amdano.

**Diwygiadau Testunol**

**F18** Gair yn rhl. 30(4) wedi ei amnewid (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **6**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I30** Rhl. 30 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Trosglwyddiadau sy'n cynnwys trosi rhwng astudio rhan-amser ac astudio llawnamser

**31.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan, mewn perthynas â throsglwyddiad o dan reoliad 28—

(a) bo'r hen gwrs yn gwrs llawnamser a bod y cwrs newydd yn gwrs rhan-amser, neu

(b) bo'r hen gwrs yn gwrs rhan-amser a bod y cwrs newydd yn gwrs llawnamser.

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, mae cyfanswm unrhyw fenthyciad cynhaliaeth a grantiau sy'n daladwy i'r myfyriwr cymwys ar gyfer y flwyddyn academaidd i'w ailasesu gan Weinidogion Cymru fel a ganlyn—

*Cam 1*

Cyfrifo, yn unol â Rhannau 7 i 11, symiau unrhyw fenthyciad cynhaliaeth a grantiau a fyddai wedi bod yn daladwy mewn cysylltiad ag—

(a) yr hen gwrs, a

(b) y cwrs newydd,

ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfan.

*Cam 2*

Gostwng y symiau hynny drwy eu lluosi â'r ffracsiwn priodol.

Cyfanswm y ddau swm a geir o dan Gam 2 yw cyfanswm y benthyciad cynhaliaeth a'r grantiau sy'n daladwy i'r myfyriwr ar gyfer y flwyddyn academaidd y mae'r trosglwyddiad yn digwydd ynddi.

(3) Yng Ngham 2 o baragraff (2), y ffracsiwn priodol mewn perthynas â'r hen gwrs yw'r ffracsiwn pan—

(a) y rhifiadur yw nifer y diwrnodau yn y flwyddyn academaidd hyd at a chan gynnwys y diwrnod y mae'r trosglwyddiad yn digwydd arno, a

(b) yr enwadur yw cyfanswm nifer y diwrnodau yn y flwyddyn academaidd.

(4) Yng Ngham 2 o baragraff (2), y ffracsiwn priodol mewn perthynas â'r cwrs newydd yw'r ffracsiwn pan—

(a) y rhifiadur yw nifer y diwrnodau sy'n weddill yn y flwyddyn academaidd ar ôl y diwrnod y mae'r trosglwyddiad yn digwydd arno, a

(b) yr enwadur yw cyfanswm nifer y diwrnodau yn y flwyddyn academaidd.

(5) Er mwyn osgoi amheuaeth, pan fo dyddiad cychwyn y flwyddyn academaidd ar gyfer y cwrs newydd ar ôl dyddiad cychwyn y flwyddyn academaidd ar gyfer yr hen gwrs, mae cyfeiriadau ym mharagraff (4) at y flwyddyn academaidd yn gyfeiriadau at y flwyddyn academaidd ar gyfer y cwrs newydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I31** Rhl. 31 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 5

## CEISIADAU, DARPARU GWYBODAETH A CHONTRACTAU BENTHYCIADAU

### Gofyniad i wneud cais am gymorth

**32.**—(1) Nid yw person yn cymhwyso i gael cymorth fel myfyriwr cymwys mewn perthynas â blwyddyn academaidd oni bai bod y person yn gwneud cais am y cymorth hwnnw mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd.

(2) Rhaid i gais o dan baragraff (1)—

(a) bod ar y ffurf honno a chynnwys yr wybodaeth honno a bennir gan Weinidogion Cymru,

(b) cynnwys unrhyw ddogfennaeth sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru, ac

(c) cyrraedd Gweinidogion Cymru o fewn y terfyn amser a bennir yn rheoliad 33.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I32** Rhl. 32 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Y terfyn amser ar gyfer gwneud cais

**33.**—(1) Y rheol gyffredinol yw bod rhaid i gais o dan reoliad 32(1) gyrraedd Gweinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na diwedd y nawfed mis o'r flwyddyn academaidd y mae'n ymwneud â hi.

(2) Ond os yw unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau a nodir yng Ngholofn 1 o Dabl 1 yn gymwys, rhaid i gais gyrraedd Gweinidogion Cymru o fewn y terfyn amser a bennir yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 2.

**Tabl 1**

| *Colofn 1*<br><br>*Amgylchiadau sy'n ymwneud â chais am gymorth* | *Colofn 2*<br><br>*Y terfyn amser ar gyfer gwneud cais* |
|---|---|
| Mae'r ceisydd yn cymhwyso i gael cymorth ar ôl diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd yn dilyn digwyddiad a restrir yn rheoliad 80(2) neu 81(3) neu baragraff 4(2) o Atodlen 5. | Heb fod yn hwyrach na diwedd y cyfnod o naw mis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r digwyddiad yn digwydd. |
| Mae'r cais am fenthyciad at ffioedd dysgu, benthyciad cynhaliaeth neu fenthyciad at ffioedd colegau Oxbridge.<br><br>Mae'r cais am swm ychwanegol o fenthyciad at ffioedd dysgu o dan reoliad 42 neu fenthyciad cynhaliaeth o dan reoliad 60 neu'n fenthyciad at ffioedd colegau Oxbridge o dan baragraff 6(2) o Atodlen 5. | Heb fod yn hwyrach nag un mis cyn diwedd y flwyddyn academaidd y mae'r cais yn ymwneud â hi. |
| Mae'r cais am grant myfyriwr anabl. | Rhaid i'r cais gyrraedd Gweinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. |
| Mae Gweinidogion Cymru yn meddwl, ar ôl rhoi sylw i amgylchiadau achos penodol, ei bod yn briodol estyn y terfyn amser ar gyfer gwneud cais. | Heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a bennir yn ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru yn yr achos penodol. |

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I33** Rhl. 33 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Penderfyniad Gweinidogion Cymru ar gais

**34.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru gymryd unrhyw gamau a gwneud unrhyw ymholiadau y maent yn meddwl eu bod yn angenrheidiol er mwyn gwneud penderfyniad ar gais o dan reoliad 32.

(2) Caiff y camau hynny gynnwys ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd ddarparu gwybodaeth neu ddogfennaeth bellach.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru wneud penderfyniad dros dro ar gais o dan reoliad 32 (gweler rheoliad 82 am ddarpariaeth ynghylch taliadau a wneir ar sail penderfyniad dros dro).

(4) Caniateir i benderfyniad ar gais a wneir gan Weinidogion Cymru ar ôl i benderfyniad dros dro gael ei wneud—

(a) cadarnhau'r penderfyniad dros dro, neu

(b) rhoi penderfyniad gwahanol yn ei le.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r ceisydd am benderfyniad (gan gynnwys penderfyniad dros dro) ar gais o dan reoliad 32.

(6) Rhaid i'r hysbysiad ddatgan—

(a) a yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y ceisydd yn fyfyriwr cymwys,

(b) os felly, a yw'r myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael cymorth mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd,

(c) os yw'r myfyriwr yn cymhwyso, gategori'r cymorth y mae'r myfyriwr yn cymhwyso i'w gael a'r swm sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn academaidd,

(d) os yw'r cymorth yn cynnwys grant myfyriwr anabl, ddadansoddiad o'r grant hwnnw sy'n pennu'r swm sy'n daladwy mewn cysylltiad â phob math o wariant a grybwyllir yn rheoliad 63(2), ac

(e) yn achos penderfyniad dros dro, y ffaith bod y penderfyniad yn un dros dro a chanlyniadau'r ffaith honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I34** Rhl. 34 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

[F19 **34A.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys—

(a) pan fo person ("P") yn gwneud cais am gymorth yn unol â rheoliad 32,

(b) pan na fo unrhyw wybodaeth neu ddogfennaeth a ddarparwyd gan P yn y cais, neu mewn cysylltiad ag ef, yn sylweddol anghywir, ac

(c) pan fo P yn cael hysbysiad gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 34(5) sy'n datgan yn anghywir fod P yn fyfyriwr cymwys.

(2) Er bod yr hysbysiad yn datgan yn anghywir fod P yn fyfyriwr cymwys, caiff Gweinidogion Cymru, at ddibenion y Rheoliadau hyn, drin P fel pe bai'n fyfyriwr cymwys.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F19** Rhl. 34A wedi ei fewnosod (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **7**

**Gofynion ar fyfyrwyr cymwys i ddarparu gwybodaeth**

**35.**—(1) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael cais i wneud hynny, rhaid i fyfyriwr cymwys ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth neu ddogfennaeth sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru—

(a) at ddibenion penderfynu—

(i) cymhwystra myfyriwr;

(ii) a yw myfyriwr yn cymhwyso i gael categori penodol o gymorth;

(iii) swm y cymorth sy'n daladwy i fyfyriwr;

(iv) a yw gordaliad wedi cael ei wneud i fyfyriwr;

(b) at unrhyw ddiben sy'n ymwneud ag adennill gordaliad;

(c) at unrhyw ddiben sy'n ymwneud ag ad-dalu benthyciad;

(d) at unrhyw ddiben arall sy'n ymwneud â'r Rheoliadau hyn y mae Gweinidogion Cymru yn meddwl ei fod yn briodol.

(2) Caniateir i gais o dan baragraff (1) gynnwys gofyn i fyfyriwr cymwys am gael gweld—

(a) ei basbort dilys a ddyroddwyd gan y wladwriaeth y mae'r myfyriwr hwnnw yn wladolyn ohoni,

(b) ei gerdyn adnabod cenedlaethol dilys, neu

(c) ei dystysgrif geni.

(3) Pan fo digwyddiad a grybwyllir ym mharagraff (4) yn digwydd mewn cysylltiad â myfyriwr cymwys, rhaid i'r myfyriwr hysbysu Gweinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y digwyddiad.

(4) Y digwyddiadau yw—

(a) bod y myfyriwr yn tynnu'n ôl o'r cwrs presennol, yn cefnu arno neu'n cael ei ddiarddel ohono;

(b) bod y myfyriwr yn trosglwyddo i gwrs arall (pa un ai yn yr un sefydliad neu mewn sefydliad gwahanol);

(c) bod y myfyriwr fel arall yn peidio ag ymgymryd â'r cwrs presennol ac nad yw'n bwriadu parhau ag ef am weddill y flwyddyn academaidd neu na chaniateir iddo barhau ag ef am weddill y flwyddyn academaidd;

(d) bod y myfyriwr yn absennol o'r cwrs presennol—

(i) am fwy na 60 diwrnod oherwydd salwch, neu

(ii) am unrhyw gyfnod am unrhyw reswm arall;

(e) bod y mis ar gyfer dechrau ar y cwrs presennol neu ei gwblhau yn newid;

(f) bod y manylion a ganlyn, sef—

(i) cyfeiriad cartref y myfyriwr neu ei gyfeiriad yn ystod y tymor,

(ii) rhif ffôn cartref y myfyriwr neu ei rif ffôn yn ystod y tymor, neu

(iii) cyfeiriad e-bost cartref y myfyriwr neu ei gyfeiriad e-bost yn ystod y tymor,

yn newid.

(5) Rhaid darparu gwybodaeth neu ddogfennaeth y mae'n ofynnol iddi gael ei darparu i Weinidogion Cymru o dan y Rheoliadau hyn ar y ffurf honno a bennir gan Weinidogion Cymru.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol bod rhaid llofnodi—

(a) cais o dan reoliad 32;

(b) unrhyw ddogfennaeth arall a ddarperir iddynt o dan y Rheoliadau hyn,

yn y modd (gan gynnwys ar ffurf electronig) a bennir ganddynt.

(7) Mae'r cyfeiriad at fyfyriwr cymwys ym mharagraff (1) i'w drin fel pe bai'n cynnwys person sy'n gwneud cais o dan reoliad 32 hyd yn oed os penderfyniad Gweinidogion Cymru ar y cais yw nad yw'r person yn fyfyriwr cymwys.

(8) Gweler rheoliad 20 am ddarpariaeth ynghylch canlyniadau methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan y rheoliad hwn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I35** Rhl. 35 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Gofyniad i ymrwymo i gontract ar gyfer benthyciad**

**36.**—(1) Ni chaiff myfyriwr cymwys gael benthyciad at ffioedd dysgu neu fenthyciad cynhaliaeth o dan y Rheoliadau hyn oni bai bod y myfyriwr yn ymrwymo i gontract ar gyfer y benthyciad â Gweinidogion Cymru.

(2) O ran y contract—

(a) rhaid iddo fod ar y ffurf ac ar y telerau, a

(b) gall fod yn ofynnol iddo gael ei lofnodi yn y modd (gan gynnwys ar ffurf electronig),

a bennir gan Weinidogion Cymru.

(3) Caiff y contract ei gwneud yn ofynnol i'r myfyriwr cymwys ad-dalu benthyciad drwy ddull penodol.

(4) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi gofyn am gytundeb y myfyriwr ynghylch y dull ad-dalu, cânt gadw yn ôl unrhyw daliad o fenthyciad cynhaliaeth hyd nes bod y myfyriwr yn darparu'r hyn y gofynnwyd amdano.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I36** Rhl. 36 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Gofyniad ar awdurdod academaidd i hysbysu pan fo myfyriwr yn ymadael â chwrs**

**37.** Pan fo benthyciad at ffioedd dysgu yn daladwy i fyfyriwr cymwys—

(a) sydd wedi peidio ag ymgymryd â'r cwrs presennol yn ystod y flwyddyn academaidd, a

(b) y mae'r awdurdod academaidd wedi penderfynu neu wedi cytuno na fydd yn dychwelyd yn ystod y flwyddyn honno,

rhaid i'r awdurdod academaidd hysbysu Gweinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol fod y myfyriwr wedi peidio ag ymgymryd â'r cwrs.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I37** Rhl. 37 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 6

## BENTHYCIADAU AT FFIOEDD DYSGU

**Benthyciad at ffioedd dysgu**

**38.** Benthyciad sy'n cael ei roi ar gael gan Weinidogion Cymru i fyfyriwr cymwys ar gyfer talu ffioedd dysgu mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd yw benthyciad at ffioedd dysgu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I38** Rhl. 38 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Amodau cymhwyso i gael benthyciad at ffioedd dysgu

**39.**—(1) Mae myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael benthyciad at ffioedd dysgu mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd o'r cwrs presennol oni bai bod un o'r eithriadau a ganlyn yn gymwys—

*Eithriad 1*

Pan na fo'r cwrs presennol yn gwrs mynediad graddedig carlam, mae'r flwyddyn academaidd yn flwyddyn Erasmus o gwrs a ddarperir gan sefydliad yng Ngogledd Iwerddon.

*Eithriad 2*

Pan na fo'r cwrs presennol yn gwrs mynediad graddedig carlam, mae'r flwyddyn academaidd yn flwyddyn y mae myfyriwr yn gymwys i wneud cais mewn cysylltiad â hi am—

(a) bwrsari gofal iechyd, neu

(b) lwfans gofal iechyd yr Alban,

a gyfrifir drwy gyfeirio at incwm y myfyriwr (pa un a yw swm y cyfrifiad yn cyfateb i ddim ai peidio).

*Eithriad 3*

Pan fo'r cwrs presennol yn gwrs rhan-amser neu'n gwrs mynediad graddedig carlam, mae'r flwyddyn academaidd yn flwyddyn Erasmus o'r cwrs a ddarperir gan sefydliad yn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig.

*Eithriad 4*

**[**[F20]Mae'r cwrs presennol yn gwrs dysgu o bell ac nid yw'r myfyriwr ("M") yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys pan—

(a) na fo M yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs oherwydd bod M, neu berthynas agos i M, yn gwasanaethu fel aelod o'r lluoedd arfog y tu allan i Gymru, neu

(b) na fo M yn gallu bod yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs am reswm sy'n ymwneud â'r coronafeirws.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F20** Geiriau yn rhl. 39 wedi eu hamnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(2) o'r O.S. diwygio) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/708), **rhl. 6**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I39** Rhl. 39 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Swm benthyciad at ffioedd dysgu

**40.**—(1) Ni chaiff swm benthyciad at ffioedd dysgu mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd fod yn fwy na'r lleiaf o'r canlynol—

(a) y ffioedd dysgu sy'n daladwy gan y myfyriwr cymwys mewn cysylltiad â'r flwyddyn honno, neu

(b) uchafswm y benthyciad.

(2) Cyfrifir uchafswm y benthyciad yn unol â Thabl 2 pan fo—

(a) Colofn 1 yn pennu'r flwyddyn academaidd y mae uchafsymiau'r benthyciad yng Ngholofn 5 yn daladwy mewn perthynas â hi;

(b) Colofn 2 yn pennu'r categori o fyfyriwr y mae uchafsymiau'r benthyciad yng Ngholofn 5 yn gymwys iddo (gweler paragraff (3));

(c) Colofn 3 yn pennu'r math o ddarparwr cwrs, pan—

(i) ystyr "darparwr arferol" yw darparwr sy'n dod o fewn Amod 4 o reoliad 6(1);

(ii) ystyr "sefydliad preifat" yw sefydliad, nad yw'n sefydliad addysgol cydnabyddedig, sy'n darparu cwrs a bennir yn gwrs dynodedig gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 8;

(d) Colofn 4 yn pennu lleoliad y sefydliad sy'n darparu'r cwrs;

(e) Colofn 5 yn pennu uchafswm y benthyciad sy'n gymwys mewn cysylltiad â'r cofnodion cyfatebol yng Ngholofnau 1, 2, 3 a 4.

(3) Y categorïau o fyfyrwyr a nodir yng Ngholofn 2 yw—

*Categori 1*
Myfyriwr cymwys sy'n ymgymryd â chwrs dynodedig nad yw'n dod o fewn Categori 2, 3, 4 [F21, 5 neu 6] .

*Categori 2*
Myfyriwr cymwys sy'n ymgymryd â'r flwyddyn academaidd olaf o gwrs llawnamser y mae'n ofynnol bod yn bresennol arno fel arfer am lai na 15 wythnos er mwyn ei gwblhau.

*Categori 3*
Myfyriwr cymwys sy'n ymgymryd â blwyddyn academaidd o gwrs rhyngosod a ddarperir gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig pan—

(a) bo swm cyfanredol y cyfnodau o astudio llawnamser yr ymgymerir â hwy yn y sefydliad yn ystod y flwyddyn academaidd honno yn llai na 10 wythnos; neu

(b) bo swm cyfanredol y cyfnodau a dreulir yn ymgymryd â'r cwrs yn ystod y flwyddyn academaidd honno ac unrhyw flynyddoedd academaidd blaenorol (nad ydynt yn gyfnodau o astudio llawnamser yn y sefydliad), gan ddiystyru gwyliau yn y cyfamser, yn fwy na 30 wythnos.

*Categori 4*
Myfyriwr cymwys sy'n ymgymryd â blwyddyn academaidd o gwrs a ddarperir gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig ar y cyd â sefydliad sydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig pan—

(a) bo swm cyfanredol y cyfnodau o astudio llawnamser yr ymgymerir â hwy yn y sefydliad yn y Deyrnas Unedig yn ystod y flwyddyn academaidd honno yn llai na 10 wythnos, neu

(b) bo swm cyfanredol y cyfnodau a dreulir yn ymgymryd â'r cwrs yn ystod y flwyddyn academaidd honno ac unrhyw flynyddoedd academaidd blaenorol (nad ydynt yn gyfnodau o astudio llawnamser yn y sefydliad yn y Deyrnas Unedig), gan ddiystyru gwyliau yn y cyfamser, yn fwy na 30 wythnos,

F22 ...

*Categori 5*
Myfyriwr cymwys sy'n ymgymryd â chwrs mynediad graddedig carlam.

**[**[F23]*Categori 6*
Myfyriwr cymwys sy’n ymgymryd â blwyddyn Erasmus ar gwrs llawnamser a ddarperir gan sefydliad yng Nghymru, Lloegr neu’r Alban.**]**

**Tabl 2**

| *Colofn 1*<br><br>*Blwyddyn academaidd* | *Colofn 2*<br><br>*Categori o fyfyriwr* | *Colofn 3*<br><br>*Math o ddarparwr cwrs* | *Colofn 4*<br><br>*Lleoliad y darparwr cwrs* | *Colofn 5*<br><br>*Uchafswm y benthyciad* |
|---|---|---|---|---|
| Sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi<br><br>2018 | 1 | Darparwr arferol | Cymru | £9,000: cwrs llawnamser<br><br>£2,625: cwrs rhan-amser |
| | | | Mannau eraill yn y DU | £9,250: cwrs llawnamser<br><br>£6,935:cwrs rhan-amser |
| | | Sefydliad preifat | Cymru | £6,165: cwrs llawnamser<br><br>£2,625 :cwrs rhan-amser |
| | | | Mannau eraill yn y DU | £6,165: cwrs llawnamser<br><br>£4,625: cwrs rhan-amser |
| | 2 | Darparwr arferol | Cymru | £4,500 |
| | | | Mannau eraill yn y DU | £4,625 |
| | | Sefydliad preifat | Cymru a Mannau eraill yn y DU | £3,080 |
| | 3 | Darparwr arferol | Cymru | £1,800 |
| | | | Lloegr | £1,850 |
| | | | Yr Alban a Gogledd Iwerddon | £4,625 |
| | | Sefydliad preifat | Cymru a Lloegr | £1,230 |
| | | | Yr Alban a Gogledd Iwerddon | £3,080 |
| | 4 | Darparwr arferol | Cymru | £1,350 |
| | | | Lloegr<br>F24<br><br>... | £1,385 |

| *Colofn 1*<br><br>*Blwyddyn academaidd* | *Colofn 2*<br><br>*Categori o fyfyriwr* | *Colofn 3*<br><br>*Math o ddarparwr cwrs* | *Colofn 4*<br><br>*Lleoliad y darparwr cwrs* | *Colofn 5*<br><br>*Uchafswm y benthyciad* |
|---|---|---|---|---|
| | | | **[**F25Yr Alban a**]** Gogledd Iwerddon | £4,625 |
| | | Sefydliad preifat | **[**F26Cymru a Lloegr**]** | £920 |
| | | | **[**F27Yr Alban a Gogledd Iwerddon**]** | £3,080 |
| | 5 | Darparwr arferol | Cymru a Mannau eraill yn y DU | **[**F28£5,785**]** |
| **[**F29Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2018 | 6 | Darparwr arferol | Cymru | £1,350 |
| | | | Lloegr a'r Alban | £1,385**]** |

**Diwygiadau Testunol**

**F21** Geiriau yn rhl. 40(3) wedi eu hamnewid (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **8(a)(i)**

**F22** Geiriau yn rhl. 40(3) wedi eu hepgor (30.7.2018) yn rhinwedd Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **8(a)(ii)**

**F23** Geiriau yn rhl. 40(3) wedi eu mewnosod (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **8(a)(iii)**

**F24** Geiriau yn rhl. 40(3) Table 2 wedi eu hepgor (30.7.2018) yn rhinwedd Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **8(b)(i)**

**F25** Geiriau yn rhl. 40(3) Table 2 wedi eu mewnosod (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **8(b)(ii)**

**F26** Geiriau yn rhl. 40 Tabl 2 wedi eu hamnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(2) o'r O.S diwygio) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/153), **rhl. 19(a)**

**F27** Geiriau yn rhl. 40 Tabl 2 wedi eu hamnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(2) o'r O.S. diwygio) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/153), **rhl. 19(b)**

**F28** Sum yn Rhl. 40(3) Table 2 wedi ei amnewid (8.3.2019) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/235), rhlau. 1(2), **45**

**F29** Geiriau yn rhl. 40(3) Table 2 wedi eu mewnosod (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **8(b)(iii)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I40** Rhl. 40 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Gwneud cais am fenthyciad at ffioedd sy'n llai na'r uchafswm**

**41.** Caiff myfyriwr cymwys wneud cais o dan reoliad 32 i fenthyg rhan o'r benthyciad at ffioedd dysgu sydd ar gael mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I41** Rhl. 41 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Cais pellach am fenthyciad at ffioedd dysgu hyd at yr uchafswm**

**42.** Pan—

(a) bo myfyriwr cymwys yn gwneud cais am ran o'r benthyciad at ffioedd dysgu o dan reoliad 41, neu

(b) bo swm ychwanegol o fenthyciad at ffioedd dysgu yn cael ei roi ar gael i fyfyriwr cymwys yn dilyn trosglwyddiad ac ailasesiad a wneir o dan Adran 5 o Bennod 2 o Ran 4,

caiff y myfyriwr wneud cais pellach o dan reoliad 32 am y balans sy'n weddill o'r benthyciad at ffioedd dysgu sydd ar gael mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I42** Rhl. 42 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 7

## Y GRANT SYLFAENOL A'R GRANT CYNHALIAETH

## PENNOD 1

## AMODAU CYMHWYSO

**Y grant sylfaenol a'r grant cynhaliaeth**

**43.** Grantiau sy'n cael eu rhoi ar gael gan Weinidogion Cymru i fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chostau byw ac astudio'r myfyriwr yw'r grant sylfaenol a'r grant cynhaliaeth.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I43** Rhl. 43 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Amodau cymhwyso i gael y grant sylfaenol a'r grant cynhaliaeth**

**44.**—(1) Mae myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael grant sylfaenol a grant cynhaliaeth mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd o'r cwrs presennol oni bai bod y myfyriwr cymwys yn dod o fewn un o'r eithriadau a ganlyn—

*Eithriad 1*

Mae'r myfyriwr cymwys yn garcharor, oni bai—

(a) bod y cwrs presennol yn gwrs rhan-amser, a

(b) bod y myfyriwr cymwys yn mynd i'r carchar neu'n cael ei ryddhau o'r carchar yn y flwyddyn academaidd o dan sylw.

*Eithriad 2*

Mae'r myfyriwr cymwys yn fyfyriwr cymwys Categori 6 yn rhinwedd paragraff 6(1) o Atodlen 2 yn unig ac nid yw'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r categorïau eraill o fyfyrwyr cymwys a bennir yn yr Atodlen honno.

*Eithriad 3*

Mae'r flwyddyn academaidd yn flwyddyn y mae'r myfyriwr yn gymwys i wneud cais mewn cysylltiad â hi am—

(a) bwrsari gofal iechyd, neu

(b) lwfans gofal iechyd yr Alban,

a gyfrifir drwy gyfeirio at incwm y myfyriwr (pa un a yw swm y cyfrifiad yn cyfateb i ddim ai peidio).

*Eithriad 4*

Mae'r cwrs presennol yn gwrs mynediad graddedig carlam.

*Eithriad 5*

**[**[F30]Mae'r cwrs presennol yn gwrs dysgu o bell ac nid yw'r myfyriwr ("M") yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys pan—

(a) na fo M yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs oherwydd bod M, neu berthynas agos i M, yn gwasanaethu fel aelod o'r lluoedd arfog y tu allan i Gymru, neu

(b) na fo M yn gallu bod yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs am reswm sy'n ymwneud â'r coronafeirws.**]**

*Eithriad 6*

Mae'r myfyriwr cymwys yn ymgymryd â blwyddyn academaidd o gwrs rhyngosod pan fo swm cyfanredol y cyfnodau o astudio llawnamser yn llai na 10 wythnos (oni bai ei bod yn flwyddyn y mae paragraff (2) yn gymwys iddi).

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i flwyddyn academaidd o gwrs rhyngosod os yw'r myfyriwr cymwys, fel rhan o'r cwrs, yn ymgymryd ag—

(a) cyfnod o brofiad gwaith gyda chorff yn y Deyrnas Unedig a bennir ym mharagraff (3), neu

(b) ymchwil di-dâl—

(i) mewn sefydliad yn y Deyrnas Unedig, neu

(ii) y tu allan i'r Deyrnas Unedig os yw'r myfyriwr cymwys yn bresennol mewn sefydliad y tu allan i'r Deyrnas Unedig fel rhan o'r cwrs.

(3) Y cyrff y cyfeirir atynt ym mharagraff (2)(a) yw—

(a) ysbyty;

(b) labordy gwasanaeth iechyd cyhoeddus;

(c) awdurdod lleol neu sefydliad gwirfoddol sy'n arfer swyddogaeth neu'n cyflawni gweithgareddau sy'n ymwneud â gofal plant a phobl ifanc, iechyd neu les;

(d) corff sy'n darparu gwasanaethau carchar neu wasanaethau prawf yn y Deyrnas Unedig;

(e) corff iechyd a restrir ym mharagraff (4).

(4) Y cyrff iechyd yw—

(a) Awdurdod Iechyd Arbennig a sefydlwyd o dan adran 28 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(**20**) neu adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**21**);

(b) ymddiriedolaeth GIG a sefydlwyd o dan adran 25 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 neu adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

(c) ymddiriedolaeth sefydledig GIG;

(d) Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

(e) Bwrdd Iechyd neu Fwrdd Iechyd Arbennig a gyfansoddwyd o dan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978(**22**);

(f) y Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol a sefydlwyd o dan adran 7 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diwygio) (Gogledd Iwerddon) 2009(**23**);

(g) yr Asiantaeth Ranbarthol ar gyfer Iechyd y Cyhoedd a Llesiant Cymdeithasol a sefydlwyd o dan adran 12 o'r Ddeddf honno;

(h) ymddiriedolaeth iechyd a gofal cymdeithasol (a enwyd gynt yn ymddiriedolaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol) a sefydlwyd o dan Orchymyn Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 1991(**24**);

(i) asiantaeth iechyd a gofal cymdeithasol arbennig (a enwyd gynt yn asiantaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol arbennig) a sefydlwyd o dan Orchymyn Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol Personol (Asiantaethau Arbennig) (Gogledd Iwerddon) 1990(**25**);

(j) Bwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlwyd o dan adran 1H o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 neu grŵp comisiynu clinigol a sefydlwyd o dan adran 11 o'r Ddeddf honno(**26**);

(k) y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal a sefydlwyd o dan adran 232 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012(**27**);

(l) y Ganolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol a sefydlwyd o dan adran 252 o'r Ddeddf honno.

**Diwygiadau Testunol**

**F30** Geiriau yn rhl. 44 wedi eu hamnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(2) o'r O.S. diwygio) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/708), **rhl. 7**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I44** Rhl. 44 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

(**20**) 2006 p. 41.
(**21**) 2006 p. 42.
(**22**) 1978 p. 29.
(**23**) 2009 p. 1 (G.I.).
(**24**) 1991/194 (G.I. 1).
(**25**) 1990/247 (G.I. 3).
(**26**) 2006 p. 41; mewnosodwyd adran 1H ac adran 11 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7), adrannau 9 a 10.
(**27**) 2012 p. 7.

## PENNOD 2

## Y GRANT SYLFAENOL

### Swm y grant sylfaenol

**45.** Yn Nhabl 3, mae Colofn 2 yn nodi swm y grant sylfaenol sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn academaidd a nodir yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 1.

**Tabl 3**

| *Colofn 1*<br><br>*Blwyddyn academaidd* | *Colofn 2*<br><br>*Y grant sylfaenol sydd ar gael* |
|---|---|
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2018 | £1,000 ar gyfer cwrs llawnamser<br><br>£1,000 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio ar gyfer cwrs rhan-amser |

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I45** Rhl. 45 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

## PENNOD 3

## Y GRANT CYNHALIAETH

### Swm y grant cynhaliaeth: myfyrwyr llawnamser

**46.**—(1) Mae Tabl 4 yn nodi uchafsymiau'r grant cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyriwr cymwys sy'n ymgymryd â chwrs llawnamser ("myfyriwr llawnamser") pan fo—

(a) Colofn 1 yn pennu'r flwyddyn academaidd y mae symiau'r grant cynhaliaeth a bennir yng Ngholofn 3 yn daladwy mewn perthynas â hi;

(b) Colofn 2 yn pennu'r lleoliad y mae'r myfyriwr yn byw ynddo (gweler paragraff 3 o Atodlen 1);

(c) Colofn 3 yn pennu uchafswm y grant sydd ar gael mewn cysylltiad â'r cofnodion cyfatebol yng Ngholofnau 1 a 2.

(2) Pan—

(a) na fo incwm aelwyd y myfyriwr yn fwy na £18,370, neu

(b) bo'r myfyriwr yn berson sy'n ymadael â gofal,

swm y grant cynhaliaeth sy'n daladwy yw uchafswm y grant sydd ar gael mewn cysylltiad â lleoliad y myfyriwr.

(3) Pan fo incwm aelwyd y myfyriwr yn fwy na £18,370 ond yn llai na £59,200, swm y grant cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr yw uchafswm y grant cynhaliaeth sydd ar gael wedi ei ostwng £1 am bob—

(a) £6.937 o incwm aelwyd sy'n fwy na £18,370 pan fo'r myfyriwr yn byw gartref;

(b) £4.475 o incwm aelwyd sy'n fwy na £18,370 pan fo'r myfyriwr yn byw oddi cartref, ac yn astudio yn Llundain;

(c) £5.750 o incwm aelwyd [F31sy'n fwy na £18,370] pan fo'r myfyriwr yn byw oddi cartref, ac yn astudio yn rhywle arall.

(4) Pan fo incwm aelwyd y myfyriwr llawnamser yn £59,200 neu ragor, swm y grant cynhaliaeth sy'n daladwy yw £0.

**Tabl 4**

| *Colofn 1 Blwyddyn academaidd* | *Colofn 2 Lleoliad y myfyriwr llawnamser* | *Colofn 3 Uchafswm y grant cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyriwr llawnamser* |
|---|---|---|
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2018 | Byw gartref | £5,885 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £9,124 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £7,100 |

**Diwygiadau Testunol**

**F31** Geiriau yn rhl. 46(3)(c) wedi eu mewnosod (1.8.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2018 (O.S. 2018/813), rhlau. 1(2), **3**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I46** Rhl. 46 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

## Swm y grant cynhaliaeth: myfyrwyr rhan-amser

**47.**—(1) Mae Tabl 5 yn nodi uchafsymiau'r grant cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyriwr cymwys sy'n ymgymryd â chwrs rhan-amser ("myfyriwr rhan-amser") pan fo—

(a) Colofn 1 yn pennu'r flwyddyn academaidd y mae symiau'r grant cynhaliaeth a bennir yng Ngholofn 2 yn daladwy mewn perthynas â hi;

(b) Colofn 2 yn pennu uchafswm y grant sydd ar gael mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd gyfatebol yng Ngholofn 1.

(2) Os—

(a) nad yw incwm aelwyd myfyriwr rhan-amser yn fwy na £25,000, neu

(b) yw'r myfyriwr yn berson sy'n ymadael â gofal,

swm y grant cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr yw'r uchafswm sydd ar gael wedi ei luosi â dwysedd astudio'r cwrs presennol.

(3) Pan fo incwm aelwyd y myfyriwr rhan-amser yn fwy na £25,000 ond yn llai na £59,200, cyfrifir swm y grant cynhaliaeth sy'n daladwy fel a ganlyn—

*Cam 1*

Gostwng uchafswm y grant cynhaliaeth sydd ar gael £1 am bob £6.84 o incwm aelwyd sy'n fwy na £25,000.

*Cam 2*

Lluosi canlyniad Cam 1 â dwysedd astudio'r cwrs presennol.

Y canlyniad yw swm y grant cynhaliaeth sy'n daladwy.

(4) Pan fo incwm aelwyd y myfyriwr rhan-amser yn **[**[F32]£59,200 neu ragor**]** , swm y grant cynhaliaeth sy'n daladwy yw £0.

**Tabl 5**

| *Colofn 1*<br><br>*Blwyddyn academaidd* | *Colofn 2*<br><br>*Uchafswm y grant cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyriwr rhan-amser* |
|---|---|
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2018 | £5,000 |

**Diwygiadau Testunol**

**F32** Geiriau yn rhl. 47(4) wedi eu hamnewid (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **9**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I47** Rhl. 47 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Incwm yr aelwyd

**48.** Gweler Rhan 2 o Atodlen 3 am ddarpariaeth ynghylch cyfrifo incwm aelwyd myfyriwr cymwys.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I48** Rhl. 48 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Ystyr person sy'n ymadael â gofal

**49.** Mae myfyriwr cymwys yn "person sy'n ymadael â gofal"—

(a) os yw'r myfyriwr o dan 25 oed ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs presennol,

(b) os yw'r myfyriwr yn gategori o berson ifanc, neu wedi bod yn gategori o berson ifanc, a ddiffinnir yn adran 104 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**28**), neu yn rhinwedd yr adran honno, ac

(c) os, rhwng pen-blwydd y myfyriwr yn 14 oed a diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs—

(i) oedd y myfyriwr yn derbyn gofal, wedi ei faethu neu wedi ei letya (o fewn ystyr adrannau 74 a 104 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) am gyfnod cyfanredol o 13 wythnos neu ragor, neu

(ii) oedd y myfyriwr yn berson yr oedd gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig (o fewn yr ystyr a roddir i "special guardianship order" gan adran 14A o Ddeddf Plant 1989)(**29**) mewn grym mewn cysylltiad ag ef am gyfnod o 13 wythnos neu ragor.

(**28**) 2014 dccc 4.
(**29**) 1989 p. 41; mewnosodwyd adran 14A gan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (p. 38) ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6) a Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I49** Rhl. 49 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

PENNOD 4

TALIAD CYMORTH ARBENNIG

**Taliad cymorth arbennig**

**50.**—(1) Pan fo myfyriwr cymwys sy'n cymhwyso i gael grant sylfaenol neu, yn ôl y digwydd, grant cynhaliaeth, yn bodloni un o'r amodau cymhwyso yn rheoliad 51—

(a) mae'r holl grant sylfaenol sy'n daladwy i'r myfyriwr cymwys, a

(b) mae swm o'r grant cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr hyd at yr uchafswm a bennir yn rheoliad 52,

i'w drin fel taliad cymorth arbennig.

(2) Mae taliad cymorth arbennig yn daliad a fwriedir er mwyn talu am—

(a) cost llyfrau ac offer;

(b) treuliau teithio;

(c) costau gofal plant,

mewn cysylltiad â myfyriwr cymwys yn ymgymryd â chwrs dynodedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I50** Rhl. 50 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Taliad cymorth arbennig: amodau cymhwyso**

**51.**—(1) Mae myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael taliad cymorth arbennig mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd o'r cwrs presennol os yw'r myfyriwr cymwys yn bodloni un o'r amodau a ganlyn—

*Amod A*

Mae'r myfyriwr cymwys, at ddibenion asesu hawlogaeth i gael cymhorthdal incwm, yn dod o fewn categori rhagnodedig o bersonau at ddibenion adran 124(1)(e)(**30**) o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992.

*Amod B*

Caiff y myfyriwr cymwys, at ddibenion asesu hawlogaeth i gael budd-dal tai, ei drin fel pe bai'n atebol i wneud taliadau mewn cysylltiad ag annedd a ragnodir gan reoliadau a wneir o dan adran 130(2) o'r Ddeddf honno(**31**).

(**30**) 1992 p. 4. Mae diwygiadau i adran 124 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn ac mae'r adran wedi ei diddymu gan Ddeddf Diwygio Lles 2012 (p. 3), adran 147 ac Atodlen 14, Rhan 1 yn ddarostyngedig i arbedion a bennir yn O.S. 2013/358 erthygl 9. Mae'r categorïau o dan adran 124(1)(e) wedi eu rhagnodi drwy reoliadau. Y rheoliad perthnasol yw rheoliad 4ZA o Reoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987 (O.S. 1987/1967). Mewnosodwyd rheoliad 4ZA gan O.S. 1996/206 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 1997/2197, O.S. 2000/1981, O.S. 2001/3070, O.S. 2008/1826, O.S. 2009/2655, O.S. 2009/3152 ac O.S. 2013/2536.

(**31**) Mae diwygiadau i adran 130 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn ac mae'r adran wedi ei diddymu gan Ddeddf Diwygio Lles 2012 (p. 3) , adran 147 ac Atodlen 14, Rhan 1 yn ddarostyngedig i arbedion a bennir yn O.S. 2013/358 erthygl 9. Y rheoliad perthnasol yw rheoliad 56 o Reoliadau Budd-dal Tai 2006 O.S. 2006/213 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2008/1042, O.S. 2008/1082, O.S. 2012/757, O.S. 2013/630, O.S. 2013/2070 ac O.S. 2017/901.

*Amod C*

Mae'r myfyriwr cymwys, at ddibenion asesu hawlogaeth i gael credyd cynhwysol, yn atebol neu'n cael ei drin fel pe bai'n atebol o dan reoliad 25(3) o Reoliadau Credyd Cynhwysol 2013(**32**) i wneud taliadau mewn cysylltiad â llety y mae'r myfyriwr yn ei feddiannu fel ei gartref.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I51** Rhl. 51 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Uchafswm y grant cynhaliaeth sy'n cael ei drin fel taliad cymorth arbennig

**52.** Yn Nhabl 6, mae Colofn 2 yn nodi uchafswm y grant cynhaliaeth sy'n daladwy fel taliad cymorth arbennig mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd a nodir yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 1.

**Tabl 6**

| *Colofn 1*<br><br>*Blwyddyn academaidd* | *Colofn 2*<br><br>*Uchafswm y grant cynhaliaeth sy'n daladwy fel rhan o daliad cymorth arbennig* |
|---|---|
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2018 | £4,161 ar gyfer cwrs llawnamser<br><br>£5,000 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio ar gyfer cwrs rhan-amser |

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I52** Rhl. 52 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 8

## BENTHYCIAD CYNHALIAETH

### Benthyciad cynhaliaeth

**53.** Mae benthyciad cynhaliaeth yn fenthyciad sy'n cael ei roi ar gael gan Weinidogion Cymru i fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chostau byw ar gyfer blwyddyn academaidd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I53** Rhl. 53 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

(**32**) O.S. 2013/376.

**Amodau cymhwyso i gael benthyciad cynhaliaeth**

**54.** Mae myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael benthyciad cynhaliaeth mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd o'r cwrs presennol oni bai bod un o'r eithriadau a ganlyn yn gymwys—

*Eithriad 1*

Mae'r myfyriwr cymwys yn garcharor, oni bai—

(a) bod y cwrs presennol yn gwrs rhan-amser, a

(b) bod y myfyriwr cymwys yn mynd i'r carchar neu'n cael ei ryddhau o'r carchar yn y flwyddyn academaidd o dan sylw.

*Eithriad 2*

Mae'r myfyriwr cymwys yn fyfyriwr cymwys Categori 6 yn rhinwedd paragraff 6(1) o Atodlen 2 yn unig ac nid yw'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r categorïau eraill o fyfyrwyr cymwys a bennir yn yr Atodlen honno.

*Eithriad 3*

Mae'r myfyriwr cymwys yn 60 oed neu drosodd ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs presennol.

*Eithriad 4*

**[**F33Mae'r cwrs presennol yn gwrs dysgu o bell ac nid yw'r myfyriwr ("M") yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys pan—

(a) na fo M yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs oherwydd bod M, neu berthynas agos i M, yn gwasanaethu fel aelod o'r lluoedd arfog y tu allan i Gymru, neu

(b) na fo M yn gallu bod yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs am reswm sy'n ymwneud â'r coronafeirws.**]**

*F34*...

**Diwygiadau Testunol**

**F33** Geiriau yn rhl. 54 wedi eu hamnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(2) o'r O.S. diwygio) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/708), **rhl. 8**

**F34** Geiriau yn rhl. 54 wedi eu hepgor (30.7.2018) yn rhinwedd Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **10**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I54** Rhl. 54 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Swm y benthyciad cynhaliaeth:myfyrwyr llawnamser**

**55.**—(1) Pan fo cwrs presennol myfyriwr cymwys yn gwrs llawnamser ("myfyriwr llawnamser"), cyfrifir swm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr fel a ganlyn—

Uchafswm y benthyciad cynhaliaeth sydd ar gael i'r myfyriwr mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd.

*Minws*

Swm y grant cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr o dan reoliad 46.

(2) Mae Tabl 7 yn nodi uchafsymiau'r benthyciad cynhaliaeth sydd ar gael mewn cysylltiad â myfyriwr llawnamser pan—

(a) bo Colofn 1 yn pennu'r flwyddyn academaidd y mae symiau'r benthyciad cynhaliaeth a bennir yng Ngholofn 4 yn gymwys mewn perthynas â hi;

(b) bo Colofn 2 yn pennu'r categori o fyfyriwr y mae'r uchafsymiau yng Ngholofn 4 yn gymwys iddo;

(c) bo Colofn 3 yn pennu'r lleoliad y mae'r myfyriwr yn byw ynddo (gweler paragraff 3 o Atodlen 1);

(d) bo Colofn 4 yn pennu uchafswm y benthyciad sydd ar gael mewn cysylltiad â'r cofnodion cyfatebol yng Ngholofnau 1, 2 a 3.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn, y categorïau o fyfyriwr yw—

*Categori 1*

Myfyriwr cymwys sy'n ymgymryd ag—

(a) blwyddyn academaidd o gwrs dynodedig, neu

(b) blwyddyn gyntaf o gwrs mynediad graddedig carlam

nad yw'n fyfyriwr Categori 2.

*Categori 2*

Myfyriwr cymwys sy'n ymgymryd ag—

(a) blwyddyn academaidd y mae myfyriwr yn gymwys i wneud cais mewn cysylltiad â hi am—

(i) bwrsari gofal iechyd, neu

(ii) lwfans gofal iechyd yr Alban,

a gyfrifir drwy gyfeirio at incwm y myfyriwr (pa un a yw swm y cyfrifiad yn cyfateb i ddim ai peidio), neu

(b) blwyddyn academaidd o gwrs rhyngosod pan fo swm cyfanredol y cyfnodau o astudio llawnamser y mae'r myfyriwr yn ymgymryd â hwy yn llai na 10 wythnos (oni bai ei bod yn flwyddyn y mae rheoliad 44(2) yn gymwys iddi).

(4) Mae'r rheoliad hwn yn ddarostyngedig i reoliad 56.

**Tabl 7**

| ***[F35****Colofn 1*<br>*Blwyddyn academaidd* | *Colofn 2*<br>*Categori o fyfyriwr* | *Colofn 3*<br>*Lleoliad y myfyriwr* | *Colofn 4*<br>*Uchafswm y benthyciad cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyriwr llawnamser* |
|---|---|---|---|
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2018 ond cyn 1 Medi 2019 | Categori 1 | Byw gartref | £6,650 |
| | | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £10,250 |
| | | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £8,000 |
| | Categori 2 | Byw gartref | £3,325 |
| | | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £5,125 |

| **[**[F35] *Colofn 1* *Blwyddyn academaidd* | *Colofn 2* *Categori o fyfyriwr* | *Colofn 3* *Lleoliad y myfyriwr* | *Colofn 4* *Uchafswm y benthyciad cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyriwr llawnamser* |
|---|---|---|---|
| | | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £4,000 |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2019 ond cyn 1 Medi 2020 | Categori 1 | Byw gartref | £6,840 |
| | | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £10,530 |
| | | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £8,225 |
| | Categori 2 | Byw gartref | £3,420 |
| | | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £5,265 |
| | | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £4,110 |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2020 ond cyn 1 Medi 2021 | Categori 1 | Byw gartref | £7,335 |
| | | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £11,260 |
| | | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £8,810 |
| | Categori 2 | Byw gartref | £3,665 |
| | | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £5,630 |
| | | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £4,405 |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2021 | Categori 1 | Byw gartref | £7,790 |
| | | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £11,930 |
| | | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £9,350 |
| | Categori 2 | Byw gartref | £3,895 |
| | | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £5,965 |
| | | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £4,675**]** |

**Diwygiadau Testunol**

**F35** Rhl. 55 Amnewidiwyd Tabl 7 (gyda chais yn unol â rheoliad 1(2) o O.S.) diwygio gan Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 27**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I55** Rhl. 55 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### [F36Swm y benthyciad cynhaliaeth: myfyrwyr llawnamser sy'n cymhwyso i gael taliad cymorth arbennig

**56.**—(1) Pan fo myfyriwr llawnamser yn cymhwyso i gael taliad cymorth arbennig o dan reoliad 50, cyfrifir swm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr yn unol â pharagraff (2).

(2) Cyfrifir swm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy drwy gymhwyso'r camau a ganlyn—

*Cam 1*
Nodi swm—

(a) y grant cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr o dan reoliad 46, a

(b) y grant sylfaenol sy'n daladwy i'r myfyriwr o dan reoliad 45.

*Cam 2*
Nodi swm y grant sylfaenol a'r grant cynhaliaeth sydd i'w drin fel taliad cymorth arbennig o dan reoliad 50.

*Cam 3*
Nodi swm cymwys y cymorth byw i'r myfyriwr drwy gyfeirio at Dabl 8, pan fo—

(a) Colofn 1 yn pennu'r flwyddyn academaidd y mae symiau'r cymorth byw yng Ngholofn 3 yn gymwys mewn perthynas â hi;

(b) Colofn 2 yn pennu'r lleoliad y mae'r myfyriwr yn byw ynddo (gweler paragraff 3 o Atodlen 1);

(c) Colofn 3 yn pennu symiau cymwys y cymorth byw ar gyfer y cofnodion cyfatebol yng Ngholofnau 1 a 2.

**Tabl 8**

| *[F37Colofn 1 Blwyddyn academaidd* | *Colofn 2 Lleoliad y myfyriwr* | *Colofn 3 Swm cymwys y cymorth byw i'r myfyriwr cymorth arbennig* |
|---|---|---|
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2018 ond cyn 1 Medi 2019 | Byw gartref | £7,650 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £11,250 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £9,000 |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2019 ond cyn 1 Medi 2020 | Byw gartref | £7,840 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £11,530 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £9,225 |

| **[**F37 *Colofn 1* *Blwyddyn academaidd* | *Colofn 2* *Lleoliad y myfyriwr* | *Colofn 3* *Swm cymwys y cymorth byw i'r myfyriwr cymorth arbennig* |
|---|---|---|
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2020 ond cyn 1 Medi 2021 | Byw gartref | £8,335 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £12,260 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £9,810 |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2021 | Byw gartref | £8,790 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £12,930 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £10,350**]** |

*Cam 4*
Pa un bynnag yw'r mwyaf o—

(a) y swm a nodir yng Ngham 3, neu

(b) symiau'r grant a nodir yng Ngham 1 plws isafswm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr fel y'i pennir drwy gyfeirio at Dabl 8A,

yw uchafswm y cymorth byw sydd ar gael i'r myfyriwr.

*Cam 5*
Cyfrifo uchafswm tybiannol y benthyciad cynhaliaeth drwy ddidynnu swm y taliad cymorth arbennig a nodir yng Ngham 2 o uchafswm y cymorth byw a nodir yng Ngham 4.

*Cam 6*
Didynnu swm unrhyw grant cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr nad yw'n cael ei drin fel taliad cymorth arbennig o uchafswm tybiannol y benthyciad cynhaliaeth a gyfrifir yng Ngham 5.

Y canlyniad yw swm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr.

(3) Yn Nhabl 8A—

(a) mae Colofn 1 yn pennu'r flwyddyn academaidd y mae isafsymiau'r benthyciad cynhaliaeth yng Ngholofn 3 yn gymwys mewn perthynas â hi;

(b) mae Colofn 2 yn pennu'r lleoliad y mae'r myfyriwr yn byw ynddo (gweler paragraff 3 o Atodlen 1);

(c) mae Colofn 3 yn pennu isafsymiau'r benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy ar gyfer y cofnodion cyfatebol yng Ngholofnau 1 a 2.

**Tabl 8A**

| **[**F38 *Colofn 1* *Blwyddyn academaidd* | *Colofn 2* *Lleoliad y myfyriwr* | *Colofn 3* *Isafswm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwyy* |
|---|---|---|
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2018 ond cyn 1 Medi 2019 | Byw gartref | £3,325 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £5,125 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £4,000 |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2019 ond cyn 1 Medi 2020 | Byw gartref | £3,420 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £5,265 |

| [F38 *Colofn 1* *Blwyddyn academaidd* | *Colofn 2* *Lleoliad y myfyriwr* | *Colofn 3* *Isafswm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwyy* |
|---|---|---|
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £4,110 |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2020 ond cyn 1 Medi 2021 | Byw gartref | £3,665 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £5,630 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £4,405 |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2021 | Byw gartref | £3,895 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £5,965 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £4,675] |

(4) Yn y rheoliad hwn, "cymorth byw" yw'r term ar gyfer y taliad cymorth arbennig, y grant cynhaliaeth a'r benthyciad cynhaliaeth ar y cyd.]

**Diwygiadau Testunol**

**F36** Rhl. 56 wedi ei amnewid (1.8.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2018 (O.S. 2018/813), rhlau. 1(2), **4**

**F37** Rhl. 56 Amnewidiwyd Tabl 8 (gyda chais yn unol â rheoliad 1(2) o O.S. sy'n diwygio) gan Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 28(a)**

**F38** Rhl. 56 Amnewidiwyd Tabl 8A (gyda chais yn unol â rheoliad 1(2) o O.S.) diwygio gan Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 28(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I56** Rhl. 56 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Benthyciad cynhaliaeth wedi ei gynyddu ar gyfer myfyrwyr llawnamser yn ystod blynyddoedd estynedig

**57.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan—

(a) bo'r cwrs presennol yn gwrs llawnamser, a

(b) bo'n ofynnol i fyfyriwr cymwys ymgymryd â'r cwrs am gyfnod sy'n hwy na 30 wythnos a 3 diwrnod mewn blwyddyn academaidd.

(2) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, mae swm y benthyciad sy'n daladwy i'r myfyriwr a gyfrifir o dan reoliad 55 neu, yn ôl y digwydd, 56 wedi ei gynyddu yn ôl y swm wythnosol a bennir yng Ngholofn 3 o Dabl 9 ar gyfer pob wythnos (neu ran o wythnos) y mae'n ofynnol i'r myfyriwr ymgymryd â'r cwrs y tu hwnt i'r cyfnod o 30 wythnos a 3 diwrnod.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys pan—

(a) bo'r cwrs presennol yn gwrs llawnamser, a

(b) bo myfyriwr cymwys yn ymgymryd â'r cwrs am gyfnod o 45 wythnos neu ragor mewn unrhyw gyfnod parhaus o 52 wythnos.

(4) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, mae swm y benthyciad sy'n daladwy i'r myfyriwr a gyfrifir o dan reoliad 55 neu, yn ôl y digwydd, 56 wedi ei gynyddu yn ôl y swm wythnosol a bennir yng Ngholofn 3 o Dabl 9 ar gyfer pob wythnos gyfan yn y cyfnod o 52 wythnos pan nad oedd y myfyriwr yn ymgymryd â'r cwrs.

(5) Mae'r cynnydd yn swm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy y cyfeirir ato ym mharagraff (4) yn gymwys mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd y mae'r nifer mwyaf o wythnosau yn y cyfnod o 52 wythnos yn dod o'i mewn.

(6) Caiff uchafswm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy i fyfyriwr cymwys gael ei gynyddu o dan baragraffau (2) a (4) mewn perthynas â'r un flwyddyn academaidd.

(7) Yn Nhabl 9—

(a) mae Colofn 1 yn pennu'r flwyddyn academaidd y mae'r benthyciad cynhaliaeth yn daladwy mewn perthynas â hi;

(b) mae Colofn 2 yn pennu'r lleoliad y mae'r myfyriwr yn byw ynddo (gweler paragraff 3 o Atodlen 1);

(c) mae Colofn 3 yn pennu'r swm wythnosol y mae swm y benthyciad sy'n daladwy i gynyddu yn ei ôl mewn cysylltiad â'r cofnodion cyfatebol yng Ngholofnau 1 a 2.

**Tabl 9**

| **[**F39 *Colofn 1*<br>*Blwyddyn academaidd* | *Colofn 2*<br>*Lleoliad y myfyriwr* | *Colofn 3*<br>*Cynnydd wythnosol yn swm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy* |
|---|---|---|
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2018 ond cyn 1 Medi 2019 | Byw gartref | £80 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £153 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £120 |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2019 ond cyn 1 Medi 2020 | Byw gartref | £84 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £162 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £127 |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2020 ond cyn 1 Medi 2021 | Byw gartref | £86 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £167 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £131 |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2021 | Byw gartref | £89 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £172 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £135**]** |

**Diwygiadau Testunol**

**F39** Rhl. 57 Amnewidiwyd Tabl 9 (gyda chais yn unol â rheoliad 1(2) o O.S.) diwygio gan Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 29**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I57** Rhl. 57 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Swm y benthyciad cynhaliaeth:myfyrwyr rhan-amser**

**58.**—(1) Pan fo cwrs presennol myfyriwr cymwys yn gwrs rhan-amser ("myfyriwr rhan-amser"), cyfrifir swm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr fel a ganlyn—

Uchafswm y benthyciad cynhaliaeth sydd ar gael i'r myfyriwr (gweler Tabl 10).

*Minws*

Swm y grant cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr o dan reoliad 47.

(2) Yn Nhabl 10, mae Colofn 1 yn pennu'r flwyddyn academaidd y mae uchafswm y benthyciad cynhaliaeth yng Ngholofn 2 ar gael mewn perthynas â hi.

**Tabl 10**

| [F40 *Colofn 1*<br>*Blwyddyn academaidd* | *Colofn 2*<br>*Uchafswm y benthyciad cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyriwr rhan-amser* |
|---|---|
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2018 ond cyn 1 Medi 2019 | £5,650 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2019 ond cyn 1 Medi 2020 | £5,815 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2020 ond cyn 1 Medi 2021 | £6,245 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2021 | £6,640 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio**]** |

**[**F41(3) Mae'r rheoliad hwn yn ddarostyngedig i reoliad 58A.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F40** Rhl. 58 Amnewidiwyd Tabl 10 (gyda chais yn unol â rheoliad 1(2) o O.S.) diwygio gan Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 30**

**F41** Rhl. 58(3) wedi ei fewnosod (1.8.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2018 (O.S. 2018/813), rhlau. 1(2), **5**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I58** Rhl. 58 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**[**F42**Swm y benthyciad cynhaliaeth: myfyrwyr rhan-amser sy'n cymhwyso i gael taliad cymorth arbennig**

**58A.**—(1) Pan fo myfyriwr rhan-amser yn cymhwyso i gael taliad cymorth arbennig o dan reoliad 50, cyfrifir swm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr yn unol â pharagraff (2).

(2) Cyfrifir swm y benthyciad cynhaliaeth drwy gymhwyso'r camau a ganlyn—

*Cam 1*
Nodi swm y grant sylfaenol a'r grant cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr sydd i'w drin fel taliad cymorth arbennig o dan reoliad 50.

*Cam 2*

Cyfrifo swm cymwys y cymorth byw i'r myfyriwr drwy gyfeirio at Dabl 10A, pan fo Colofn 2 o'r tabl yn pennu swm y cymorth byw sy'n gymwys mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd a bennir yng Ngholofn 1.

**Tabl 10A**

| **[**F43 *Colofn 1*<br>*Blwyddyn academaidd* | *Colofn 2*<br>*Swm y cymorth byw i'r myfyriwr rhan-amser pan fo cymorth arbennig yn daladwy* |
|---|---|
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2018 ond cyn 1 Medi 2019 | £6,650 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2019 ond cyn 1 Medi 2020 | £6,815 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2020 ond cyn 1 Medi 2021 | £7,245 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2021 | £7,640 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio**]** |

*Cam 3*
Didynnu swm y taliad cymorth arbennig a nodir yng Ngham 1 o swm cymwys y cymorth byw a nodir yng Ngham 2.

Y canlyniad yw swm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr.

(3) Yn y rheoliad hwn, "cymorth byw" yw'r term ar gyfer y taliad cymorth arbennig, y grant cynhaliaeth a'r benthyciad cynhaliaeth ar y cyd.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F42** Rhl. 58A wedi ei fewnosod (1.8.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2018 (O.S. 2018/813), rhlau. 1(2), **6**

**F43** Rhl. 58A Amnewidiwyd Tabl 10A (gyda chais yn unol â rheoliad 1(2) o O.S.) diwygio gan Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 31**

**Gwneud cais am fenthyciad cynhaliaeth sy'n llai na'r uchafswm**

**59.** Caiff myfyriwr cymwys wneud cais o dan reoliad 32 i fenthyg rhan o swm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr cymwys mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I59** Rhl. 59 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Cais pellach am fenthyciad cynhaliaeth hyd at yr uchafswm**

**60.** Pan—

(a) bo myfyriwr cymwys yn gwneud cais am ran o'r benthyciad cynhaliaeth o dan reoliad 59, neu

(b) bo swm ychwanegol o fenthyciad cynhaliaeth yn cael ei roi ar gael i fyfyriwr cymwys yn dilyn trosglwyddiad ac ailasesiad a wneir o dan Adran 5 o Bennod 2 o Ran 4,

caiff y myfyriwr wneud cais pellach o dan reoliad 32 am y balans sy'n weddill o'r benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I60** Rhl. 60 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 9

## GRANT MYFYRIWR ANABL

### Grant myfyriwr anabl

**61.**—(1) Mae grant myfyriwr anabl yn grant sy'n cael ei roi ar gael gan Weinidogion Cymru i fyfyriwr cymwys ag anabledd i gynorthwyo gyda gwariant ychwanegol mewn cysylltiad â chostau byw y mae'n ofynnol i'r myfyriwr fynd iddynt mewn cysylltiad â'r cwrs presennol oherwydd anabledd y myfyriwr.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae "anabledd" i'w ddehongli yn unol â'r ystyr a roddir i "disability" yn adran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I61** Rhl. 61 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Amodau cymhwyso i gael grant myfyriwr anabl

**62.**—(1) Mae myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael grant myfyriwr anabl mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd o'r cwrs presennol—

(a) os oes gan y myfyriwr anabledd, a

(b) os nad yw'r myfyriwr yn dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r eithriadau ym mharagraff (2).

(2) Yr eithriadau yw—

*Eithriad 1*

Mae'r myfyriwr cymwys yn garcharor, oni bai—

(a) bod y cwrs presennol yn gwrs rhan-amser, a

(b) bod y myfyriwr cymwys yn mynd i'r carchar neu'n cael ei ryddhau o'r carchar yn y flwyddyn academaidd o dan sylw.

*Eithriad 2*

Mae'r myfyriwr cymwys yn fyfyriwr cymwys Categori 6 yn rhinwedd paragraff 6(1) o Atodlen 2 yn unig ac nid yw'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r categorïau eraill o fyfyrwyr cymwys a bennir yn yr Atodlen honno.

*Eithriad 3*

Mae'r cwrs presennol yn gwrs llawnamser ac mae'r flwyddyn academaidd yn flwyddyn y mae'r myfyriwr yn gymwys i wneud cais mewn cysylltiad â hi am—

(a) bwrsari gofal iechyd, neu

(b) lwfans gofal iechyd yr Alban,

a gyfrifir drwy gyfeirio at incwm y myfyriwr (pa un a yw swm y cyfrifiad yn cyfateb i ddim ai peidio).

*Eithriad 4*

Mae'r myfyriwr cymwys yn ymgymryd â blwyddyn academaidd o gwrs mynediad graddedig carlam, ac eithrio blwyddyn gyntaf y cwrs.

*Eithriad 5*

**[**F44Mae'r cwrs presennol yn gwrs dysgu o bell ac nid yw'r myfyriwr ("M") yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys pan—

(a) na fo M yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs oherwydd bod M, neu berthynas agos i M, yn gwasanaethu fel aelod o'r lluoedd arfog y tu allan i Gymru, neu

(b) na fo M yn gallu bod yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs am reswm sy'n ymwneud â'r coronafeirws.**]**

*Eithriad 6*

Mae'r myfyriwr cymwys yn ymgymryd â blwyddyn academaidd o gwrs rhyngosod pan fo swm cyfanredol y cyfnodau o astudio llawnamser yn llai na 10 wythnos (oni bai ei bod yn flwyddyn y mae rheoliad 44(2) yn gymwys iddi).

**Diwygiadau Testunol**

**F44** Geiriau yn rhl. 62 wedi eu hamnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(2) o'r O.S. diwygio) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/708), **rhl. 9**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I62** Rhl. 62 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Swm y grant myfyriwr anabl

**63.**—(1) Swm y grant myfyriwr anabl y mae myfyriwr yn cymhwyso i'w gael mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd yw'r swm—

(a) y mae Gweinidogion Cymru yn meddwl ei fod yn briodol, ond

(b) nad yw'n fwy na swm cyfanredol y terfynau sy'n gymwys mewn cysylltiad â'r Achosion a restrir ym mharagraff (2).

**[**F45(2) Yr Achosion a'r terfynau yw—

*Achos 1*

Gwariant sy'n ofynnol ar gynorthwyydd personol anfeddygol, eitemau mawr o offer arbenigol ac unrhyw wariant arall y mae'r myfyriwr cymwys yn mynd iddo mewn cysylltiad â'r cwrs oherwydd anabledd y myfyriwr (ar wahân i'r gwariant a bennir yn Achos 2).

Terfyn o £31,831 mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd o gwrs.

*Achos 2*

Gwariant ychwanegol yr eir iddo—

(a) o fewn y Deyrnas Unedig at ddiben bod yn bresennol mewn sefydliad, a

(b) o fewn y Deyrnas Unedig neu'r tu allan iddi at ddiben bod yn bresennol, fel rhan o'r cwrs presennol, am unrhyw gyfnod o astudio mewn sefydliad tramor (gan gynnwys Sefydliad Prifysgol Llundain ym Mharis).

Wedi ei gyfyngu i'r gwariant gwirioneddol yr eir iddo at y diben hwn.]

**Diwygiadau Testunol**

**F45** Rhl. 63(2) wedi ei amnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(2) o'r O.S. diwygio) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 9**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I63** Rhl. 63 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 10

## GRANTIAU AT DEITHIO

### Grant at deithio

**64.** Mae grant at deithio yn grant sy'n cael ei roi ar gael gan Weinidogion Cymru i fyfyriwr cymwys o dan yr amgylchiadau a nodir yn rheoliad 65(1) neu 66(1).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I64** Rhl. 64 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Grant at deithio ar gyfer myfyrwyr meddygol

**65.**—(1) Mae grant at deithio ar gael i fyfyriwr cymwys os yw'r amodau a ganlyn wedi eu bodloni—

*Amod 1*

Mae'r cwrs presennol yn gwrs llawnamser mewn—

(a) meddygaeth, neu

(b) deintyddiaeth,

y mae rhan angenrheidiol ohono yn gyfnod o astudio ar ffurf hyfforddiant clinigol.

*Amod 2*

Yn y flwyddyn academaidd o dan sylw, mae'n ofynnol i'r myfyriwr cymwys fynd i wariant at ddiben bod yn bresennol mewn—

(a) ysbyty, neu

(b) mangre arall,

yn y Deyrnas Unedig (nad yw'n rhan o'r sefydliad sy'n darparu'r cwrs presennol) er mwyn ymgymryd â hyfforddiant clinigol fel rhan o'r cwrs.

*Amod 3*

Nid yw'r flwyddyn academaidd yn flwyddyn y mae'r myfyriwr yn gymwys i wneud cais mewn cysylltiad â hi am—

(a) bwrsari gofal iechyd, neu

(b) lwfans gofal iechyd yr Alban,

a gyfrifir drwy gyfeirio at incwm y myfyriwr (pa un a yw swm y cyfrifiad yn cyfateb i ddim ai peidio).

(2) Ond nid yw grant at deithio ar gael pan fo'r myfyriwr cymwys yn fyfyriwr cymwys Categori 6 yn rhinwedd paragraff 6(1) o Atodlen 2 yn unig ac nid yw'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r categorïau eraill o fyfyriwr cymwys a bennir yn yr Atodlen honno.

(3) Swm y grant at deithio sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd yw'r swm y penderfynir arno gan Weinidogion Cymru fel a ganlyn—

*Cam 1*

Penderfynu ar swm y gwariant rhesymol y mae'r myfyriwr cymwys yn mynd iddo yn y flwyddyn academaidd o dan sylw at y diben a grybwyllir yn Amod 2 o baragraff (1) (gan gynnwys gwariant yr eir iddo at y diben hwnnw cyn neu ar ôl bod yn bresennol yn yr ysbyty neu yn y fangre arall).

*Cam 2*

Os yw incwm aelwyd y myfyriwr cymwys (gweler Atodlen 3) yn **[**[F46]llai na £59,200**]** mewn cysylltiad â'r flwyddyn honno, didynnu £303 o'r swm a geir yng Ngham 1.

Os yw incwm aelwyd y myfyriwr cymwys yn **[**[F47]£59,200 neu ragor**]** mewn cysylltiad â'r flwyddyn honno, didynnu £1,000 o'r swm a geir yng Ngham 1.

Y canlyniad yw swm y grant at deithio sy'n daladwy.

(4) Nid yw gwariant yr eir iddo at ddiben cyfnod o astudio preswyl i ffwrdd o'r sefydliad sy'n darparu'r cwrs presennol yn wariant yr eir iddo at y diben a grybwyllir yn Amod 2 o baragraff (1).

**Diwygiadau Testunol**

**F46** Geiriau yn rhl. 65(3) wedi eu hamnewid (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **11(a)**

**F47** Geiriau yn rhl. 65(3) wedi eu hamnewid (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **11(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I65** Rhl. 65 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Grant at deithio ar gyfer astudio neu weithio dramor

**66.**—(1) Mae grant at deithio ar gael i fyfyriwr cymwys os yw'r amodau a ganlyn wedi eu bodloni—

*Amod 1*

Mae'r cwrs presennol yn gwrs llawnamser.

*Amod 2*

Am o leiaf hanner unrhyw chwarter o'r flwyddyn academaidd o dan sylw, mae'r myfyriwr cymwys yn bresennol, fel rhan o'r cwrs, mewn—

(a) sefydliad tramor (gan gynnwys Sefydliad Prifysgol Llundain ym Mharis), neu

(b) lleoliad gwaith tramor yn ystod blwyddyn Erasmus,

(cyfeirir at bresenoldeb o'r fath yn y rheoliad hwn fel "y lleoliad" ac at chwarter o'r fath fel "chwarter cymhwysol").

*Amod 3*

Mae'r myfyriwr yn mynd i—

(a) costau teithio, neu

(b) unrhyw wariant a grybwyllir ym mharagraff (3),

at ddiben y lleoliad.

(2) Swm y grant at deithio sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd yw'r swm y penderfynir arno gan Weinidogion Cymru yn unol â'r fformiwla a ganlyn—

$$(X - Y) + Z$$

Pan—

X yw swm cyfanredol y costau teithio rhesymol y mae'n ofynnol i'r myfyriwr cymwys fynd iddynt ym mhob chwarter cymhwysol at ddibenion y lleoliad;

Y yw—

(a) £303 os yw incwm aelwyd y myfyriwr cymwys (gweler Atodlen 3) yn **[**[F48]llai na £59,200**]** mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd o dan sylw, neu

(b) £1,000 os yw incwm aelwyd y myfyriwr cymwys yn **[**[F49]£59,200 neu ragor**]** mewn cysylltiad â'r flwyddyn honno;

Z yw swm cyfanredol unrhyw wariant yr eir iddo ym mhob chwarter cymhwysol a bennir ym mharagraff (3).

Y canlyniad yw swm y grant at deithio sy'n daladwy (ac os yw'r canlyniad yn cyfateb i ddim neu i swm negyddol, nid yw grant at deithio yn daladwy).

(3) Y gwariant a grybwyllir ym mharagraffau (1) a (2) yw—

(a) gwariant y mae'n rhesymol i'r myfyriwr cymwys fynd iddo wrth yswirio rhag atebolrwydd am gost triniaeth feddygol a ddarperir y tu allan i'r Deyrnas Unedig am unrhyw salwch neu anaf personol y mae'n ei ddal neu'n ei ddioddef yn ystod y lleoliad;

(b) cost unrhyw fisa y mae'n ofynnol i'r myfyriwr ei chael er mwyn bod yn bresennol yn y lleoliad;

(c) costau meddygol y mae'n rhesymol i'r myfyriwr fynd iddynt er mwyn cyflawni amod mandadol i fynd i'r diriogaeth, y wlad neu'r wladwriaeth lle y mae'r lleoliad.

**Diwygiadau Testunol**

**F48** Geiriau yn rhl. 66(2) wedi eu hamnewid (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **12(a)**

**F49** Geiriau yn rhl. 66(2) wedi eu hamnewid (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **12(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I66** Rhl. 66 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Grant at deithio nad yw'n daladwy ar gyfer gwariant a gwmpesir gan y grant myfyriwr anabl

**67.** Pan fo grant myfyriwr anabl yn daladwy i gynorthwyo myfyriwr cymwys gyda gwariant y mae'n ofynnol i'r myfyriwr fynd iddo mewn cysylltiad â'r cwrs presennol oherwydd anabledd y myfyriwr, nid yw grant at deithio yn daladwy o dan reoliad 65 neu 66 mewn cysylltiad â'r un gwariant.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I67** Rhl. 67 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 11

## GRANTIAU AR GYFER DIBYNYDDION

### PENNOD 1

### CYFLWYNIAD

**Grantiau ar gyfer dibynyddion**

**68.**—(1) Mae'r canlynol yn grantiau sy'n cael eu rhoi ar gael gan Weinidogion Cymru i fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chostau sy'n gysylltiedig â dibynyddion penodol y myfyriwr ar gyfer blwyddyn academaidd—

(a) grant oedolion dibynnol (gweler Pennod 2);

(b) grant dysgu ar gyfer rhieni (gweler Pennod 3);

(c) grant gofal plant (gweler Pennod 4).

(2) Yn y Rheoliadau hyn, cyfeirir at y grantiau hynny gyda'i gilydd fel "grantiau ar gyfer dibynyddion".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I68** Rhl. 68 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Amodau cymhwyso i gael grantiau ar gyfer dibynyddion**

**69.**—(1) Mae myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael unrhyw grant penodol ar gyfer dibynyddion mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd o'r cwrs presennol—

(a) os yw'r myfyriwr yn bodloni'r amodau cymhwyso ar gyfer y grant hwnnw,

(b) os nad yw'r myfyriwr yn dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r eithriadau ym mharagraff (2), ac

(c) os yw cwrs presennol y myfyriwr yn gwrs rhan-amser, os yw'r dwysedd astudio ar gyfer y flwyddyn academaidd yn 50% o leiaf.

(2) Yr eithriadau yw—

*Eithriad 1*

Mae'r myfyriwr cymwys yn garcharor, oni bai—

(a) bod y cwrs presennol yn gwrs rhan-amser, a

(b) bod y myfyriwr yn mynd i'r carchar neu'n cael ei ryddhau o'r carchar yn y flwyddyn academaidd o dan sylw.

*Eithriad 2*

Mae'r myfyriwr cymwys yn fyfyriwr cymwys Categori 6 yn rhinwedd paragraff 6(1) o Atodlen 2 yn unig ac nid yw'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r categorïau eraill o fyfyrwyr cymwys a bennir yn yr Atodlen honno.

*Eithriad 3*

Mae'r flwyddyn academaidd yn flwyddyn y mae'r myfyriwr yn gymwys i wneud cais mewn cysylltiad â hi am—

(a) bwrsari gofal iechyd, neu

(b) lwfans gofal iechyd yr Alban,

a gyfrifir drwy gyfeirio at incwm y myfyriwr (pa un a yw swm y cyfrifiad yn cyfateb i ddim ai peidio).

*Eithriad 4*

Mae'r myfyriwr cymwys yn ymgymryd â blwyddyn academaidd o gwrs mynediad graddedig carlam, ac eithrio blwyddyn gyntaf y cwrs.

*Eithriad 5*

Mae'r cwrs presennol yn gwrs dysgu o bell.

*Eithriad 6*

Mae'r myfyriwr cymwys yn ymgymryd â blwyddyn academaidd o gwrs rhyngosod pan fo swm cyfanredol y cyfnodau o astudio llawnamser yn llai na 10 wythnos (oni bai ei bod yn flwyddyn y mae rheoliad 44(2) yn gymwys iddi).

*Eithriad 7*

Mae'r person y mae'r myfyriwr cymwys yn gwneud cais mewn cysylltiad ag ef—

(a) yn fyfyriwr cymwys, a

(b) yn cael dyfarndal statudol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I69** Rhl. 69 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Dehongli Rhan 11**

**70.**—(1) Yn y Rhan hon—

ystyr "blwyddyn academaidd gyfredol" ("*current academic year*") yw blwyddyn academaidd y cwrs presennol y mae'r myfyriwr cymwys yn gwneud cais am grant ar gyfer dibynyddion mewn cysylltiad â hi;

ystyr "oedolyn dibynnol" ("*adult dependant*") yw oedolyn—

(a) sy'n ariannol ddibynnol yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar y myfyriwr cymwys, neu

(b) sy'n ariannol ddibynnol yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar y myfyriwr cymwys ac ar bartner y myfyriwr cymwys gyda'i gilydd,

ond nid plentyn y myfyriwr cymwys, partner y myfyriwr cymwys (gan gynnwys partner y mae'r myfyriwr cymwys wedi gwahanu oddi wrtho) neu gyn-bartner y myfyriwr cymwys;

ystyr "plentyn dibynnol" ("*dependent child*") yw plentyn—

(a) sy'n ariannol ddibynnol yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar y myfyriwr cymwys, neu

(b) sy'n ariannol ddibynnol yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar y myfyriwr cymwys ac ar bartner y myfyriwr cymwys gyda'i gilydd,

gan gynnwys plentyn i bartner y myfyriwr cymwys a phlentyn y mae gan y myfyriwr cymwys gyfrifoldeb rhiant drosto;

ystyr "rhiant unigol" ("*lone parent*") yw person—

(a) sy'n rhiant plentyn dibynnol, a

(b) nad oes ganddo bartner.

(2) Yn y Rhan hon, ystyr unrhyw gyfeiriad at bartner person ("A") yw–

(a) priod neu bartner sifil A, neu

(b) person sy'n byw fel arfer gydag A fel pe bai'r person yn briod neu'n bartner sifil A.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rhan hon at incwm person neu bersonau yn gyfeiriad at yr incwm hwnnw fel y'i cyfrifir yn unol â'r darpariaethau priodol yn Atodlen 3.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I70** Rhl. 70 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

PENNOD 2

GRANT OEDOLION DIBYNNOL

### Grant oedolion dibynnol

**71.**—(1) Dim ond mewn cysylltiad ag un o'r personau a ganlyn—

(a) partner y myfyriwr,

(b) oedolyn dibynnol y myfyriwr,

y mae myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael grant oedolion dibynnol.

(2) Ond nid yw myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael grant oedolion dibynnol os yw un o'r eithriadau a ganlyn yn gymwys—

*Eithriad 1*

Pan fo'r myfyriwr cymwys yn gwneud cais mewn cysylltiad ag oedolyn dibynnol ("O")—

(a) mae incwm net O ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol yn fwy na £3,923, neu

(b) mae O yn—

(i) priod neu bartner sifil i bartner y myfyriwr cymwys (gan gynnwys priod neu bartner sifil y mae partner y myfyriwr wedi gwahanu oddi wrtho), neu

(ii) cyn-bartner i bartner y myfyriwr cymwys.

*Eithriad 2*

Pan fo'r myfyriwr cymwys yn gwneud cais mewn cysylltiad â phartner y myfyriwr "(P)"—

(a) mae'r myfyriwr cymwys, ym marn Gweinidogion Cymru, wedi gwahanu oddi wrth P, neu

(b) mae P yn byw fel arfer y tu allan i'r Deyrnas Unedig ac nid yw'n cael ei gynnal gan y myfyriwr cymwys.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I71** Rhl. 71 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Uchafswm y grant oedolion dibynnol

**72.**—(1) Yn Nhabl 11, mae Colofn 2 yn nodi uchafswm y grant oedolion dibynnol sy'n daladwy mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 1.

(2) Ond pan fo'r person y mae'r myfyriwr cymwys yn gwneud cais mewn cysylltiad ag ef yn preswylio fel arfer y tu allan i'r Deyrnas Unedig, mae swm y grant oedolion dibynnol sy'n daladwy yn swm, nad yw'n fwy na'r uchafswm, y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

**Tabl 11**

| *[F50 Colofn 1 Blwyddyn academaidd* | *Colofn 2 Uchafswm y grant oedolion dibynnol* |
|---|---|
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2018 ond cyn 1 Medi 2020 | £2,732 |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2020 ond cyn 1 Medi 2021 | £3,094 |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2021 | £3,190**]** |

**Diwygiadau Testunol**

**F50** Rhl. 72 Amnewidiwyd Tabl 11 (gyda chais yn unol â rheoliad 1(2) o O.S.) diwygio gan Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 32**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I72** Rhl. 72 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

PENNOD 3

GRANT DYSGU AR GYFER RHIENI

### Grant dysgu ar gyfer rhieni

**73.** Mae myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael grant dysgu ar gyfer rhieni os oes gan y myfyriwr cymwys un neu ragor o blant dibynnol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I73** Rhl. 73 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Uchafswm y grant dysgu ar gyfer rhieni

**74.** Yn Nhabl 12, mae Colofn 2 yn nodi uchafswm y grant dysgu ar gyfer rhieni sy'n daladwy mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 1.

**Tabl 12**

| *[F51 Colofn 1 Blwyddyn academaidd* | *Colofn 2 Uchafswm y grant dysgu ar gyfer rhieni* |
|---|---|
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2018 ond cyn 1 Medi 2020 | £1,557 |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2020 ond cyn 1 Medi 2021 | £1,766 |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2021 | £1,821**]** |

**Diwygiadau Testunol**

**F51** Rhl. 74 Amnewidiwyd Tabl 12 (gyda chais yn unol â rheoliad 1(2) o O.S.I. sy'n diwygio) gan Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 33**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I74** Rhl. 74 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

PENNOD 4

GRANT GOFAL PLANT

### Grant gofal plant

**75.**—(1) Mae myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael grant gofal plant mewn cysylltiad â ffioedd gofal plant rhagnodedig yr eir iddynt ar gyfer plentyn dibynnol yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol os yw un o'r amodau a ganlyn wedi ei fodloni—

*Amod 1*

Mae'r plentyn dibynnol o dan 15 oed yn union cyn dechrau'r flwyddyn academaidd.

*Amod 2*

Mae gan y plentyn dibynnol anghenion addysgol arbennig o fewn ystyr "special educational needs" yn adran 312 o Ddeddf Addysg 1996(**33**) ac mae o dan 17 oed yn union cyn dechrau diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd.

(2) Ond nid yw'r myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael grant gofal plant yn unrhyw un o'r achosion a ganlyn—

*Achos 1*

Mae'r myfyriwr cymwys neu bartner y myfyriwr cymwys wedi dewis cael yr elfen gofal plant o'r credyd treth gwaith o dan Ran 1 o Ddeddf Credydau Treth 2002(**34**).

*Achos 2*

Mae gan y myfyriwr cymwys neu bartner y myfyriwr cymwys hawlogaeth i gael dyfarndal o gredyd cynhwysol sy'n cynnwys swm mewn cysylltiad â chostau gofal plant o dan reoliad 31 o Reoliadau Credyd Cynhwysol 2013 (elfen costau gofal plant)(**35**).

*Achos 3*

Mae partner y myfyriwr cymwys wedi dewis cael cymorth ariannol at ofal plant o dan fwrsari gofal iechyd.

*Achos 4*

Mae'r ffioedd gofal plant rhagnodedig ar gyfer cyfnod y mae'r myfyriwr cymwys neu bartner y myfyriwr cymwys wedi gwneud datganiad cymhwystra dilys mewn cysylltiad ag ef o fewn yr ystyr a roddir gan adran 4 o Ddeddf Taliadau Gofal Plant 2014(**36**).

*Achos 5*

(**33**) 1996 p. 56; diwygiwyd adran 312 gan Ddeddf Addysg 1997 (p. 44), Atodlen 7, paragraff 23 ac Atodlen 8, Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31), adran 140, Atodlen 30, paragraff 71 ac Atodlen 31, Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), adran 59 ac Atodlen 2, Deddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6), Atodlen 3 ac O.S. 2010/1158.
(**34**) 2002 p. 21.
(**35**) O.S. 2013/376.
(**36**) 2014 p. 28.

Mae'r ffioedd gofal plant rhagnodedig wedi eu talu neu i'w talu gan y myfyriwr cymwys i bartner y myfyriwr.

*Achos 6*

Mae'r ffioedd gofal plant rhagnodedig mewn cysylltiad ag unrhyw gyfnod rhwng diwedd y cwrs a diwedd y flwyddyn academaidd y daw'r cwrs i ben ynddi.

(3) Yn y rheoliad hwn ac yn rheoliad 76—

ystyr "ffioedd gofal plant rhagnodedig" ("*prescribed childcare charges*") yw ffioedd gofal plant o ddisgrifiad a ragnodir at ddibenion adran 12 o Ddeddf Credydau Treth 2002(**37**);

mae "plentyn dibynnol" ("*dependent child*") yn cynnwys plentyn dibynnol a enir ar ôl dechrau'r flwyddyn academaidd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I75** Rhl. 75 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Uchafswm y grant gofal plant**

**76.**—(1) Swm y grant gofal plant sy'n daladwy yw 85% o ffioedd gofal plant rhagnodedig wythnosol y myfyriwr cymwys, hyd at yr uchafswm wythnosol—

(a) a bennir yn Nhabl 13, neu

(b) pan fo paragraff (4) yn gymwys, a bennir yn y paragraff hwnnw.

(2) Yn Nhabl 13—

(a) mae Colofn 1 yn pennu'r flwyddyn academaidd y mae uchafswm wythnosol y grant gofal plant yng Ngholofn 3 yn daladwy mewn perthynas â hi;

(b) mae Colofn 2 yn pennu nifer y plant dibynnol y mae'r symiau a bennir yng Ngholofn 3 yn ymwneud â hwy;

(c) mae Colofn 3 yn pennu uchafswm wythnosol y grant gofal plant sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r cofnodion cyfatebol yng Ngholofnau 1 a 2, pan fo'r cais am grant gofal plant yn nodi darparwr gofal plant.

**Tabl 13**

| [F52 *Colofn 1*<br>*Blwyddyn academaidd* | *Colofn 2*<br>*Nifer y plant dibynnol* | *Colofn 3*<br>*Uchafswm wythnosol* |
|---|---|---|
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2018 ond cyn 1 Medi 2020 | Un plentyn dibynnol | £161.50 |
| | Mwy nag un plentyn dibynnol | £274.55 |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2020 ond cyn 1 Medi 2021 | Un plentyn dibynnol | £174.22 |
| | Mwy nag un plentyn dibynnol | £298.69 |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2021 | Un plentyn dibynnol | £179.62 |
| | Mwy nag un plentyn dibynnol | £307.95] |

(**37**) Mae rheoliad 14 o Reoliadau Credyd Treth Gwaith (Hawlogaeth a'r Gyfradd Uchaf) 2002 (O.S. 2002/2005) fel y'i diwygiwyd yn rhagnodi'r ffioedd gofal plant.

(3) Pan fo gan y myfyriwr cymwys fwy nag un plentyn dibynnol, y swm a bennir yn y cofnod priodol yng Ngholofn 3 yw'r uchafswm wythnosol sy'n daladwy, ni waeth faint o blant sy'n cael gofal plant.

(4) Pan na fo cais y myfyriwr cymwys am grant gofal plant yn nodi'r darparwr gofal plant, caiff Gweinidogion Cymru gyfyngu—

(a) ar swm y grant gofal plant a delir i'r myfyriwr i 85% o'r ffioedd gofal plant rhagnodedig hyd at uchafswm wythnosol o **[**[F53]£138.31;**]**

(b) ar y taliad o'r grant gofal plant i un chwarter o'r flwyddyn academaidd.

(5) At ddibenion cyfrifo swm grant gofal plant, mae wythnos yn rhedeg o ddydd Llun i ddydd Sul.

(6) Os eir i ffioedd gofal plant rhagnodedig mewn cysylltiad ag wythnos sy'n dod yn rhannol o fewn y flwyddyn academaidd y mae grant gofal plant yn daladwy mewn cysylltiad â hi ac yn rhannol y tu allan i'r flwyddyn academaidd honno, cyfrifir yr uchafswm wythnosol drwy gymhwyso'r fformiwla a ganlyn—

$$\frac{A \times B}{7}$$

Pan—

A yw'r uchafswm wythnosol sy'n gymwys, a

B yw nifer y diwrnodau yn yr wythnos honno sy'n dod o fewn y flwyddyn academaidd.

**Diwygiadau Testunol**

**F52** Rhl. 76 Amnewidiwyd Tabl 13 (gyda chais yn unol â rheoliad 1(2) o O.S.I. sy'n diwygio) gan Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 34(a)**

**F53** Sum in Rhl. 76(4)(a) wedi ei amnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(2) o'r O.S. diwygio) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 34(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I76** Rhl. 76 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

## PENNOD 5

## SWM Y GRANT AR GYFER DIBYNYDDION SY'N DALADWY

### Grantiau ar gyfer dibynyddion: cyfrifo'r swm sy'n daladwy

**77.**—(1) Cyfrifir swm y grant ar gyfer dibynyddion sy'n daladwy i fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd drwy gymhwyso'r camau a ganlyn—

*Cam 1*

Cyfrifo swm cyfanredol—

(a) incwm aelwyd y myfyriwr cymwys a gyfrifir o dan Ran 2 o Atodlen 3,

(b) os nad yw eisoes wedi cael ei ystyried fel rhan o incwm aelwyd y myfyriwr cymwys, incwm gweddilliol oedolyn dibynnol y myfyriwr cymwys ar gyfer y flwyddyn ariannol gymwys a gyfrifir o dan Bennod 2 o Ran 4 o Atodlen 3, ac

(c) incwm net plant dibynnol y myfyriwr cymwys ar gyfer y flwyddyn ariannol gymwys a gyfrifir o dan Ran 5 o Atodlen 3.

*Cam 2*

Didynnu'r symiau a ganlyn o'r cyfanswm cyfanredol a gyfrifir o dan Gam 1—

(a) £6,159, pan na fo gan y myfyriwr cymwys blant dibynnol;

(b) £8,473, pan na fo'r myfyriwr cymwys yn rhiant unigol a bod ganddo un plentyn dibynnol;

(c) £9,632, pan—

(i) na fo'r myfyriwr cymwys yn rhiant unigol, a bod ganddo fwy nag un plentyn dibynnol, neu

(ii) bo'r myfyriwr cymwys yn rhiant unigol a bod ganddo un plentyn dibynnol;

(d) £10,797, pan fo'r myfyriwr cymwys yn rhiant unigol a bod ganddo fwy nag un plentyn dibynnol.

Y canlyniad yw'r cyfanswm net.

*Cam 3*

Adio at ei gilydd uchafswm pob grant ar gyfer dibynyddion y mae'r myfyriwr cymwys yn cymhwyso i'w gael.

Y canlyniad yw'r uchafsymiau cyfanredol.

*Cam 4*

(a) Os yw'r cyfanswm net o dan Gam 2 yn cyfateb i ddim neu i swm negyddol, y swm sy'n daladwy yw—

(i) pan fo'r cwrs presennol yn gwrs llawnamser, yr uchafsymiau cyfanredol a geir o dan Gam 3;

(ii) pan fo'r cwrs presennol yn gwrs rhan-amser, yr uchafsymiau cyfanredol a geir o dan Gam 3 wedi eu gostwng yn unol â pharagraff (2).

(b) Os yw'r cyfanswm net o dan Gam 2 yn hafal i'r uchafsymiau cyfanredol a geir o dan Gam 3 neu'n fwy na hwy, y swm sy'n daladwy yw dim.

(c) Os yw'r cyfanswm net o dan Gam 2 yn swm positif sy'n llai na'r uchafsymiau cyfanredol a geir o dan Gam 3, didynnu'r cyfanswm net o'r uchafsymiau cyfanredol er mwyn gostwng swm y grant ar gyfer dibynyddion sy'n daladwy yn y drefn a ganlyn hyd nes bod y cyfanswm net wedi ei ddihysbyddu—

(i) yn gyntaf, didynnu uchafswm y grant oedolion dibynnol y mae'r myfyriwr cymwys yn cymhwyso i'w gael;

(ii) wedyn, didynnu uchafswm y grant gofal plant y mae'r myfyriwr yn cymhwyso i'w gael;

(iii) yn olaf, didynnu uchafswm y grant dysgu ar gyfer rhieni y mae'r myfyriwr yn cymhwyso i'w gael.

(d) Pan fo is-baragraff (c) o'r Cam hwn yn gymwys, y swm sy'n weddill ar ôl y gostyngiad hwnnw yw—

(i) y swm sy'n daladwy pan fo'r cwrs presennol yn gwrs llawnamser;

(ii) y swm sydd i gael ei ostwng yn unol â pharagraff (2) pan fo'r cwrs presennol yn gwrs rhan-amser.

(2) Os yw cwrs presennol y myfyrwyr cymwys yn gwrs rhan-amser, swm y grant ar gyfer dibynyddion sy'n daladwy yw'r swm y cyfeirir ato ym mharagraff (a)(ii) neu (d)(ii) o Gam 4 o baragraff (1) wedi ei luosi ag—

(a) 50%, pan fo'r dwysedd astudio ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol yn 50% o leiaf ond yn llai na 60%;

(b) 60%, pan fo’r dwysedd astudio ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol yn 60% o leiaf ond yn llai na 75%;

(c) 75%, pan fo’r dwysedd astudio ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol yn 75% neu’n fwy.

(3) Pan fo swm y grant ar gyfer dibynyddion sy’n daladwy o ganlyniad i Gam 4 o baragraff (1) neu, yn ôl y digwydd, baragraff (2), yn swm y grant dysgu ar gyfer rhieni sy’n fwy na £0.01 ond yn llai na £50, y swm sy’n daladwy yw £50.

(4) Mae’r rheoliad hwn yn ddarostyngedig i reoliadau 78 a 79.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I77** Rhl. 77 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Swm y grant oedolion dibynnol a’r grant gofal plant: pan fo partner y myfyriwr cymwys yn fyfyriwr cymwys

**78.** Pan, o ganlyniad i Gam 4 o baragraff (1) o reoliad 77 neu, yn ôl y digwydd, baragraff (2) o’r rheoliad hwnnw, fo swm grant oedolion dibynnol a grant gofal plant yn daladwy i fyfyriwr cymwys, mae’r swm hwnnw wedi ei ostwng un hanner pan fo—

(a) partner y myfyriwr cymwys—

(i) yn fyfyriwr cymwys, neu

(ii) wedi cael dyfarndal statudol, a

(b) swm y cymorth sy’n daladwy i’r partner—

(i) yn rhinwedd bod y partner yn fyfyriwr cymwys, neu

(ii) o dan y dyfarndal statudol

yn ystyried dibynyddion y partner.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I78** Rhl. 78 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Newidiadau mewn amgylchiadau

**79.**—(1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys pan fo unrhyw un neu ragor o’r canlynol yn digwydd yn ystod y flwyddyn academaidd—

(a) mae nifer dibynyddion y myfyriwr cymwys yn newid;

(b) mae’r myfyriwr yn dod yn rhiant unigol neu’n peidio â bod yn rhiant unigol;

(c) mae’r myfyriwr yn dod yn fyfyriwr cymwys o ganlyniad i ddigwyddiad y cyfeirir ato yn rheoliad 81(3).

(2) At ddibenion penderfynu a yw grant oedolion dibynnol neu grant dysgu ar gyfer rhieni yn daladwy a’r swm sy’n daladwy, rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu ar y canlynol mewn perthynas â phob chwarter perthnasol—

(a) faint o ddibynyddion y mae’r myfyriwr cymwys i’w drin fel pe baent ganddo;

(b) a yw’r myfyriwr i’w drin fel rhiant unigol.

(3) Cyfanswm y grant ar gyfer dibynyddion sy’n daladwy ar gyfer y flwyddyn academaidd yw—

(a) swm cyfanredol y grant oedolion dibynnol a'r grant dysgu ar gyfer rhieni a gyfrifir mewn cysylltiad â phob chwarter perthnasol o dan y rheoliad hwn, plws

(b) swm unrhyw grant gofal plant sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn academaidd.

(4) Mae swm y grant oedolion dibynnol a'r grant dysgu ar gyfer rhieni sy'n daladwy mewn cysylltiad â chwarter perthnasol yn draean o swm y grant hwnnw a fyddai'n daladwy ar gyfer y flwyddyn academaidd fel y'i penderfynir o dan reoliad 77 pe bai amgylchiadau'r myfyriwr yn y chwarter perthnasol wedi aros yr un peth drwy gydol y flwyddyn academaidd gyfan.

(5) Yn y rheoliad hwn, ystyr "chwarter perthnasol" yw—

(a) yn achos myfyriwr cymwys y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(c), chwarter sy'n dechrau yn union ar ôl i'r digwyddiad perthnasol ddigwydd ac eithrio chwarter pryd y mae'r hwyaf o unrhyw wyliau yn digwydd;

(b) fel arall, chwarter ac eithrio'r chwarter pryd y mae'r hwyaf o unrhyw wyliau yn digwydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I79** Rhl. 79 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 12

## CYMHWYSO I GAEL CYMORTH YN YSTOD Y FLWYDDYN ACADEMAIDD

### Cymhwyso i gael benthyciad at ffioedd dysgu yn ystod y flwyddyn academaidd

**80.**—(1) Pan fo un o'r digwyddiadau [a restrir] ym mharagraff (2) yn digwydd o fewn 3 mis i ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd, caiff y myfyriwr gymhwyso i gael benthyciad at ffioedd dysgu mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd honno.

(2) Y digwyddiadau yw—

(a) bod y cwrs presennol yn dod yn gwrs dynodedig;

(b) bod y myfyriwr yn dod yn fyfyriwr cymwys ar y sail—

**[**[F54](i) bod y myfyriwr, neu ei briod, ei bartner sifil neu ei riant yn cael ei gydnabod yn ffoadur, yn dod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth, yn dod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu'n dod yn berson y rhoddwyd diogelwch dyngarol iddo o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo;**]**

**[**[F55](ia) bod y myfyriwr neu riant y myfyriwr yn dod yn berson sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67;**]**

(ii) bod gwladwriaeth yn ymaelodi â'r Undeb Ewropeaidd pan fo'r myfyriwr yn wladolyn o'r wladwriaeth honno neu'n aelod o deulu gwladolyn o'r wladwriaeth honno;

(iii) bod y myfyriwr yn dod yn aelod o deulu gwladolyn o'r UE **[**[F56]neu berson sy'n gymwys o dan baragraff 6(1) o Atodlen 2 yn rhinwedd paragraff 6(1A) o'r Atodlen honno ac eithrio fel aelod o'r teuluac eithrio fel aelod o'r teulu**]**;

**[**[F57](iv) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 1(2)(a) o Atodlen 2;**]**

(v) bod y myfyriwr yn dod yn blentyn i weithiwr Twrcaidd;

(vi) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 4(1)(a) o Atodlen 2;

(vii) bod y myfyriwr yn dod yn blentyn i wladolyn Swisaidd.

(3) Yn y rheoliad hwn ac yn rheoliad 81, mae i'r termau a ganlyn yr un ystyr ag yn Atodlen 2—

"aelod o deulu" ("*family member*") (o fewn yr ystyr a roddir gan baragraff 6(5) o Atodlen 2);

"ffoadur" ("*refugee*");

"gweithiwr Twrcaidd" ("*Turkish worker*");

"hawl i breswylio'n barhaol" ("*right of permanent residence*");

**[**[F58]"person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67" ("*person with section 67 leave to remain*");**]**

"person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros" ("*person with leave to enter or remain*");

**[**[F59]"person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth" ("*person granted stateless leave*")**]**

"plentyn" ("*child*");

**[**[F60]"rheolau mewnfudo" ("*immigration rules*");**]**

"rhiant" ("*parent*").

**Diwygiadau Testunol**

**F54** Rhl. 80(2)(b)(i) wedi ei amnewid (28.1.2021) gan Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/9), rhlau. 1(2), **43(a)**

**F55** Rhl. 80(2)(b)(ia) wedi ei fewnosod (gyda chais yn unol â rhl. 1(3)(b) of the amending S.I.) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/235), rhlau. 1(3)(a), **52(a)**

**F56** Geiriau yn rhl. 80(2)(b)(iii) wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **29(a)**

**F57** Rhl. 80(2)(b)(iv) wedi ei amnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **29(b)**

**F58** Geiriau yn rhl. 80(3) wedi eu mewnosod (gyda chais yn unol â rhl. 1(3)(b) of the amending S.I.) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/235), rhlau. 1(3)(a), **52(b)**

**F59** Geiriau yn rhl. 80(3) wedi eu mewnosod (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **13(b)**

**F60** Geiriau yn rhl. 80(3) wedi eu mewnosod (28.1.2021) gan Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/9), rhlau. 1(2), **43(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I80** Rhl. 80 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Cymhwyso i gael benthyciad cynhaliaeth neu grantiau yn ystod y flwyddyn academaidd

**81.**—(1) Pan fo un o'r digwyddiadau ym mharagraff (3) yn digwydd, caiff y myfyriwr cymwys gymhwyso i gael benthyciad cynhaliaeth neu grant.

(2) Ond ni fydd swm y benthyciad neu'r grant sy'n daladwy i'r myfyriwr cymwys ond—

**[**[F61](a) yn achos grant, mewn cysylltiad â gweddill diwrnodau y flwyddyn academaidd, ac, yn achos benthyciad cynhaliaeth, mewn cysylltiad â gweddill diwrnodau tymor y flwyddyn academaidd, sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r digwyddiad perthnasol yn digwydd yn y naill achos neu'r llall, a**]**

(b) yn daladwy, mewn perthynas â benthyciad cynhaliaeth, os yw'n chwarter y byddai'r benthyciad fel arall yn daladwy o dan reoliad 85(6) a (7) mewn cysylltiad ag ef.

(3) Y digwyddiadau yw—

(a) bod cwrs y myfyriwr yn dod yn gwrs dynodedig;

(b) bod y myfyriwr yn dod yn fyfyriwr cymwys ar y sail–

[F62(i) bod y myfyriwr neu ei briod, ei bartner sifil neu ei riant yn cael ei gydnabod yn ffoadur, yn dod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth, yn dod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu'n dod yn berson y rhoddwyd diogelwch dyngarol iddo o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo;**]**

[F63(ia) bod y myfyriwr neu riant y myfyriwr yn dod yn berson sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67;**]**

(ii) bod y myfyriwr yn wladolyn o wladwriaeth sy'n ymaelodi â'r Undeb Ewropeaidd pan fo'r myfyriwr wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

[F64(iii) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 1(2)(a) o Atodlen 2;**]**

(iv) bod y myfyriwr yn dod yn blentyn i weithiwr Twrcaidd;

(v) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 4(1)(a) o Atodlen 2;

(vi) bod y myfyriwr yn dod yn blentyn i wladolyn Swisaidd.

**Diwygiadau Testunol**

**F61** Rhl. 81(2)(a) wedi ei amnewid (1.8.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2018 (O.S. 2018/813), rhlau. 1(2), **7**

**F62** Rhl. 81(3)(b)(i) wedi ei amnewid (28.1.2021) gan Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/9), rhlau. 1(2), **44**

**F63** Rhl. 81(3)(b)(ia) wedi ei fewnosod (gyda chais yn unol â rhl. 1(3)(b) of the amending S.I.) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/235), rhlau. 1(3)(a), **53**

**F64** Rhl. 81(3)(b)(iii) wedi ei amnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **30**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I81** Rhl. 81 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 13

## TALIADAU, GORDALIADAU AC ADENNILL

## PENNOD 1

### TALIAD YN DILYN PENDERFYNIAD DROS DRO

**Taliad ar sail asesiad dros dro**

**82.** Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad dros dro ar gais o dan reoliad 32, caiff Gweinidogion Cymru wneud taliad sy'n seiliedig ar y penderfyniad hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I82** Rhl. 82 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

PENNOD 2

TALU BENTHYCIAD AT FFIOEDD DYSGU

### Talu benthyciad at ffioedd dysgu

**83.**—(1) Pan fo benthyciad at ffioedd dysgu yn daladwy i fyfyriwr cymwys, rhaid i Weinidogion Cymru dalu'r swm hwnnw i'r awdurdod academaidd y mae'r myfyriwr yn atebol i wneud taliad iddo.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru dalu'r swm hwnnw mewn rhandaliadau neu mewn un cyfandaliad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I83** Rhl. 83 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Gofynion ar gyfer talu'r benthyciad at ffioedd dysgu

**84.**—(1) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw daliad o dan reoliad 83 oni bai eu bod wedi cael gan yr awdurdod academaidd—

(a) cais am daliad mewn cysylltiad â'r myfyriwr cymwys, a

(b) cadarnhad ysgrifenedig bod y myfyriwr yn ymgymryd â'r cwrs dynodedig.

(2) Rhaid i'r cadarnhad y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(b)—

(a) mewn perthynas â'r taliad cyntaf (neu'r unig daliad) mewn cysylltiad â'r cwrs, gadarnhau bod y myfyriwr wedi ymrestru ar y cwrs presennol ac wedi dechrau ymgymryd ag ef;

(b) mewn perthynas ag unrhyw daliadau dilynol mewn cysylltiad â'r cwrs, gadarnhau bod y myfyriwr yn parhau i fod wedi ymrestru ar y cwrs ac yn parhau i ymgymryd â'r cwrs.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I84** Rhl. 84 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

PENNOD 3

TALU BETHYCIADAU CYNHALIAETH A GRANTIAU

### Talu benthyciadau cynhaliaeth a grantiau

**85.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru dalu swm y benthyciad cynhaliaeth neu'r grant i fyfyriwr cymwys pan fo'n daladwy i'r myfyriwr.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru dalu'r swm hwnnw mewn rhandaliadau neu mewn un cyfandaliad.

(3) Yn ddarostyngedig i **[**[F65]baragraff (5)**]**, mae grant yn daladwy mewn cysylltiad â phedwar chwarter y flwyddyn academaidd.

[F66](4) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(5) Mae grant at deithio sy'n daladwy o dan reoliad 66 yn daladwy mewn cysylltiad â phob un o'r chwarteri cymhwysol (o fewn ystyr y rheoliad hwnnw).

(6) Mae benthyciad cynhaliaeth yn daladwy mewn cysylltiad â thri chwarter y flwyddyn academaidd.

(7) Nid yw unrhyw fenthyciad cynhaliaeth yn daladwy—

(a) yn achos cwrs gradd cywasgedig, mewn cysylltiad â'r chwarter a enwir gan Weinidogion Cymru;

(b) mewn unrhyw achos arall, mewn cysylltiad â'r chwarter y mae'r hwyaf o unrhyw wyliau yn digwydd ynddo.

**Diwygiadau Testunol**

**F65** Geiriau yn rhl. 85(3) wedi eu hamnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(2) o'r O.S diwygio) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 10(a)**

**F66** Rhl. 85(4) wedi ei hepgor (gyda chais yn unol â rhl. 1(2) o'r O.S. diwygio) yn rhinwedd Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 10(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I85** Rhl. 85 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Myfyrwyr sy'n byw mewn mwy nag un lleoliad

**86.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu ar y lleoliad y mae myfyriwr cymwys yn byw ynddo yn ystod pob chwarter y mae grant cynhaliaeth neu fenthyciad cynhaliaeth yn daladwy i'r myfyriwr mewn cysylltiad ag ef (gweler paragraff 3 o Atodlen 1).

(2) Pan fo myfyriwr cymwys yn byw mewn mwy nag un categori o leoliad yn ystod chwarter, mae'r myfyriwr cymwys yn cael ei drin fel pe bai'n byw yn y lleoliad y mae'n byw ynddo am y cyfnod hwyaf.

(3) Pan fo myfyriwr cymwys yn byw mewn mwy nag un categori o leoliad am gyfnod cyfartal yn ystod chwarter, mae'r myfyriwr cymwys yn cael ei drin fel pe bai'n byw yn y lleoliad y mae'r gyfradd uchaf o fenthyciad cynhaliaeth neu grant cynhaliaeth yn daladwy mewn perthynas ag ef.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I86** Rhl. 86 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Cadarnhad o bresenoldeb

**87.**—(1) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw daliad o dan reoliad 85 oni bai eu bod wedi cael cadarnhad ysgrifenedig gan yr awdurdod academaidd bod y myfyriwr yn ymgymryd â'r cwrs dynodedig ar gyfer y flwyddyn academaidd.

(2) Rhaid i'r cadarnhad y cyfeirir ato ym mharagraff (1) fod yn gadarnhad—

(a) bod y myfyriwr cymwys wedi ymrestru ar y cwrs ar gyfer y flwyddyn academaidd, mewn achos pan fo'r myfyriwr yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â'r cwrs—

(i) ac eithrio am y tro cyntaf,

(ii) am y tro cyntaf os yw statws y myfyriwr fel myfyriwr cymwys wedi cael ei drosglwyddo i'r cwrs o gwrs dynodedig arall yn yr un sefydliad, neu

(iii) am y tro cyntaf os oes gan y myfyriwr anabledd, neu

(b) bod y myfyriwr cymwys wedi ymrestru ar gyfer y flwyddyn academaidd ac wedi dechrau ymgymryd â'r cwrs, mewn achos—

(i) pan fo'r myfyriwr yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â'r cwrs am y tro cyntaf, a

(ii) pan na fo'r myfyriwr wedi trosglwyddo i'r cwrs o gwrs dynodedig arall yn yr un sefydliad.

(3) Ond caniateir gwneud taliad cyn i Weinidogion Cymru gael y cadarnhad y cyfeirir ato ym mharagraff (1)—

(a) os yw'r taliad yn swm o grant myfyriwr anabl, neu

(b) os yw Gweinidogion Cymru yn meddwl ei bod yn briodol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau eithriadol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I87** Rhl. 87 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Penderfynu ar y swm sy'n daladwy ar ôl i daliad gael ei wneud**

**88.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad ar swm unrhyw fenthyciad cynhaliaeth neu grant sy'n daladwy i fyfyriwr cymwys (boed hynny o ganlyniad i ddiwygio penderfyniad dros dro neu fel arall) ar ôl i daliad o unrhyw swm o'r benthyciad cynhaliaeth neu'r grant gael ei wneud.

(2) Os yw'r penderfyniad yn cynyddu swm y benthyciad neu'r grant sy'n daladwy, rhaid i Weinidogion Cymru dalu'r swm ychwanegol yn y rhandaliadau hynny, neu mewn un cyfandaliad, y maent yn meddwl ei bod yn briodol.

(3) Os yw'r penderfyniad yn gostwng swm unrhyw grant sy'n daladwy—

(a) didynnir swm y gostyngiad o weddill y grant sydd eto i gael ei dalu;

(b) os yw'r gostyngiad yn fwy na gweddill y grant hwnnw sydd eto i gael ei dalu—

(i) gostyngir gweddill y swm hwnnw sydd eto i gael ei dalu i ddim,

(ii) mae gweddill y gostyngiad, os oes un, i'w ddidynnu o weddill unrhyw grant arall sydd eto i gael ei dalu, a

(iii) os oes unrhyw swm o'r gostyngiad sy'n weddill o hyd, mae i'w drin fel gordaliad.

(4) Os yw'r penderfyniad yn gostwng swm unrhyw fenthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy ("y cyfanswm newydd sy'n daladwy")—

(a) pan fo'r cyfanswm newydd sy'n daladwy yn fwy na swm y benthyciad cynhaliaeth y mae'r myfyriwr wedi gwneud cais amdano, mae unrhyw swm ychwanegol y caiff y myfyriwr wneud cais amdano wedi ei ostwng yn unol â hynny;

(b) pan fo'r cyfanswm newydd sy'n daladwy yn llai na'r swm y mae'r myfyriwr wedi gwneud cais amdano, ni chaiff y myfyriwr wneud cais am unrhyw swm ychwanegol o fenthyciad cynhaliaeth;

(c) pan fo'r cyfanswm newydd sy'n daladwy yn llai na gweddill y benthyciad cynhaliaeth sydd eto i gael ei dalu—

(i) gostyngir gweddill y swm sydd eto i gael ei dalu i ddim, a

(ii) mae'r rhan honno o'r swm sydd eisoes wedi cael ei dalu sy'n fwy na'r cyfanswm newydd sy'n daladwy, os oes un, i'w thrin fel gordaliad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I88** Rhl. 88 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

PENNOD 4

GORDALIADAU AC ADENNILL

### Gordaliadau – cyffredinol

**89.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru adennill unrhyw ordaliad o fenthyciad at ffioedd dysgu oddi wrth yr awdurdod academaidd.

(2) Pan fo myfyriwr cymwys wedi cael swm unrhyw fenthyciad cynhaliaeth neu grant sy'n fwy na'r swm y mae gan y myfyriwr hawlogaeth i'w gael o dan y Rheoliadau hyn, rhaid i'r myfyriwr ad-dalu'r swm dros ben os yw Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny.

(3) Yn y Bennod hon, mae cyfeiriadau at fyfyriwr cymwys i'w trin fel pe baent yn cynnwys person sydd wedi cael cymorth ond nad yw'n fyfyriwr cymwys neu nad yw'n fyfyriwr cymwys mwyach.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I89** Rhl. 89 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Adennill grantiau sydd wedi cael eu gordalu

**90.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru adennill unrhyw ordaliad o grant oni bai eu bod yn meddwl nad yw'n briodol gwneud hynny.

(2) Mae taliad o grant sydd wedi ei wneud cyn y diwrnod y mae'r cwrs yn dechrau arno mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd o dan sylw yn ordaliad os yw'r myfyriwr cymwys yn tynnu'n ôl o'r cwrs cyn y diwrnod hwnnw.

(3) Mae taliad o grant myfyriwr anabl yn ordaliad os yw'r naill neu'r llall o'r achosion a ganlyn yn gymwys—

*Achos 1*

Mae swm o'r grant wedi cael ei dalu at ddiben cynorthwyo gyda gwariant ar eitemau mawr o offer arbenigol ond nid yw'r offer wedi eu danfon at y myfyriwr cymwys cyn i gyfnod cymhwystra'r myfyriwr ddod i ben neu gael ei derfynu.

*Achos 2*

Mae swm o'r grant at ddiben cynorthwyo gyda gwariant ar eitemau mawr o offer arbenigol yn cael ei dalu ar ôl i gyfnod cymhwystra'r myfyriwr cymwys ddod i ben neu gael ei derfynu.

(4) Caniateir adennill gordaliad o grant drwy ddidynnu'r gordaliad o unrhyw grant sy'n daladwy i'r myfyriwr cymwys o bryd i'w gilydd o dan y Rheoliadau hyn neu unrhyw reoliadau eraill a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 22 o Ddeddf 1998.

(5) Pan—

(a) bo gordaliad o grant myfyriwr anabl, a

(b) bo unrhyw swm o'r grant wedi ei dalu at ddiben cynorthwyo gyda gwariant ar eitemau mawr o offer arbenigol,

caiff Gweinidogion Cymru dderbyn offer arbenigol yn ôl fel modd i adennill y cyfan neu ran o'r gordaliad.

(6) Nid yw paragraffau (4) a (5) yn rhwystro Gweinidogion Cymru rhag adennill gordaliad drwy unrhyw ddull arall sydd ar gael iddynt.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I90** Rhl. 90 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Adennill benthyciadau cynhaliaeth sydd wedi cael eu gordalu**

**[**[F67]**91.** Pan fo benthyciad cynhaliaeth wedi cael ei ordalu caiff Gweinidogion Cymru adennill y gordaliad—

(a) drwy ddidynnu'r gordaliad o unrhyw fenthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr cymwys o bryd i'w gilydd o dan y Rheoliadau hyn neu unrhyw reoliadau eraill a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 22 o Ddeddf 1998;

(b) drwy ei gwneud yn ofynnol i'r myfyriwr cymwys ad-dalu'r gordaliad yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998;

(c) drwy unrhyw ddull arall sydd ar gael iddynt.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F67** Rhl. 91 wedi ei amnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(2) o'r O.S. diwygio) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/708), **rhl. 10**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I91** Rhl. 91 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 14

## CYFYNGIADAU AR DALIADAU A'R SYMIAU SY'N DALADWY

## PENNOD 1

## CYFYNGIADAU SY'N YMWNEUD Â BENTHYCIADAU CYNHALIEATH A GRANTIAU

**Gofyniad i'r taliad gael ei wneud i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu**

**92.**—(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn meddwl ei bod yn briodol gwneud taliadau o fenthyciad cynhaliaeth neu grant drwy drosglwyddo'r taliadau i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu, cânt ei gwneud yn ofynnol i fyfyriwr cymwys ddarparu manylion unrhyw gyfrif o'r fath yn y Deyrnas Unedig y caniateir i daliadau gael eu gwneud iddo.

(2) Os yw'r amod hwnnw wedi ei osod, ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw daliad o'r benthyciad neu'r grant hyd nes bod y myfyriwr cymwys wedi cydymffurfio.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I92** Rhl. 92 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Cymorth wedi ei ostwng am gyfnodau a dreulir yn y carchar**

**93.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i fyfyriwr cymwys—

(a) y mae grant (ac eithrio grant myfyriwr anabl) neu fenthyciad cynhaliaeth yn daladwy iddo mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd, a

(b) sy'n dod yn garcharor yn ystod y flwyddyn academaidd.

**[**[F68](2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, mae swm y benthyciad cynhaliaeth neu'r grant sy'n daladwy wedi ei ostwng yn ôl nifer y diwrnodau yn ystod y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr cymwys yn garcharor.**]**

(3) Ond caiff Gweinidogion Cymru benderfynu nad yw'r gostyngiad i'w wneud os ydynt yn meddwl ei bod yn briodol o dan yr amgylchiadau, gan roi sylw penodol i—

(a) y caledi ariannol a all gael ei achosi i'r myfyriwr drwy ostwng swm y benthyciad neu'r grant sy'n daladwy;

(b) pa un a fyddai'r gostyngiad yn effeithio ar allu'r myfyriwr i barhau â'r cwrs presennol.

**Diwygiadau Testunol**

**F68** Rhl. 93(2) wedi ei amnewid (1.8.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2018 (O.S. 2018/813), rhlau. 1(2), **8**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I93** Rhl. 93 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Cymorth wedi ei ostwng am gyfnodau eraill o absenoldeb**

**94.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i fyfyriwr cymwys—

(a) y mae grant (ac eithrio grant myfyriwr anabl) neu fenthyciad cynhaliaeth yn daladwy iddo mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd, a

(b) sy'n peidio ag ymgymryd â'r cwrs presennol am unrhyw gyfnod yn ystod y flwyddyn academaidd (y cyfeirir ato yn y rheoliad hwn fel bod yn absennol).

**[**[F69](2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, mae swm y benthyciad cynhaliaeth neu'r grant wedi ei ostwng yn ôl nifer y diwrnodau yn ystod y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr cymwys yn absennol o'i gwrs.**]**

(3) Ond caiff Gweinidogion Cymru benderfynu nad yw'r gostyngiad i'w wneud os ydynt yn meddwl ei bod yn briodol o dan yr amgylchiadau, gan roi sylw penodol i—

(a) y rhesymau dros absenoldeb y myfyriwr cymwys,

(b) hyd yr absenoldeb, ac

(c) unrhyw galedi ariannol a all gael ei achosi drwy ostwng swm y benthyciad neu'r grant sy'n daladwy.

(4) Nid yw myfyriwr cymwys i'w drin fel pe bai'n absennol at ddibenion y rheoliad hwn o dan yr amgylchiadau a ganlyn—

(a) pan fo'r absenoldeb oherwydd salwch ac am gyfnod nad yw'n hwy na 60 diwrnod;

(b) pan fo'r cwrs presennol yn gwrs gradd cywasgedig, unrhyw ran o'r flwyddyn academaidd pan nad yw'n ofynnol i'r myfyriwr fod yn bresennol yn y sefydliad;

(c) pan fo gan y myfyriwr anabledd ond na fo'n gallu bod yn bresennol yn y sefydliad am reswm sy'n ymwneud â'r anabledd hwnnw;

(d) pan fo'r myfyriwr ar gyfnod astudio neu ar gyfnod lleoliad gwaith yn ystod blwyddyn Erasmus;

(e) pan fo'r absenoldeb am fod y myfyriwr cymwys yn dod yn garcharor (gweler rheoliad 93).

**Diwygiadau Testunol**

**F69** Rhl. 94(2) wedi ei amnewid (1.8.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2018 (O.S. 2018/813), rhlau. 1(2), **9**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I94** Rhl. 94 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Taliadau pan fo'r cyfnod cymhwystra yn dod i ben neu'n cael ei derfynu**

**95.—[**[F70](1) Pan fo cyfnod cymhwystra myfyriwr cymwys wedi dod i ben neu wedi cael ei derfynu, mae unrhyw swm o'r benthyciad cynhaliaeth neu'r grant sy'n daladwy mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd wedi ei ostwng yn ôl nifer y diwrnodau yn y flwyddyn academaidd pan fo cymhwystra wedi dod i ben neu wedi cael ei derfynu.**]**

(2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw daliad o swm y benthyciad cynhaliaeth neu'r grant mewn cysylltiad ag unrhyw gyfnod talu sy'n dechrau ar ôl i gyfnod cymhwystra myfyriwr cymwys ddod i ben neu gael ei derfynu.

(3) Mae paragraffau (4) i (8) yn gymwys pan fo—

(a) swm o grant yn daladwy i fyfyriwr cymwys ("P") mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd, a

(b) cyfnod cymhwystra P yn dod i ben neu'n cael ei derfynu ar neu ar ôl y diwrnod y mae'r cwrs yn dechrau arno mewn cysylltiad â'r flwyddyn honno.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu—

(a) swm y grant a fyddai, pe na bai cymhwystra P wedi dod i ben nac wedi cael ei derfynu, yn daladwy i P mewn cysylltiad â'r cyfnod talu pan ddaeth cyfnod cymhwystra P i ben neu pan gafodd ei derfynu (y "swm llawn"), a

(b) cyfran y swm llawn a fyddai'n daladwy i P mewn cysylltiad â'r cyfnod sy'n dechrau ar ddechrau'r cyfnod talu hwnnw ac sy'n gorffen pan ddaeth cymhwystra P i ben neu pan gafodd ei derfynu (y "swm rhannol").

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd y camau a grybwyllir ym mharagraff (6)—

(a) pan fônt wedi gwneud taliad i P o swm o grant mewn cysylltiad â'r cyfnod talu pan ddaeth cyfnod cymhwystra P i ben neu pan gafodd ei derfynu,

(b) pan fo'r taliad wedi ei wneud cyn i gyfnod cymhwystra P ddod i ben neu gael ei derfynu, ac

(c) pan fo'r swm a delir yn fwy na'r swm rhannol.

(6) Nod y camau y cyfeirir atynt ym mharagraff (5) yw naill ai—

(a) gostwng swm y grant sy'n daladwy i P yn ôl y swm dros ben y cyfeirir ato ym mharagraff (5)(c) (ac yn unol â hynny, trin y swm dros ben fel gordaliad), neu

(b) os yw Gweinidogion Cymru yn meddwl ei bod yn briodol, estyn cyfnod cymhwystra P mewn cysylltiad â'r grant hyd ddiwedd y cyfnod talu (ac yn unol â hynny, mae'r swm llawn yn daladwy).

(7) Pan—

(a) bo Gweinidogion Cymru wedi gwneud taliad i P, neu y maent i fod i wneud taliad iddo, o swm o grant mewn cysylltiad â'r cyfnod talu pan ddaeth cyfnod cymhwystra P i ben neu pan gafodd ei derfynu, a

(b) bo'r taliad—

(i) wedi ei wneud neu i fod i gael ei wneud ar ôl i gyfnod cymhwystra P ddod i ben neu gael ei derfynu, neu

(ii) wedi ei wneud cyn hynny ac nad yw'n fwy na'r swm rhannol,

swm y grant sy'n daladwy yw'r swm rhannol oni bai bod paragraff (8) yn gymwys.

(8) O dan yr amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (7), o ran Gweinidogion Cymru—

(a) cânt benderfynu bod cyfnod cymhwystra P yn cael ei estyn i ddiwedd y cyfnod talu o dan sylw (ac yn unol â hynny, mae swm llawn y grant yn daladwy) os ydynt yn meddwl ei bod yn briodol gwneud hynny, a

(b) rhaid iddynt benderfynu felly os yw swm y grant o dan sylw yn swm grant myfyriwr anabl a delir mewn cysylltiad â gwariant ar eitemau mawr o offer arbenigol.

(9) Yn y rheoliad hwn, ystyr "cyfnod talu" yw cyfnod (pa un a yw'n flwyddyn academaidd gyfan neu chwarter o flwyddyn academaidd) y mae benthyciad cynhaliaeth neu grant yn daladwy, neu y byddai'n daladwy, mewn cysylltiad ag ef oni bai am y ffaith bod cyfnod cymhwystra'r myfyriwr cymwys wedi dod i ben neu wedi cael ei derfynu.

**Diwygiadau Testunol**

**F70** Rhl. 95(1) wedi ei amnewid (1.8.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2018 (O.S. 2018/813), rhlau. 1(2), **10**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I95** Rhl. 95 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

PENNOD 2

CYFYNGIADAU SY'N YMWNEUD Â BETHYCIADAU

**Gofyniad i ddarparu rhif yswiriant gwladol**

**96.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn un o amodau hawlogaeth i gael taliad o fenthyciad at ffioedd dysgu neu fenthyciad cynhaliaeth fod yn rhaid i fyfyriwr cymwys ddarparu iddynt ei rif yswiriant gwladol yn y Deyrnas Unedig.

(2) Os yw'r amod hwnnw wedi ei osod, ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw daliad o'r benthyciad hyd nes bod y myfyriwr cymwys wedi cydymffurfio ag ef, oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni, oherwydd amgylchiadau eithriadol, y byddai'n briodol gwneud taliad er na chydymffurfiwyd â'r amod.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I96** Rhl. 96 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Gofynion gwybodaeth sy'n ymwneud â benthyciadau**

**97.**—(1) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi ei gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth neu ddogfennaeth o dan reoliad 35(1) at unrhyw un neu ragor o'r dibenion a grybwyllir ym mharagraff (2) o'r rheoliad hwn, cânt gadw yn ôl unrhyw daliad o fenthyciad at ffioedd dysgu neu fenthyciad cynhaliaeth hyd nes bod y myfyriwr yn cydymffurfio â'r gofyniad neu'n darparu esboniad boddhaol dros beidio â gwneud hynny.

(2) Y dibenion yw—

(a) penderfynu a yw'r myfyriwr yn fyfyriwr cymwys sy'n cymhwyso i gael benthyciad;

(b) penderfynu ar swm y benthyciad sy'n daladwy i'r myfyriwr;

(c) unrhyw fater sy'n ymwneud ag ad-dalu benthyciad gan y myfyriwr.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I97** Rhl. 97 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 15

## GRANT MYFYRIWR ÔL-RADDEDIG ANABL

**98.** Mae Atodlen 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch grant myfyriwr ôl-raddedig anabl.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I98** Rhl. 98 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 16

## BENTHYCIADAU AT FFIOEDD COLEGAU OXBRIDGE

**99.** Mae Atodlen 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch benthyciadau at ffioedd colegau Oxbridge.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I99** Rhl. 99 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 17

## DIWYGIO RHEOLIADAU ADDYSG (CYMORTH I FYFYRWYR) (CYMRU) 2017

**100.** Mae Atodlen 6 yn cynnwys diwygiadau i Reoliadau 2017.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I100** Rhl. 100 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

*Kirsty Williams*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru

14 Chwefror 2018

# YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

Rheoliad 4(1)

Dehongli

**Ystyr blwyddyn academaidd**

**1.**—(1) Penderfynir ar "blwyddyn academaidd", mewn cysylltiad â chwrs, fel a ganlyn—

(a) nodi'r cyfnod yng Ngholofn 2 o Dabl 14 y mae'r flwyddyn academaidd yn dechrau ynddo mewn gwirionedd;

(b) y flwyddyn academaidd yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar y dyddiad a bennir yn y cofnod yng Ngholofn 1 o'r Tabl sy'n cyfateb i'r cyfnod a nodir yng Ngholofn 2.

(2) Ond os yw'r cwrs yn gwrs blwyddyn gyntaf gywasgedig, ystyr "blwyddyn academaidd", mewn cysylltiad â blwyddyn gyntaf y cwrs, yw'r cyfnod o 8 mis sy'n dechrau ar y dyddiad a bennir felly.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at "blwyddyn academaidd" yn gyfeiriad at flwyddyn y penderfynir arni yn unol ag is-baragraffau (1) a (2).

**Tabl 14**

| *Colofn 1*<br><br>*Dyddiad dechrau'r flwyddyn academaidd at ddibenion y Rheoliadau hyn* | *Colofn 2*<br><br>*Y cyfnod y mae blwyddyn academaidd yn dechrau ynddo* |
|---|---|
| 1 Medi | Ar neu ar ôl 1 Awst ond cyn 1 Ionawr |
| 1 Ionawr | Ar neu ar ôl 1 Ionawr ond cyn 1 Ebrill |
| 1 Ebrill | Ar neu ar ôl 1 Ebrill ond cyn 1 Gorffennaf |
| 1 Gorffennaf | Ar neu ar ôl 1 Gorffennaf ond cyn 1 Awst |

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I101** Atod. 1 para. 1 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

[[F71]**Sefydliadau addysgol**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "sefydliad addysgol cydnabyddedig" yw—

(a) mewn perthynas â chwrs llawnamser sy'n dechrau cyn 1 Awst 2019—

(i) sefydliad rheoleiddiedig Cymreig;

(ii) darparwr Seisnig gwarchodedig;

(iii) sefydliad a gyllidir gan yr Alban; neu

(iv) sefydliad a gyllidir gan Ogledd Iwerddon;

(b) mewn perthynas â chwrs rhan-amser sy'n dechrau cyn 1 Awst 2019, sefydliad a gyllidir yn gyhoeddus;

(c) mewn perthynas â chwrs llawnamser sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2019—

(i) sefydliad rheoleiddiedig Cymreig;

(ii) sefydliad rheoleiddiedig Seisnig;

(iii) sefydliad a gyllidir gan yr Alban;

(iv) sefydliad a gyllidir gan Ogledd Iwerddon;

(d) mewn perthynas â chwrs rhan-amser sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2019—

(i) sefydliad a gyllidir gan Gymru;

(ii) sefydliad rheoleiddiedig Seisnig;

(iii) sefydliad a gyllidir gan yr Alban;

(iv) sefydliad a gyllidir gan Ogledd Iwerddon.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F71** Atod. 1 para. 2 wedi ei amnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(3)(b) of the amending S.I.) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/235), rhlau. 1(3)(a), **54**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I102** Atod. 1 para. 2 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**[**[F72]**2A.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "sefydliad a gyllidir gan Gymru" yw sefydliad a gynhelir neu a gynorthwyir gan grantiau rheolaidd o gronfeydd a ddarperir gan Weinidogion Cymru;

(b) ystyr "sefydliad rheoleiddiedig Cymreig" yw sefydliad sydd â chynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o dan adran 7 o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 tra bo'r cynllun hwnnw yn parhau mewn grym;

(c) ystyr "darparwr Seisnig gwarchodedig" yw sefydliad a oedd, ar neu ar ôl 1 Awst 2018 ond cyn 1 Awst 2019, yn cael ei gynnal neu ei gynorthwyo gan grantiau rheolaidd yn unol ag adran 65 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ac eithrio sefydliad a gynhelir neu a gynorthwyir gan grantiau rheolaidd a wneir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;

(d) ystyr "sefydliad Seisnig cofrestredig" yw sefydliad sydd wedi ei gofrestru gan y Swyddfa Fyfyrwyr yn y gofrestr;

(e) ystyr "sefydliad rheoleiddiedig Seisnig" yw sefydliad Seisnig cofrestredig sy'n ddarostyngedig i amod terfyn ffioedd o dan adran 10 o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017;

(f) ystyr "darparwr cynllun Seisnig" yw sefydliad Seisnig cofrestredig sydd â chynllun mynediad a chyfranogiad a gymeradwywyd gan y Swyddfa Fyfyrwyr o dan adran 29 o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 ac sy'n parhau mewn grym;

(g) ystyr "sefydliad a gyllidir gan yr Alban" yw sefydliad a gynhelir neu a gynorthwyir gan grantiau rheolaidd o gronfeydd a ddarperir gan Weinidogion yr Alban;

(h) ystyr "sefydliad a gyllidir gan Ogledd Iwerddon" yw sefydliad a gynhelir neu a gynorthwyir gan grantiau rheolaidd o gronfeydd a ddarperir gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon.

(2) Yn is-baragraff (1) mae cyfeiriad at y gofrestr yn cyfeirio at y gofrestr a sefydlwyd ac a gynhelir gan y Swyddfa Fyfyrwyr o dan adran 3 o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F72** Atod. 1 para. 2A wedi ei fewnosod (gyda chais yn unol â rhl. 1(3)(b) of the amending S.I.) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/235), rhlau. 1(3)(a), **55**

### Lleoliad myfyriwr cymwys

**3.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn, mewn perthynas â myfyriwr cymwys—

(a) ystyr "byw gartref" yw bod y myfyriwr yn byw yng nghartref rhiant y myfyriwr wrth iddo ymgymryd â'r cwrs presennol;

(b) ystyr "byw oddi cartref, astudio yn Llundain" yw bod y myfyriwr yn byw i ffwrdd o gartref rhiant y myfyriwr tra bo'n—

(i) ymgymryd â chwrs ym Mhrifysgol Llundain,

(ii) ymgymryd â chwrs mewn sefydliad sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo fod yn bresennol yn y flwyddyn academaidd ar safle sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn Llundain pan fo o leiaf hanner o unrhyw chwarter o'r cwrs wedi ei ddarparu ar safle o'r fath, neu

(iii) ymgymryd â chwrs rhyngosod yn y flwyddyn academaidd mewn sefydliad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r myfyriwr wneud profiad gwaith, neu gyfuniad o brofiad gwaith ac astudio, yn Llundain pan fo'r profiad gwaith hwnnw, neu'r cyfuniad hwnnw o brofiad gwaith ac astudio, am o leiaf hanner o unrhyw chwarter;

(c) ystyr "byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall" yw bod y myfyriwr cymwys yn byw i ffwrdd o gartref rhiant y myfyriwr ond nid yw'n astudio yn Llundain, gan gynnwys bod yn bresennol mewn sefydliad y tu allan i'r Deyrnas Unedig fel rhan o gwrs y myfyriwr neu ar leoliad gwaith tramor yn ystod blwyddyn Erasmus.

(2) At ddibenion is-baragraff (1), ystyr "Llundain" yw ardal Dinas Llundain a chyn-Ddosbarth yr Heddlu Metropolitanaidd.

(3) Yn is-baragraff (2), ystyr "cyn-Ddosbarth yr Heddlu Metropolitanaidd" yw—

(a) Llundain Fwyaf, ac eithrio dinas Llundain, y Deml Fewnol a'r Deml Ganol,

(b) yn swydd Essex, yn nosbarth Epping Forest—

(i) ardal cyn-ddosbarth trefol Chigwell, a

(ii) plwyf Waltham Abbey,

(c) yn swydd Hertford—

(i) ym mwrdeistref Broxbourne, ardal cyn-ddosbarth trefol Cheshunt,

(ii) dosbarth Hertsmere, a

(iii) yn nosbarth Welwyn Hatfield, plwyf Northaw, ac

(d) yn swydd Surrey—

(i) ym mwrdeistref Elmbridge, ardal cyn-ddosbarth trefol Esher,

(ii) bwrdeistrefi Epsom ac Ewell a Spelthorne, a

(iii) yn nosbarth Reigate a Banstead, ardal cyn-ddosbarth trefol Banstead.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I103** Atod. 1 para. 3 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Ystyr blwyddyn Erasmus

**4.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn, mae "blwyddyn Erasmus" yn flwyddyn academaidd [[F73], pa un a ddechreuodd y flwyddyn academaidd honno cyn y diwrnod ymadael ai peidio,] pan fydd myfyriwr—

(a) yn cymryd rhan yn y cynllun ERASMUS fel rhan o gwrs a ddarperir yn gyfan gwbl gan sefydliad addysgol cydnabyddedig, a

(b) yn bodloni amod A, B neu C yn is-baragraff (2).

(2) Yr amodau yw—

*Amod A*

(a) Darperir y cwrs gan sefydliad yng Ngogledd Iwerddon; a

(b) mae'r myfyriwr yn cwblhau pob cyfnod astudio neu leoliad gwaith o dan y cynllun y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

*Amod B*

(a) Darperir y cwrs gan sefydliad yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban,

(b) mae o leiaf un cyfnod astudio neu leoliad gwaith o dan y cynllun wedi ei gwblhau mewn sefydliad neu weithle y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn ystod y flwyddyn academaidd, ac

(c) [[F74]yn ddarostyngedig i baragraff (d)] yn ystod y flwyddyn academaidd honno, mae cyfnod cyfanredol unrhyw un neu ragor o gyfnodau astudio llawnamser yn y sefydliad yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban yn llai na 10 wythnos [[F75],]

[[F76](d) mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd sy'n dechrau cyn 1 Awst 2019, ni fydd unrhyw un neu ragor o gyfnodau o astudio llawnamser yn y sefydliad yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban ar ôl y diwrnod ymadael yn cael eu cyfrif at ddibenion paragraff (c).]

*Amod C*

(a) Darperir y cwrs gan sefydliad yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban,

(b) mae o leiaf un cyfnod astudio neu leoliad gwaith o dan y cynllun wedi ei gwblhau mewn sefydliad neu weithle y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn ystod y flwyddyn academaidd, ac

(c) yn ystod y flwyddyn academaidd honno ac unrhyw flynyddoedd academaidd blaenorol o'r cwrs, mae cyfnod cyfanredol unrhyw un neu ragor o gyfnodau a dreulir yn ei gwblhau (nad ydynt yn gyfnodau astudio llawnamser yn y sefydliad yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban), gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, yn fwy na 30 wythnos.

(3) Yn is-baragraff (1), ystyr "cynllun ERASMUS" yw cynllun gweithredu'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer symudedd myfyrwyr prifysgol(**38**).

**Diwygiadau Testunol**

**F73** Geiriau yn Atod. 1 para. 4(1) wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/424), rhlau. 1(2), **25(a)**; 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)

(**38**) Mae ERASMUS yn rhan o SOCRATES, rhaglen weithredu'r Undeb Ewropeaidd; OJ Rhif L28, 3.2.2000, t.1.

**F74** Geiriau yn Atod. 1 para. 4(2)(c) wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/424), rhlau. 1(2), **25(b)(i)(aa)**; 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)

**F75** Gair yn Atod. 1 para. 4(2) wedi ei amnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/424), rhlau. 1(2), **25(b)(i)(bb)**; 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)

**F76** Atod. 1 para. 4(2)(d) wedi ei fewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/424), rhlau. 1(2), **25(b)(ii)**; 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I104** Atod. 1 para. 4 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Myfyrwyr rhan-amser – cyfrifo'r dwysedd astudio

**5.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at y dwysedd astudio mewn perthynas â chwrs rhan-amser yn gyfeiriad at ba un bynnag yw'r lleiaf o—

(a) y ganran a gyfrifir yn unol ag is-baragraff (2), neu

(b) 75%.

(2) Caiff y ganran ei chyfrifo fel a ganlyn—

$$\frac{RhA}{LlA} \times 100$$

Pan fo—

RhA yn dynodi nifer y modiwlau, credydau, pwyntiau credyd, pwyntiau neu unedau eraill sydd i'w dyfarnu i'r myfyriwr sy'n ymgymryd â chwrs rhan-amser gan yr awdurdod academaidd os yw'r myfyriwr yn cwblhau'n llwyddiannus y flwyddyn academaidd y mae'n gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi, a

LlA yn dynodi—

(a) pan fo'r cwrs wedi ei ddarparu gan neu ar ran y Brifysgol Agored, 120;

(b) pan fo'r cwrs wedi ei ddarparu gan neu ar ran unrhyw sefydliad arall, nifer y modiwlau, credydau, pwyntiau credyd, pwyntiau neu unedau eraill y byddai'n ofynnol i fyfyriwr llawnamser safonol eu hennill ym mhob blwyddyn academaidd er mwyn iddo gwblhau'r cwrs llawnamser cyfatebol o fewn y cyfnod sy'n ofynnol fel arfer i gwblhau'r cwrs hwnnw.

(3) At ddibenion is-baragraff (2)—

(a) ystyr "cwrs llawnamser cyfatebol" yw cwrs llawnamser sy'n arwain at yr un cymhwyster â'r cwrs rhan-amser o dan sylw;

(b) ystyr y "cyfnod sy'n ofynnol fel arfer i gwblhau'r cwrs llawnamser cyfatebol" yw'r cyfnod y byddai myfyriwr llawnamser safonol yn cwblhau'r cwrs llawnamser cyfatebol ynddo;

(c) ystyr "myfyriwr llawnamser safonol" yw myfyriwr sy'n cael ei ystyried yn un—

(i) sydd wedi dechrau ar y cwrs llawnamser cyfatebol ar yr un dyddiad â'r myfyriwr sy'n ymgymryd â'r cwrs rhan-amser o dan sylw,

(ii) nad yw wedi cael ei esgusodi rhag dilyn unrhyw ran o'r cwrs llawnamser cyfatebol,

(iii) nad yw wedi ailadrodd unrhyw ran o'r cwrs llawnamser cyfatebol; a

(iv) nad yw wedi bod yn absennol o'r cwrs llawnamser cyfatebol ac eithrio yn ystod gwyliau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I105** Atod. 1 para. 5 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Dehongli termau allweddol eraill

**6.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "aelod o'r lluoedd arfog" ("*member of the armed forces*") yw aelod o lynges, byddin neu lu awyr rheolaidd y Goron;

ystyr "athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig" ("*qualified teacher*") yw person sy'n bodloni gofynion a bennir mewn rheoliadau o dan adran 132 o Ddeddf Addysg 2002(**39**);

ystyr "awdurdod academaidd" ("*academic authority*"), mewn perthynas â sefydliad, yw'r corff llywodraethu neu gorff arall a chanddo swyddogaethau corff llywodraethu ac mae'n cynnwys person sy'n gweithredu gydag awdurdod y corff hwnnw;

ystyr "carcharor" ("*prisoner*") yw person sy'n bwrw dedfryd mewn carchar yn y Deyrnas Unedig gan gynnwys person sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn sefydliad troseddwyr ifanc (ac mae "carchar" i'w ddehongli yn unol â hynny);

**[**[F77]ystyr "coronafeirws" ("*coronavirus*") yw coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2);**]**

mae "cwrs ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon" ("*course for the initial training of teachers*") yn cynnwys cwrs hyfforddiant athrawon sy'n arwain at radd gyntaf ond nid yw'n cynnwys cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth (o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 7(2));

ystyr "cwrs blwyddyn gyntaf gywasgedig" ("*compressed first year course*") yw cwrs—

(a) pan fo'r flwyddyn gyntaf i'w chwblhau mewn cyfnod o ddim mwy na saith mis, a

(b) pan nad ymgymerir ag unrhyw flynyddoedd eraill y cwrs ar sail gywasgedig o'r fath;

ystyr "cwrs dysgu o bell" ("*distance learning course*") yw cwrs nad yw'r sefydliad sy'n darparu'r cwrs yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyriwr sy'n ymgymryd â'r cwrs fod yn bresennol mewn perthynas ag ef, ac eithrio i fodloni unrhyw ofyniad a osodir gan y sefydliad i fod yn bresennol mewn unrhyw sefydliad—

(a) at ddibenion cofrestru, ymrestru neu arholiadau; neu

(b) ar benwythnos neu yn ystod gwyliau;

ystyr "cwrs gradd cywasgedig" ("*compressed degree course*") yw cwrs a benderfynir felly gan—

(a) Gweinidogion Cymru yn unol ag is-baragraff (2), neu

(b) yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â rheoliad 2(2) o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) 2011(**40**);

ystyr "cwrs mynediad graddedig carlam" ("*accelerated graduate entry course*") yw cwrs llawnamser—

(a) sy'n arwain at gymhwyso'n feddyg neu'n ddeintydd,

---

(**39**) 2002 p. 32; y rheoliadau yw Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999, O.S. 1999/2817, Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Lloegr) 2003, O.S. 2003/1662, Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012, O.S. 2012/724 a Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Cymru) 2017, O.S. 2017/165.

(**40**) O.S. 2011/1986, a ddiwygiwyd gan O.S. 2012/1653, O.S. 2013/235, O.S. 2013/630, O.S. 2013/1728, O.S. 2013/3106, O.S. 2014/1766, O.S. 2014/2103, O.S. 2014/2765, O.S. 2015/1951, O.S. 2016/211, O.S. 2016/270, O.S. 2016/584, O.S. 2017/52, O.S. 2017/114 ac O.S. 2017/204.

(b) nad yw ei safon yn uwch na safon cwrs gradd gyntaf,

(c) pan gradd gyntaf neu gymhwyster cyfatebol yw'r gofyniad mynediad arferol, a

(d) nad yw'n para'n hwy na 4 blynedd;

ystyr "cwrs penben" ("*end on course*") yw—

(a) cwrs gradd gyntaf llawnamser (ac eithrio cwrs gradd gyntaf ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon) sydd, gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, yn gwrs y mae myfyriwr yn ymgymryd ag ef yn union ar ôl peidio ag ymgymryd â chwrs addysg llawnamser perthnasol,

(b) cwrs gradd anrhydedd llawnamser sydd, gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, yn gwrs y mae myfyriwr yn ymgymryd ag ef yn union ar ôl peidio ag ymgymryd â chwrs gradd llawnamser perthnasol,

(c) cwrs gradd gyntaf rhan-amser (ac eithrio cwrs gradd gyntaf ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon) sydd, gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, yn gwrs y mae myfyriwr yn ymgymryd ag ef yn union ar ôl peidio ag ymgymryd â chwrs addysg rhan-amser perthnasol, neu

(d) cwrs gradd anrhydedd rhan-amser sydd, gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, yn gwrs y mae myfyriwr yn ymgymryd ag ef yn union ar ôl peidio ag ymgymryd â chwrs gradd rhan-amser perthnasol;

ac yn y diffiniad hwn—

"ystyr "cwrs addysg perthnasol" ("*relevant education course*") yw—

(a) cwrs ar gyfer y diploma addysg uwch,

(b) cwrs ar gyfer Diploma Cenedlaethol Uwch neu Dystysgrif Genedlaethol Uwch y canlynol—

(i) y Cyngor Addysg Busnes a Thechnoleg, neu

(ii) Awdurdod Cymwysterau'r Alban, neu

(c) cwrs ar gyfer y Dystysgrif Addysg Uwch,

y cafodd y myfyriwr gymorth ar ei gyfer neu yr oedd gan y myfyriwr hawlogaeth i gael cymorth ar ei gyfer o dan y Rheoliadau hyn;

ystyr "cwrs gradd perthnasol" ("*relevant degree course*") yw—

(a) cwrs gradd sylfaen, neu

(b) cwrs gradd arferol,

y cafodd y myfyriwr gymorth ar ei gyfer neu yr oedd gan y myfyriwr hawlogaeth i gael cymorth ar ei gyfer o dan y Rheoliadau hyn;"

ystyr "cwrs presennol" ("*present course*") yw'r cwrs dynodedig y mae person yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad ag ef o dan reoliad 32;

ystyr "cwrs rhyngosod" ("*sandwich course*") yw cwrs—

(a) sydd â chyfnodau o astudio llawnamser mewn sefydliad am yn ail â chyfnodau o brofiad gwaith; a

(b) pan fo'r myfyriwr, gan gymryd y cwrs yn ei gyfanrwydd, yn bresennol ar y cyfnodau o astudio llawnamser yn y sefydliad am ddim llai na 18 wythnos ym mhob blwyddyn ar gyfartaledd (a phan fo diwrnodau astudio llawnamser am yn ail â diwrnodau profiad gwaith mewn unrhyw wythnos, caniateir cyfrifo swm gyfanredol y diwrnodau astudio hynny gyda'i gilydd a chydag unrhyw wythnosau llawn o astudio llawnamser wrth benderfynu ar nifer yr wythnosau o astudio llawnamser mewn blwyddyn);

at ddibenion paragraff (b), mae'r cwrs i'w drin fel pe bai'n dechrau â'r cyfnod cyntaf o astudio llawnamser ac yn dod i ben â'r cyfnod olaf o'r fath;

ond nid yw cwrs ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon yn gwrs rhyngosod;

yn yr un modd, nid yw blwyddyn academaidd o gwrs dynodedig sy'n flwyddyn Erasmus i'w thrin fel cwrs rhyngosod;

ystyr "cyfnod o brofiad gwaith" ("*period of work experience*") yw—

(c) cyfnod o brofiad diwydiannol, proffesiynol neu fasnachol sy'n gysylltiedig ag astudio llawnamser mewn sefydliad ond mewn man y tu allan i'r sefydliad hwnnw;

(d) cyfnod y mae myfyriwr wedi ei gyflogi ynddo ac yn preswylio mewn gwlad y mae'r myfyriwr yn astudio ei hiaith ar gyfer ei gwrs presennol (ar yr amod bod y cyfnod preswylio yn y wlad honno yn un o ofynion cwrs y myfyriwr a bod astudio un neu ragor o ieithoedd modern yn cyfrif am ddim llai nag un hanner o gyfanswm yr amser a dreulir yn astudio'r cwrs);

ystyr "Cyngor Ymchwil" ("*Research Council*") yw unrhyw un o'r cynghorau ymchwil a ganlyn—

(a) Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau;

(b) Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a'r Gwyddorau Biolegol;

(c) Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol;

(d) Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol;

(e) Y Cyngor Ymchwil Feddygol;

(f) Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol;

(g) Y Cyngor Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg;

ystyr "cymorth" ("*support*"), ac eithrio pan nodir fel arall, yw cymorth ariannol ar ffurf grant neu fenthyciad a wneir gan Weinidogion Cymru o dan—

(a) y Rheoliadau hyn, neu

(b) unrhyw reoliadau eraill a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998;

ystyr "chwarter" ("*quarter*") yw cyfnod o'r flwyddyn academaidd—

(a) sy'n dechrau ar 1 Medi ac sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr;

(b) sy'n dechrau ar 1 Ionawr ac sy'n dod i ben ar 31 Mawrth;

(c) sy'n dechrau ar 1 Ebrill ac sy'n dod i ben ar 30 Mehefin;

(d) sy'n dechrau ar 1 Gorffennaf ac sy'n dod i ben ar 31 Awst;

ystyr "dyfarndal statudol" ("*statutory award*") yw unrhyw ddyfarndal a roddir, unrhyw grant a delir, neu unrhyw gymorth arall a ddarperir, yn rhinwedd Deddf 1998 neu Ddeddf Addysg 1962, neu unrhyw ddyfarndal, grant, neu gymorth arall cyffelyb, mewn cysylltiad ag ymgymryd â chwrs sy'n cael ei dalu o gronfeydd a ddarperir gan sefydliad a gyllidir yn gyhoeddus;

mae i "ffioedd" ("*fees*") yr ystyr a roddir yn adran 57(1) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015(**41**) ond nid yw'r diffiniad hwn yn gymwys i ffioedd colegau Oxbridge (gweler Atodlen 5).

ystyr "perthynas agos" ("*close relative*") (mewn perthynas â pherson ("P")) yw—

(a) priod neu bartner sifil P;

(b) person sy'n byw fel arfer gyda P fel pe bai'r person yn briod neu'n bartner sifil i P;

(**41**) 2015 dccc 1.

(c) rhiant P, pan fo P o dan 25 oed;

(d) **[**[F78]plentyn P, pan fo P yn ddibynnol ar y plentyn hwnnw;**]**

ystyr "sefydliad a gyllidir yn gyhoeddus" ("*publicly funded institution*") yw sefydliad yn y Deyrnas Unedig a gynhelir neu a gynorthwyir gan grantiau rheolaidd o gronfeydd a ddarperir gan—

(a) Senedd y Deyrnas Unedig;

(b) Gweinidogion Cymru;

(c) Gweinidogion yr Alban;

(d) Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon;

neu o gronfeydd y gellir eu priodoli i gronfeydd o'r fath.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu bod cwrs yn gwrs gradd cywasgedig os yw'r cwrs—

(a) yn gwrs dynodedig llawnamser ar gyfer gradd gyntaf (ac eithrio gradd sylfaen), a

(b) yn para am ddwy flynedd academaidd.

**Diwygiadau Testunol**

**F77** Geiriau yn Atod. 1 para. 6(1) wedi eu mewnosod (gyda chais yn unol â rhl. 1(2) o'r O.S. diwygio) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/708), **rhl. 11**

**F78** Geiriau yn Atod. 1 para. 6(1) wedi eu mewnosod (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **15**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I106** Atod. 1 para. 6 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

## ATODLEN 2

Rheoliad 9(1)(a)

Categorïau o fyfyrwyr cymwys

### Categori 1 – Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig

**1.**—(1) Person—

(a) sydd ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs—

(i) wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac eithrio am y rheswm ei fod wedi ennill yr hawl i breswylio'n barhaol, a

(ii) yn preswylio fel arfer yng Nghymru,

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(c) na fu'n preswylio yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd, yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (b), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser (oni bai bod y person yn cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn unol â pharagraff 9(2)).

(2) Person—

**[**[F79](a) sydd naill ai—

(i) wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd ennill yr hawl i breswylio'n barhaol, neu

(ii) yn dod o fewn Erthygl 18(2) neu (3) o'r cytundeb ymadael â'r UE, Erthygl 17(2) neu (3) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE neu Erthygl 16(2) neu (3) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd, ond dim ond pan fyddai'r person hwnnw wedi ennill yr hawl i breswylio'n barhaol yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiad o dan Gyfarwyddeb 2004/38 fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu pe bai'r ffeithiau a oedd yn ymwneud â hawl y person hwnnw i breswylio yn dod i'w hystyried yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu;**]**

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) mewn achos pan oedd ei breswylio fel arfer, y cyfeirir ato yn is-baragraff (c), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r **[**[F80]Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr**]** AEE a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato yn is-baragraff (c).

**Diwygiadau Testunol**

**F79** Atod. 2 para. 1(2)(a) wedi ei amnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(2)(a)**

**F80** Geiriau yn Atod. 2 para. 1(2)(d) wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(2)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I107** Atod. 2 para. 1 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Categori 2 – Ffoaduriaid ac aelodau o'u teuluoedd

**2.**—(1) Person—

(a) sy'n ffoadur,

(b) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly ers i'r person gael ei gydnabod yn ffoadur, ac

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

(a) sy'n briod neu'n bartner sifil i ffoadur,

(b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur y cais am loches,

(c) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan gafodd ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig, a

(d) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

(a) sy'n blentyn i ffoadur neu'n blentyn i briod neu i bartner sifil ffoadur,

(b) ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur y cais am loches, a oedd yn blentyn i'r ffoadur neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur ar y dyddiad hwnnw,

(c) a oedd o dan 18 oed ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur y cais am loches,

(d) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan gafodd ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig, ac

(e) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I108** Atod. 2 para. 2 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**[F81Categori 2ZA - Personau a ddiogelir ac aelodau o'u teuluoedd**

**2ZA.**—(1) Person—

(a) y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir,

(b) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly ers i'r caniatâd hwnnw gael ei roi i'r person, ac

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

(a) sy'n briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir,

(b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, yn briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir, ac

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

(a) (i) sy'n blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir, neu'n blentyn i briod neu i bartner sifil person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir, a

(ii) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, yn blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir neu'n blentyn i berson a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, yn briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir,

(b) a oedd o dan 18 oed ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, ac

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(4) Yn y paragraff hwn—

(a) ystyr "dyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros" yw'r dyddiad y gwnaeth person gais am ganiatâd i ddod i mewn neu i aros yn y Deyrnas Unedig sy'n arwain at berson yn dod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir;

(b) ystyr "person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir" yw person a chanddo ganiatâd cyfredol i ddod i mewn neu i aros ar sail diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F81** Atod. 2 para. 2ZA wedi ei fewnosod (28.1.2021) gan Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/9), rhlau. 1(2), **45**

### [F82Categori 2A - Personau y rhoddwyd caniatâd iddynt aros fel personau diwladwriaeth ac aelodau o'u teuluoedd

**2A.**—**[**F83(1) Person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.**]**

(2) Person—

(a) (i) sy'n briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth; a

(ii) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth, **[**F84a**]**

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs**[**F85.**]**

F86(c) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(3) Person—

(a) (i) sy'n blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth neu'n blentyn i briod neu i bartner sifil person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth, a

(ii) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth neu'n blentyn i berson a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth,

(b) a oedd o dan 18 oed ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, **[**F87ac**]**

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs**[**F88.**]**

F89(d) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(4) Yn y paragraff hwn—

(a) ystyr "dyddiad y cais i gael caniatâd i aros" ("*leave application date*") yw'r dyddiad y gwnaeth person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth gais i aros yn y Deyrnas Unedig fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo,

(b) ystyr "person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth" ("*person granted stateless leave*") yw person—

(i) y mae ganddo ganiatâd cyfredol i aros fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo, a

(ii) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers i'r caniatâd hwnnw gael ei roi i'r person.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F82** Atod. 2 para. 2A wedi ei fewnosod (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **16(a)**

**F83** Atod. 2 para. 2A(1) wedi ei amnewid (28.1.2021) gan Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/9), rhlau. 1(2), **46(a)**

**F84** Gair yn Atod. 2 para. 2A(2)(a)(ii) wedi ei fewnosod (28.1.2021) gan Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/9), rhlau. 1(2), **46(b)**

**F85** Atod. 2 para. 2A(2)(b): atalnod llawn wedi ei amnewid ar gyfer gair (28.1.2021) gan Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/9), rhlau. 1(2), **46(c)**

**F86** Atod. 2 para. 2A(2)(c) wedi ei hepgor (28.1.2021) yn rhinwedd Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/9), rhlau. 1(2), **46(d)**

**F87** Gair yn Atod. 2 para. 2A(3)(b) wedi ei fewnosod (28.1.2021) gan Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/9), rhlau. 1(2), **46(e)**

**F88** Atod. 2 para. 2A(3)(c): atalnod llawn wedi ei amnewid ar gyfer gair (28.1.2021) gan Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/9), rhlau. 1(2), **46(f)**

**F89** Atod. 2 para. 2A(3)(d) wedi ei hepgor (28.1.2021) yn rhinwedd Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/9), rhlau. 1(2), **46(g)**

## Categori 3 – Personau sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ac aelodau o'u teuluoedd

**3.**—(1) Person—

(a) sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros,

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

(a) sy'n briod neu'n bartner sifil i berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros,

(b) **[**[F90]a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros,**]**

(i) y cais am loches, neu

(ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgresiwn, pan na wnaed cais am loches,

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

(a) sy'n blentyn i berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu sy'n blentyn i briod neu i bartner sifil person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros,

(b) **[**[F91]a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, o dan 18 oed ac yn blentyn i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad hwnnw,**]**

(i) y cais am loches, neu

(ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgresiwn, pan na wnaed cais am loches,

o dan 18 oed ac yn blentyn i'r person hwnnw neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad hwnnw,

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(4) Yn y paragraff hwn, ystyr "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros" yw person ("P")—

**[**F92(a) sydd—

(i) wedi gwneud cais am statws ffoadur ond sydd, o ganlyniad i'r cais hwnnw, wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, er yr ystyrir nad yw P yn cymhwyso i gael ei gydnabod yn ffoadur, y credir ei bod yn iawn caniatáu iddo ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi ar sail **[**F93caniatâd**]** yn ôl disgresiwn, ac y mae caniatâd wedi ei roi iddo i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny,

(ii) heb wneud cais am statws ffoadur ond sydd wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref y credir ei bod yn iawn caniatáu i P ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi ar sail caniatâd yn ôl disgresiwn, ac y mae caniatâd wedi ei roi iddo i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny,

**[**F94(iia) wedi cael caniatâd i aros ar sail bywyd teuluol o dan y rheolau mewnfudo;**]**

(iii) wedi cael caniatâd i aros ar sail bywyd preifat o dan y rheolau mewnfudo,

(iv) wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, er yr ystyrir nad yw P yn cymhwyso i gael caniatâd i aros ar sail bywyd preifat **[**F95neu deuluol**]** o dan y rheolau mewnfudo, fod P wedi cael caniatâd i aros y tu allan i'r rheolau ar sail Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol,**]**

(c) nad yw cyfnod ei ganiatâd i ddod i mewn neu i aros wedi dod i ben, neu y mae'r cyfnod hwnnw wedi ei adnewyddu ac nad yw'r cyfnod y cafodd ei adnewyddu ar ei gyfer wedi dod i ben, neu y mae apêl yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002) mewn cysylltiad â'i ganiatâd i ddod i mewn neu i aros, a

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers i P gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros.

**[**F96(5) Yn y paragraff hwn, ystyr "dyddiad y cais i gael caniatâd i aros" yw'r dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros y cais a arweiniodd at y person hwnnw yn cael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F90** Atod. 2 para. 3(2)(b) wedi ei amnewid (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **16(b)(i)**

**F91** Atod. 2 para. 3(3)(b) wedi ei amnewid (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **16(b)(ii)**

**F92** Atod. 2 para. 3(4)(a) wedi ei amnewid ar gyfer Atod. 2 para. 3(4)(a)(b) (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **16(b)(iii)**

**F93** Geiriau yn Atod. 2 para. 3(4)(a)(i) wedi rhodder (28.1.2021) yn rhinwedd Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/9), rhlau. 1(2), **47**

**F94** Atod. 2 para. 3(4)(iia) wedi ei fewnosod (9.9.2019) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau i Gymhwystra Myfyrwyr) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1192), rhlau. 1(2), **7(2)(a)**

**F95** Geiriau yn Atod. 2 para. 3(4)(a)(iv) wedi eu mewnosod (9.9.2019) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau i Gymhwystra Myfyrwyr) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1192), rhlau. 1(2), **7(2)(b)**

**F96** Atod. 2 para. 3(5) wedi ei fewnosod (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **16(b)(iv)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I109** Atod. 2 para. 3 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

## [F97 Categori 3A – Personau sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67

**3A.**—(1) Person—

(a) sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67, **[F98 a]**

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs**[F99 .]**

F100(c) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(2) Person—

(a) sy'n blentyn i berson sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67,

(b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, o dan 18 oed ac yn blentyn i'r person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67, **[F101 ac]**

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs**[F102 .]**

F103(d) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(3) Yn y paragraff hwn—

ystyr "dyddiad y cais i gael caniatâd i aros" ("*leave application date*") yw'r dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67 y cais a arweiniodd at y person hwnnw yn cael caniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig.

ystyr "person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67" ("*person with section 67 leave to remain*") yw person—

(a) y mae ganddo ganiatâd cyfredol i aros yn y Deyrnas Unedig o dan adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016 ac yn unol â'r rheolau mewnfudo, a

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers i'r caniatâd hwnnw gael ei roi i'r person.]

**Diwygiadau Testunol**

**F97** Atod. 2 para. 3A wedi ei fewnosod (gyda chais yn unol â rhl. 1(3)(b) of the amending S.I.) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/235), rhlau. 1(3)(a), **56**

**F98** Gair yn Atod. 2 para. 3A(1)(a) wedi ei fewnosod (28.1.2021) gan Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/9), rhlau. 1(2), **48(a)**

**F99** Atod. 2 para. 3A(1)(b): atalnod llawn wedi ei amnewid ar gyfer gair (28.1.2021) gan Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/9), rhlau. 1(2), **48(b)**

**F100** Atod. 2 para. 3A(1)(c) wedi ei hepgor (28.1.2021) yn rhinwedd Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/9), rhlau. 1(2), **48(c)**

**F101** Gair yn Atod. 2 para. 3A(2)(b) wedi ei fewnosod (28.1.2021) gan Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/9), rhlau. 1(2), **48(d)**

**F102** Atod. 2 para. 3A(2)(c): atalnod llawn wedi ei amnewid ar gyfer gair (28.1.2021) gan Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/9), rhlau. 1(2), **48(e)**

**F103** Atod. 2 para. 3A(2)(d) wedi ei hepgor (28.1.2021) yn rhinwedd Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/9), rhlau. 1(2), **48(f)**

### Categori 4 – Gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd

**4.**—(1) Person—

(a) sy'n un o'r canlynol—

(i) gweithiwr mudol AEE neu berson hunangyflogedig AEE, sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(ii) gweithiwr cyflogedig Swisaidd neu berson hunangyflogedig Swisaidd, sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(iii) aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (i) neu (ii), sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(iv) gweithiwr trawsffiniol AEE neu berson hunangyflogedig trawsffiniol AEE;

(v) person cyflogedig trawsffiniol Swisaidd neu berson hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd;

(vi) aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (iv) neu (v), a

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r **[**F104Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr**]** AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

(a) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r **[**F105Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr**]** AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac

(c) sydd â hawlogaeth i gael cymorth yn rhinwedd Erthygl 10 o Reoliad (EU) Rhif 492/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar symudiad rhydd ar gyfer gweithwyr yn yr Undeb, fel y'i hestynnir gan Gytundeb yr AEE(**42**).

**[**F106(2A) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan is-baragraff (2) yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.**]**

(**42**) OJ Rhif L141, 27.05.2011, t. 1.

(3) Yn is-baragraff (1)—

ystyr "aelod o deulu" ("*family member*") yw—

(a) mewn perthynas â gweithiwr trawsffiniol AEE, gweithiwr mudol AEE, person hunangyflogedig trawsffiniol AEE neu berson hunangyflogedig AEE—

(i) priod y person neu ei bartner sifil,

(ii) disgynyddion uniongyrchol y person neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y person sydd o dan 21 oed neu sy'n 21 oed neu drosodd ac sy'n ddibynyddion y person neu'n ddibynyddion priod neu bartner sifil y person, neu

(iii) perthnasau uniongyrchol dibynnol yn llinach esgynnol y person neu yn llinach esgynnol priod neu bartner sifil y person;

(b) mewn perthynas â pherson cyflogedig Swisaidd, person cyflogedig trawsffiniol Swisaidd, person hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd neu berson hunangyflogedig Swisaidd—

(i) priod y person neu ei bartner sifil, neu

(ii) plentyn y person neu blentyn priod neu bartner sifil y person;

ystyr "gweithiwr mudol AEE" ("*EEA migrant worker*") yw gwladolyn AEE sy'n weithiwr, ac eithrio gweithiwr trawsffiniol AEE, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "gweithiwr trawsffiniol AEE" ("*EEA frontier worker*") yw gwladolyn AEE sydd—

(a) yn weithiwr yng Nghymru, a

(b) yn preswylio yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE **F107**... ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu'r Wladwriaeth AEE honno, yn ôl y digwydd, o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr "person cyflogedig Swisaidd" ("*Swiss employed person*") yw gwladolyn Swisaidd sy'n berson cyflogedig, ac eithrio person cyflogedig trawsffiniol Swisaidd, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "person cyflogedig trawsffiniol Swisaidd" ("*Swiss frontier employed person*") yw gwladolyn Swisaidd sydd—

(a) yn berson cyflogedig yng Nghymru, a

(b) yn preswylio yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE **F107**... ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu'r Wladwriaeth AEE honno, yn ôl y digwydd, o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr "person hunangyflogedig AEE" ("*EEA self-employed person*") yw gwladolyn AEE sy'n berson hunangyflogedig, ac eithrio person hunangyflogedig trawsffiniol AEE, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "person hunangyflogedig Swisaidd" ("*Swiss self-employed person*") yw gwladolyn Swisaidd sy'n berson hunangyflogedig, ac eithrio person hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "person hunangyflogedig trawsffiniol AEE" ("*EEA frontier self-employed person*") yw gwladolyn AEE sydd—

(a) yn berson hunangyflogedig yng Nghymru, a

(b) yn preswylio yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE **F107**... ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu'r Wladwriaeth AEE honno, yn ôl y digwydd, o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr "person hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd" ("*Swiss frontier self-employed person*") yw gwladolyn Swisaidd sydd—

(a) yn berson hunangyflogedig yng Nghymru, a

(b) yn preswylio yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE, [F107]..., ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu'r Wladwriaeth AEE honno, yn ôl y digwydd, o leiaf unwaith yr wythnos.

(4) At ddibenion is-baragraff (3)—

ystyr "gweithiwr" yw "worker" o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu Gytundeb yr AEE, yn ôl y digwydd;

ystyr "gwladolyn AEE" ("*EEA national*") yw gwladolyn o Wladwriaeth AEE [F108]...;

ystyr "person cyflogedig" ("*employed person*") yw person cyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

ystyr "person hunangyflogedig" ("*self-employed person*") yw—

(a) mewn perthynas â gwladolyn AEE, person sy'n hunangyflogedig o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu Gytundeb yr AEE, yn ôl y digwydd, neu

(b) mewn perthynas â gwladolyn Swisaidd, person sy'n berson hunangyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir.

**Diwygiadau Testunol**

**F104** Geiriau yn Atod. 2 para. 4(1)(b) wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(3)(a)**

**F105** Geiriau yn Atod. 2 para. 4(2)(b) wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(3)(a)**

**F106** Atod. 2 para. 4(2A) wedi ei fewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(3)(b)**

**F107** Geiriau yn Atod. 2 para. 4(3) wedi eu hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(3)(c)**

**F108** Geiriau yn Atod. 2 para. 4(4) wedi eu hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(3)(c)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I110** Atod. 2 para. 4 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Categori 5 – Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswylio yn rhywle arall

**5.**—(1) Person—

(a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig,

(b) a oedd yn preswylio fel arfer yng Nghymru ac wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn union cyn ymadael â'r Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswylio [[F109]cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu] ,

(c) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar y diwrnod y mae'r cwrs yn dechrau,

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r [[F110]Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr] AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac

(e) mewn achos pan oedd ei breswylio fel arfer, y cyfeirir ato ym mharagraff (d), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r **[**[F111]Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr**]** AEE a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (d).

(2) At ddibenion y paragraff hwn, mae person wedi arfer hawl i breswylio os yw is-baragraff (3) neu (4) yn gymwys i'r person.

(3) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys i berson sydd—

(a) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig,

(b) yn aelod o deulu gwladolyn o'r Deyrnas Unedig at ddibenion Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 (neu ddibenion cyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir), neu

(c) yn berson **[**[F112]yr oedd ganddo'r hawl**]** i breswylio'n barhaol,

sydd wedi arfer hawl o dan Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu unrhyw hawl gyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir mewn gwladwriaeth ac eithrio'r Deyrnas Unedig.

(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i berson ("P")—

(a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig **[**[F113]ac yr oedd ganddo'r hawl**]** i breswylio'n barhaol,a

(b) **[**[F114]sydd wedi mynd**]** i'r wladwriaeth o fewn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir y mae P yn wladolyn ohoni neu y mae'r person y mae P yn aelod o deulu mewn perthynas ag ef yn wladolyn ohoni.

(5) At ddibenion is-baragraff (4), mae P yn aelod o deulu person arall ("Q") os yw P—

(a) yn briod neu'n bartner sifil i Q,

(b) yn ddisgynnydd uniongyrchol Q neu'n ddisgynnydd uniongyrchol priod neu bartner sifil Q a bod P—

(i) o dan 21 oed, neu

(ii) yn 21 oed neu drosodd ac yn ddibynnydd Q neu'n ddibynnydd priod neu bartner sifil Q, neu

(c) pan fo Q yn wladolyn UE sy'n dod o fewn Erthygl 7(1)(b) o Gyfarwyddeb 2004/38, yn berthynas uniongyrchol dibynnol yn llinach esgynnol Q neu yn llinach esgynnol priod neu bartner sifil Q.

**[**[F115](6) At ddibenion y paragraff hwn, roedd gan berson yr hawl i breswylio'n barhaol os oedd ganddo hawl a gododd o dan Gyfarwyddeb 2004/38 i breswylio'n barhaol yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiad.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F109** Geiriau yn Atod. 2 para. 5(1)(b) wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(4)(a)**

**F110** Geiriau yn Atod. 2 para. 5(1)(d) wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(4)(b)**

**F111** Geiriau yn Atod. 2 para. 5(1)(e) wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(4)(b)**

**F112** Geiriau yn Atod. 2 para. 5(3)(c) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(4)(c)**
**F113** Geiriau yn Atod. 2 para. 5(4)(a) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(4)(d)(i)**
**F114** Geiriau yn Atod. 2 para. 5(4)(b) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(4)(d)(ii)**
**F115** Atod. 2 para. 5(6) wedi ei fewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(4)(e)**

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I111** Atod. 2 para. 5 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Categori 6 – Gwladolion UE

**6.**—(1) Person—

[F116(a) sydd, ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs—
(i) yn wladolyn UE,
(ii) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig sydd wedi arfer hawl i breswylio, neu
(iii) yn aelod o deulu person yn is-baragraff (i) neu (ii),]
(b) sy'n ymgymryd â chwrs dynodedig yng Nghymru,
(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r [F117Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr] AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a
(d) na fu'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r [F118Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr] AEE a'r Swistir yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser (oni bai bod y person yn cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth honno yn unol â pharagraff 9(2)).

[F119(1A) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan is-baragraff (1) yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.]

(2) Person—
(a) sy'n wladolyn UE F120... ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,
(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,
(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a
(d) mewn achos pan oedd ei breswylio fel arfer, y cyfeirir ato ym mharagraff (c), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r [F121Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr] AEE a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(3) Pan fo gwladwriaeth yn ymaelodi â'r Undeb Ewropeaidd ar ôl diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs a bod person yn wladolyn o'r wladwriaeth honno, trinnir y gofyniad yn is-baragraff (1)(a) neu (2)(a) fel gofyniad sydd wedi ei fodloni.

[F122(4) At ddibenion is-baragraff (1)(a), mae gwladolyn o'r Deyrnas Unedig wedi arfer hawl i breswylio os yw'r person hwnnw wedi preswylio yn Gibraltar neu wedi arfer hawl o dan Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu unrhyw hawl gyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir mewn gwladwriaeth ac eithrio'r Deyrnas Unedig.**]**

(5) At ddibenion is-baragraff (1)(a), mae person ("P") yn aelod o deulu person arall ("Q") os yw—

(a) P yn briod neu'n bartner sifil i Q,

(b) P yn ddisgynnydd uniongyrchol Q neu'n ddisgynnydd uniongyrchol priod neu bartner sifil Q a bod P—

(i) o dan 21 oed, neu

(ii) yn 21 oed neu drosodd ac yn ddibynnydd Q neu'n ddibynnydd priod neu bartner sifil Q, neu

(c) mewn achos pan fo Q yn wladolyn UE sy'n dod o fewn Erthygl 7(1)(b) o Gyfarwyddeb 2004/38, P yn berthynas uniongyrchol dibynnol yn llinach esgynnol Q neu yn llinell esgynnol priod neu bartner sifil Q.

**Diwygiadau Testunol**

**F116** Atod. 2 para. 6(1)(a) wedi ei amnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(5)(a)**

**F117** Geiriau yn Atod. 2 para. 6(1)(c) wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(5)(b)**

**F118** Geiriau yn Atod. 2 para. 6(1)(d) wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(5)(b)**

**F119** Atod. 2 para. 6(1A) wedi ei fewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(5)(c)**

**F120** Geiriau yn Atod. 2 para. 6(2)(a) wedi eu hepgor (31.12.2020) yn rhinwedd Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(5)(d)**

**F121** Geiriau yn Atod. 2 para. 6(2)(d) wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(5)(e)**

**F122** Atod. 2 para. 6(4) wedi ei amnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(5)(f)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I112** Atod. 2 para. 6 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

## Categori 7 – Plant gwladolion Swisaidd

**7.**—(1) Person—

[F123(a) sy'n blentyn i wladolyn Swisaidd y mae ganddo hawlogaeth i gael cymorth yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir,

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) mewn achos pan oedd ei breswylio fel arfer, y cyfeirir ato ym mharagraff (c), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F123** Atod. 2 para. 7 wedi ei amnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(6)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I113** Atod. 2 para. 7 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Categori 8 – Plant gweithwyr Twrcaidd

**8.**—(1) Person—

(a) sy'n blentyn i weithiwr Twrcaidd,

(b) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r **[**F124Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr**]** AEE, y Swistir a Thwrci drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Yn y paragraff hwn, ystyr "gweithiwr Twrcaidd" yw gwladolyn Twrcaidd—

(a) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd, a

(b) sy'n cael, neu sydd wedi cael, ei gyflogi'n gyfreithlon yn y Deyrnas Unedig.

**Diwygiadau Testunol**

**F124** Geiriau yn Atod. 2 para. 8(1)(c) wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(7)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I114** Atod. 2 para. 8 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Preswylio fel arfer – darpariaeth ychwanegol

**9.**—(1) At ddibenion yr Atodlen hon, mae person sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon neu'r Ynysoedd, o ganlyniad i fod wedi symud o un arall o'r ardaloedd hynny at ddiben ymgymryd—

(a) â'r cwrs presennol, neu

(b) gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, â chwrs yr ymgymerodd y person ag ef yn union cyn ymgymryd â'r cwrs presennol,

i'w ystyried yn berson sy'n preswylio fel arfer yn y lle y mae'r person wedi symud ohono.

(2) At ddibenion yr Atodlen hon, mae person ("P") i'w drin fel rhywun sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd neu yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r **[**[F125]Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr**]** AEE, y Swistir a Thwrci pe bai P wedi bod yn preswylio felly oni bai am y ffaith bod—

(a) P,

(b) priod neu bartner sifil P,

(c) rhiant P, neu

(d) yn achos perthynas uniongyrchol dibynnol yn y llinach esgynnol, plentyn P neu briod neu bartner sifil plentyn P,

yn gyflogedig dros dro neu wedi bod yn gyflogedig dros dro y tu allan i Gymru, y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd neu'r diriogaeth sy'n ffurfio'r **[**[F125]Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr**]** AEE, y Swistir a Thwrci.

(3) At ddibenion is-baragraff (2), mae cyflogaeth dros dro y tu allan i Gymru, y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd neu'r diriogaeth sy'n ffurfio'r **[**[F125]Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr**]** AEE, y Swistir a Thwrci yn cynnwys—

(a) yn achos aelodau o'r lluoedd arfog, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r Deyrnas Unedig fel aelodau o luoedd o'r fath;

(b) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Gwladwriaeth AEE neu'r Swistir, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r **[**[F125]Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr**]** AEE a'r Swistir fel aelodau o luoedd o'r fath;

(c) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Twrci, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r **[**[F125]Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr**]** AEE, y Swistir a Thwrci fel aelodau o luoedd o'r fath.

(4) At ddibenion yr Atodlen hon, mae myfyriwr cymwys sy'n garcharor i'w ystyried fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y rhan o'r Deyrnas Unedig lle yr oedd y carcharor yn preswylio cyn cael ei ddedfrydu.

(5) At ddibenion yr Atodlen hon, mae ardal **[**[F126]ac eithrio'r Deyrnas Unedig neu Gibraltar**]** —

(a) nad oedd gynt yn rhan o'r UE neu'r AEE, ond

(b) sydd ar unrhyw adeg cyn neu ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym yn dod yn rhan o'r naill neu'r llall, neu o'r ddwy, o'r tiriogaethau hyn,

i'w hystyried fel pe bai bob amser wedi bod yn rhan o'r AEE.

**Diwygiadau Testunol**

**F125** Geiriau yn Atod. 2 para. 9 wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(8)(a)**

**F126** Geiriau yn Atod. 2 para. 9(5) wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(8)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I115** Atod. 2 para. 9 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Darpariaeth bellach ar breswylio fel arfer: personau sy'n ymadael â gofal

**10.**—(1) Caiff person sy'n ymadael â gofal ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs presennol hyd yn oed os yw'r person sy'n ymadael â gofal, ar y diwrnod hwnnw—

(a) yn derbyn gofal y tu allan i Gymru (mewn achos pan fo rheoliad 49(c)(i) yn gymwys i'r myfyriwr), neu

(b) yn preswylio y tu allan i Gymru o dan orchymyn gwarcheidiaeth arbennig (mewn achos pan fo rheoliad 49(c)(ii) yn gymwys i'r myfyriwr),

o dan drefniadau a wneir gan awdurdod lleol Cymreig.

(2) Ym mharagraff (1)—

ystyr "awdurdod lleol Cymreig" ("*Welsh local authority*") yw awdurdod lleol o fewn yr ystyr a roddir gan adran 197(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

mae i "derbyn gofal" ("*looked after*") yr ystyr a roddir yn adran 74 o'r Ddeddf honno;

mae i "person sy'n ymadael â gofal" ("*care leaver*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 49 o'r Ddeddf honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I116** Atod. 2 para. 10 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Dehongli

**11.** Yn yr Atodlen hon—

ystyr "AEE" ("*EEA*") yw'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, sef y diriogaeth a ffurfir gan Wladwriaethau'r AEE;

ystyr "Cyfarwyddeb 2004/38" ("*Directive 2004/38*") yw Cyfarwyddeb 2004/38/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ddyddiedig 29 Ebrill 2004 ar hawliau dinasyddion yr Undeb ac aelodau o'u teuluoedd i symud a phreswylio'n rhydd yn nhiriogaeth yr Aelod-wladwriaethau(**43**);

**[**[F127]mae i "cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd" yr ystyr a roddir i "Swiss citizens' rights agreement" gan adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;**]**

**[**[F127]mae i "cytundeb gwahanu EFTA yr AEE" yr ystyr a roddir i "EEA EFTA separation agreement" gan adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;**]**

ystyr "Cytundeb y Swistir" ("*Swiss Agreement*") yw'r Cytundeb rhwng yr UE a'i Aelod-wladwriaethau, o'r naill ran, a Chydffederasiwn y Swistir, o'r rhan arall, ar Symudiad Rhydd Personau a lofnodwyd yn Lwcsembwrg ar 21 Mehefin 1999(**44**) ac a ddaeth i rym ar 1 Mehefin 2002;

ystyr "ffoadur" ("*refugee*") yw person a gydnabyddir gan lywodraeth Ei Mawrhydi yn ffoadur o fewn ystyr Confensiwn y Cenhedloedd Unedig sy'n ymwneud â Statws Ffoaduriaid a wnaed yn Ngenefa ar 28 Gorffennaf 1951(**45**) fel y'i hestynnwyd gan ei Brotocol 1967(**46**);

**[**[F128]ystyr "hawl i breswylio'n barhaol" ("*right of permanent residence*") yw, mewn perthynas â pherson ("A"), hawl i breswylio yn y Deyrnas Unedig yn barhaol heb gyfyngiad sy'n codi o

(**43**) OJ Rhif L158, 30.04.2004, tt.77-123.
(**44**) Gorch. 4904 ac OJ Rhif Ll 14, 30.04.02, t. 6.
(**45**) Gorchmn. 9171.
(**46**) Gorchmn. 3906, daeth y Protocol i rym ar 4 Hydref 1967.

dan reolau mewnfudo'r cynllun preswylio, ond dim ond pan fyddai A, pe bai'r ffeithiau a oedd yn ymwneud â phenderfynu hawl A i breswylio yn dod i'w hystyried yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, wedi ennill hawl o'r fath o dan Gyfarwyddeb 2004/38 fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu;**]**

**[**[F129]ystyr "rheolau mewnfudo" ("*immigration rules*") yw'r rheolau a osodir gerbron Senedd y Deyrnas Unedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971;**]**

**[**[F127]mae i "rheolau mewnfudo'r cynllun preswylio" yr ystyr a roddir i "residence scheme immigration rules" gan adran 17(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;**]**

mae "rhiant" ("*parent*") yn cynnwys gwarcheidwad, unrhyw berson arall a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros blentyn ac unrhyw berson a chanddo ofal am blentyn ac mae "plentyn" ("*child*") i'w ddehongli yn unol â hynny;

mae i "wedi setlo" yr ystyr a roddir i "settled" gan adran 33(2A) o Ddeddf Mewnfudo 1971(**47**);

ystyr "Ynysoedd" ("*Islands*") yw Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw.

**Diwygiadau Testunol**

**F127** Geiriau yn Atod. 2 para. 11 wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(9)(a)**

**F128** Geiriau yn Atod. 2 para. 11 wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **31(9)(b)**

**F129** Geiriau yn Atod. 2 para. 11 wedi eu mewnosod (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **16(c)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I117** Atod. 2 para. 11 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

ATODLEN 3 — Rheoliadau 48, 65(3), 66(2)(a) a 70(3)

Cyfrifo incwm

# RHAN 1

## Cyflwyniad

### Trosolwg o'r Atodlen

**1.**—(1) Mae'r Atodlen hon wedi ei threfnu fel a ganlyn.

(2) Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfrifo incwm aelwyd myfyriwr cymwys at ddibenion penderfynu ar swm—

(a) grant cynhaliaeth (gweler rheoliadau 46 a 47),

(b) grant at deithio (gweler rheoliadau 65 a 66), neu

(c) grantiau ar gyfer dibynyddion (gweler Rhan 11),

(**47**) 1971 p. 77; mewnosodwyd adran 33(2A) gan baragraff 7 o Atodlen 4 i Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 (p. 61).

sy'n daladwy i'r myfyriwr.

(3) Mae Rhan 3 yn nodi ystyr "incwm trethadwy", sy'n ofynnol er mwyn cyfrifo incwm gweddilliol person.

(4) Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfrifo incwm gweddilliol pan fo—

(a) Pennod 1 yn nodi sut i gyfrifo incwm gweddilliol myfyriwr cymwys at ddibenion cyfrifo incwm aelwyd y myfyriwr, a

(b) Pennod 2 yn nodi sut i gyfrifo incwm gweddilliol y personau eraill a ganlyn—

(i) rhiant myfyriwr cymwys, partner myfyriwr cymwys neu bartner rhiant myfyriwr cymwys at ddibenion cyfrifo incwm aelwyd y myfyriwr;

(ii) oedolyn dibynnol myfyriwr cymwys at ddibenion cyfrifo swm y grant ar gyfer dibynyddion sy'n daladwy i'r myfyriwr (gweler rheoliad 77).

(5) Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfrifo incwm net—

(a) oedolyn dibynnol myfyriwr cymwys, at ddibenion penderfynu a yw myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael grant oedolion dibynnol (gweler rheoliad 71);

(b) plant dibynnol myfyriwr cymwys, at ddibenion cyfrifo swm y grant ar gyfer dibynyddion sy'n daladwy i'r myfyriwr (gweler rheoliad 77).

(6) Mae Rhan 6 yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn yr Atodlen hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I118** Atod. 3 para. 1 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 2

## Incwm yr aelwyd

### Incwm aelwyd myfyriwr cymwys

**2.** Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfrifo incwm aelwyd myfyriwr cymwys.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I119** Atod. 3 para. 2 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Cyfrifo incwm yr aelwyd

**3.**—(1) Mae incwm aelwyd myfyriwr cymwys yn cael ei gyfrifo drwy gymhwyso'r camau a ganlyn—

*Cam 1*

Os nad yw'r myfyriwr yn fyfyriwr cymwys annibynnol (gweler paragraff 4), cyfrifo cyfanred incwm gweddilliol y personau a restrir yn Rhestr A.

Os yw'r myfyriwr yn fyfyriwr cymwys annibynnol, cyfrifo cyfanred incwm gweddilliol y personau a restrir yn Rhestr B.

**Rhestr A**

Y personau yw—

(a) y myfyriwr cymwys, plws

(b) naill ai—

(i) pob un o rieni'r myfyriwr cymwys (yn ddarostyngedig i baragraff 5), neu

(ii) pan fo rhieni'r myfyriwr wedi gwahanu, y rhiant a ddewisir o dan baragraff 6(3) a phartner y rhiant hwnnw (os oes un gan y rhiant hwnnw), (yn ddarostyngedig i baragraff 7).

**Rhestr B**

Y personau yw—

(a) y myfyriwr cymwys annibynnol, plws

(b) partner y myfyriwr (os oes un gan y myfyriwr), (yn ddarostyngedig i baragraffau 7 ac 8).

*Cam 2*

Cyfrifo swm cymwys didyniad plentyn dibynnol (gweler is-baragraffau (2) i (4)) a didynnu hynny o'r cyfanswm cyfanredol a gyfrifir o dan Gam 1.

Y canlyniad yw incwm aelwyd y myfyriwr cymwys.

(2) Mae didyniad plentyn dibynnol yn ddidyniad a wneir mewn cysylltiad â phob plentyn sy'n ariannol ddibynnol yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar—

(a) y myfyriwr cymwys,

(b) partner y myfyriwr cymwys,

(c) rhiant y myfyriwr cymwys, neu

(d) partner rhiant y myfyriwr cymwys,

pan fo incwm y person hwnnw yn cael ei ystyried at ddibenion cyfrifo incwm yr aelwyd.

(3) Ond nid oes didyniad i'w wneud mewn cysylltiad â phlentyn—

(a) rhiant y myfyriwr cymwys, neu

(b) partner rhiant y myfyriwr cymwys,

os y myfyriwr cymwys yw'r plentyn.

(4) Yn Nhabl 15, mae Colofn 2 yn nodi swm y didyniad plentyn dibynnol mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd a nodir yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 1.

**Tabl 15**

| *Colofn 1*<br><br>*Blwyddyn academaidd* | *Colofn 2*<br><br>*Swm y didyniad plentyn dibynnol* |
|---|---|
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2018 | £1,130 |

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I120** Atod. 3 para. 3 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Myfyrwyr cymwys annibynnol**

**4.**—(1) Mae myfyriwr cymwys yn fyfyriwr cymwys annibynnol os yw un o'r achosion a ganlyn yn gymwys—

*Achos 1*

Mae'r myfyriwr yn 25 oed neu drosodd ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyfredol.

*Achos 2*

Mae'r myfyriwr yn briod neu mewn partneriaeth sifil cyn dechrau diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyfredol, pa un a yw'r briodas neu'r bartneriaeth sifil yn parhau i fod ar ôl y dyddiad hwnnw ai peidio.

*Achos 3*

Nid oes gan y myfyriwr riant sy'n fyw.

*Achos 4*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni—

(a) na ellir dod o hyd i'r naill na'r llall o rieni'r myfyriwr, neu

(b) nad yw'n rhesymol ymarferol cysylltu â'r naill na'r llall o rieni'r myfyriwr.

*Achos 5*

Naill ai—

(a) nid yw'r myfyriwr wedi cyfathrebu â'r naill na'r llall o'i rieni am gyfnod o flwyddyn neu fwy sy'n dod i ben ar y diwrnod cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyfredol, neu

(b) ym marn Gweinidogion Cymru, mae'r myfyriwr wedi ymddieithrio oddi wrth ei rieni ar seiliau eraill mewn ffordd lle nad oes modd cymodi.

*Achos 6*

Mae rhieni'r myfyriwr yn preswylio y tu allan i'r **[**[F130]Deyrnas Unedig, Gibraltar a'r**]** Undeb Ewropeaidd ac mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni—

(c) y byddai asesu incwm yr aelwyd drwy gyfeirio at incwm y rhieni yn gosod y rhieni hynny mewn perygl, neu

(d) na fyddai'n rhesymol ymarferol i'r rhieni anfon arian i'r Deyrnas Unedig at ddibenion rhoi cymorth i'r myfyriwr.

*Achos 7*

Pan fo paragraff 6 (rhieni sy'n gwahanu) yn gymwys, mae'r rhiant a ddewisir gan Weinidogion Cymru o dan is-baragraff (3) o'r paragraff hwnnw wedi marw, ni waeth a oedd gan y rhiant hwnnw bartner ai peidio.

*Achos 8*

Ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyfredol, mae gan y myfyriwr ofal dros berson sydd o dan 18 oed.

*Achos 9*

Mae'r myfyriwr wedi cael ei gefnogi gan enillion y myfyriwr am unrhyw gyfnod o dair blynedd (neu gyfnodau sydd, gyda'i gilydd, yn dod i gyfanred o dair blynedd o leiaf) sy'n dod i ben cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs presennol.

*Achos 10*

Pan fo myfyriwr yn fyfyriwr cymwys annibynnol yn rhinwedd Achos 9 mewn cysylltiad ag un flwyddyn academaidd, mae'r myfyriwr yn parhau i fod yn fyfyriwr cymwys annibynnol ar gyfer unrhyw flwyddyn academaidd ddilynol o'r cwrs dynodedig.

*Achos 11*

Mae'r myfyriwr yn berson sy'n ymadael â gofal o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 49.

(2) At ddibenion Achos 9, mae myfyriwr cymwys yn cael ei drin fel pe bai'n cael ei gefnogi gan enillion y myfyriwr os, yn ystod y cyfnod neu'r cyfnodau y cyfeirir ato neu atynt yn Achos 9, yw un o'r seiliau a ganlyn yn gymwys—

*Sail 1*

Roedd y myfyriwr cymwys yn cymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer hyfforddi personau di-waith o dan gynllun a weithredir, a noddir neu a gyllidir gan gorff cyhoeddus.

*Sail 2*

Roedd y myfyriwr cymwys yn cael budd-dal sy'n daladwy gan gorff cyhoeddus mewn cysylltiad â pherson sydd ar gael ar gyfer cyflogaeth ond sy'n ddi-waith.

*Sail 3*

Roedd y myfyriwr cymwys ar gael ar gyfer cyflogaeth ac wedi cydymffurfio ag unrhyw ofyniad cofrestru corff cyhoeddus fel amod o hawlogaeth i gymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer hyfforddiant neu i gael budd-daliadau.

*Sail 4*

Roedd gan y myfyriwr cymwys efrydiaeth wladol neu ddyfarndal tebyg.

*Sail 5*

Roedd y myfyriwr cymwys yn cael pensiwn, lwfans neu fudd-dal arall a delir oherwydd anabledd, anaf neu salwch y myfyriwr neu am reswm sy'n gysylltiedig â geni plentyn.

**Diwygiadau Testunol**

**F130** Geiriau yn Atod. 3 para. 4(1) wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **32(2)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I121** Atod. 3 para. 4 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Rhiant myfyriwr cymwys yn marw gan adael rhiant sydd wedi goroesi

**5.**—(1) Pan fo—

(a) rhiant myfyriwr cymwys yn marw cyn y flwyddyn academaidd gyfredol, a

(b) incwm y rhiant hwnnw wedi, neu y byddai incwm y rhiant hwnnw wedi, cael ei ystyried at ddiben penderfynu ar incwm yr aelwyd,

dim ond incwm gweddilliol y rhiant sydd wedi goroesi a gyfrifir yn gyfanred at ddibenion Cam 1 ym mharagraff 3(1).

(2) Pan fo'r rhiant yn marw yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol, incwm gweddilliol rhieni'r myfyriwr cymwys, at ddibenion Cam 1 ym mharagraff 3(1), yw cyfanred—

(a) incwm gweddilliol y ddau riant ar gyfer y flwyddyn ariannol gymwys wedi ei luosi â X/52, a

(b) incwm gweddilliol y rhiant sydd wedi goroesi ar gyfer y flwyddyn ariannol gymwys wedi ei luosi â Y/52,

Pan—

X yw nifer yr wythnosau yn y flwyddyn academaidd gyfredol pan oedd y ddau riant yn fyw, ac

Y yw nifer yr wythnosau sy'n weddill yn y flwyddyn academaidd gyfredol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I122** Atod. 3 para. 5 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Rhieni myfyriwr cymwys yn gwahanu

**6.**—(1) Pan fo rhieni'r myfyriwr cymwys wedi gwahanu drwy gydol y flwyddyn academaidd gyfredol, dim ond incwm gweddilliol y rhiant a ddewisir o dan is-baragraff (3) sy'n cael ei gyfrifo'n gyfanred at ddibenion Cam 1 ym mharagraff 3(1).

(2) Pan fo rhieni'r myfyriwr wedi gwahanu yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol, incwm gweddilliol rhieni'r myfyriwr cymwys, at ddibenion Cam 1 ym mharagraff 3(1), yw cyfanred—

(a) incwm gweddilliol y ddau riant ar gyfer y flwyddyn ariannol gymwys wedi ei luosi â X/52; a

(b) incwm gweddilliol y rhiant a ddewisir o dan is-baragraff (3) ar gyfer y flwyddyn ariannol gymwys wedi ei luosi â Y/52,

pan—

X yw nifer yr wythnosau yn y flwyddyn academaidd gyfredol pan nad oedd y rhieni wedi gwahanu, ac

Y yw nifer yr wythnosau yn y flwyddyn academaidd gyfredol pan oedd y rhieni wedi gwahanu.

(3) Pan fo is-baragraff (1) neu (2) yn gymwys, rhaid i Weinidogion Cymru ddewis y rhiant a chanddo'r incwm gweddilliol sydd fwyaf priodol ei ystyried o dan yr amgylchiadau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I123** Atod. 3 para. 6 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Rhiant myfyriwr cymwys neu fyfyriwr cymwys annibynnol yn gwahanu o'i bartner

**7.** Pan fo—

(a) rhiant myfyriwr cymwys, neu

(b) myfyriwr cymwys annibynnol

wedi gwahanu o'i bartner drwy gydol y flwyddyn academaidd gyfredol, nid yw incwm y partner yn cael ei gyfrifo'n gyfanred o dan Gam 1 ym mharagraff 3(1).

(2) Pan fo—

(a) rhiant y myfyriwr cymwys, neu

(b) myfyriwr cymwys annibynnol

wedi gwahanu o'i bartner yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol, cyfrifir swm incwm gweddilliol y partner sydd i'w gyfrifo'n gyfanred o dan Gam 1 drwy gymhwyso'r fformiwla yn is-baragraff (3).

(3) Y fformiwla sydd i'w chymhwyso yw—

$X \times C/52$

Pan—

**X** yw incwm gweddilliol—

(a) partner rhiant y myfyriwr cymwys, pan fo Rhestr A o Gam 1 yn gymwys, neu

(b) partner y myfyriwr cymwys annibynnol, pan fo Rhestr B o Gam 1 yn gymwys,

ar gyfer y flwyddyn academaidd gymwys;

**C** yw nifer wythnosau cyflawn y flwyddyn academaidd gyfredol pan nad oedd—

(a) rhiant y myfyriwr cymwys a'i bartner, neu

(b) y myfyriwr cymwys annibynnol a phartner y myfyriwr,

wedi gwahanu.

(4) Pan fo gan fyfyriwr cymwys fwy nag un partner mewn unrhyw flwyddyn academaidd, mae'r paragraff hwn a Cham 1 o baragraff 3(1) yn gymwys mewn perthynas â phob partner.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I124** Atod. 3 para. 7 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Myfyriwr cymwys annibynnol neu bartner yn rhiant i fyfyriwr cymwys**

**8.** Pan fo—

(a) myfyriwr cymwys annibynnol (A) neu bartner y myfyriwr cymwys annibynnol (PA) yn rhiant i fyfyriwr cymwys (M), a

(b) dyfarndal statudol sy'n daladwy i M wedi ei gyfrifo drwy gyfeirio at incwm gweddilliol A neu PA, neu'r ddau,

nid yw incwm gweddilliol PA yn cael ei gyfrifo'n gyfanred o dan Restr B o Gam 1 ym mharagraff 3(1) at ddibenion cyfrifo incwm aelwyd A.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I125** Atod. 3 para. 8 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 3

## Incwm trethadwy

**Incwm trethadwy**

**9.**—(1) Yn yr Atodlen hon, ystyr incwm trethadwy person yw—

(a) cyfanred—

(i) cyfanswm yr incwm y codir treth incwm ar y person amdano o dan Gam 1 o adran 23 o Ddeddf Treth Incwm 2007(**48**), a

(ii) os nad ydynt eisoes yn elfen o gyfanswm yr incwm o dan is-baragraff (i), daliadau a budd-daliadau eraill a bennir yn adran 401(1) o Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003(**49**) a geir gan y person neu sy'n cael eu trin fel pe baent wedi eu cael gan y person (ond diystyrir adran 401(2) o'r Ddeddf honno at ddibenion yr is-baragraff hwn), neu

(**48**) 2007 p. 3; diwygiwyd adran 23 gan Ddeddf Cyllid 2009 (p. 10), Atodlen 1, paragraff 6(o)(i), Deddf Cyllid 2013 (p. 29), Atodlen 3, paragraff 2(2) a Deddf Cyllid 2014 (p. 26), Atodlen 17, paragraff 19.
(**49**) 2003 p. 1; diwygiwyd adran 401 gan O.S. 2005/3229, O.S. 2011/1037 ac O.S. 2014/211.

(b) pan fo deddfwriaeth treth incwm [F131 Aelod-wladwriaeth] yn gymwys i incwm y person, gyfanswm incwm y person o bob ffynhonnell fel y'u penderfynir at ddibenion deddfwriaeth treth incwm yr Aelod-wladwriaeth honno.

[F132 (2) At ddibenion is-baragraff (1)(b), pan fo deddfwriaeth treth incwm—

(a) y Deyrnas Unedig ac un neu ragor o Aelod-wladwriaethau, neu

(b) mwy nag un Aelod-wladwriaeth,

yn gymwys i'r person mewn cysylltiad â'r flwyddyn sydd o dan ystyriaeth, cyfanswm incwm y person o bob ffynhonnell yw'r swm sy'n deillio o'r penderfyniad sy'n arwain at swm mwyaf cyfanswm yr incwm, gan gynnwys unrhyw incwm y mae'n ofynnol ei ystyried o dan baragraff 18.]

(3) Ond nid yw incwm trethadwy person yn cynnwys incwm a delir i berson arall o dan orchymyn trefniadau pensiwn.

**Diwygiadau Testunol**

**F131** Geiriau yn Atod. 3 para. 9(1)(b) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **32(3)(a)**

**F132** Atod. 3 para. 9(2) wedi ei amnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **32(3)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I126** Atod. 3 para. 9 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 4

## Incwm gweddilliol

### PENNOD 1

### Incwm gweddilliol myfyriwr cymwys

**Cyfrifo incwm gweddilliol myfyriwr cymwys**

**10.** At ddibenion cyfrifo incwm aelwyd myfyriwr cymwys o dan Ran 2, cyfrifir incwm gweddilliol y myfyriwr fel a ganlyn—

Incwm trethadwy'r myfyriwr cymwys mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd gyfredol

*Plws*

Incwm sy'n daladwy i'r myfyriwr cymwys o dan orchymyn trefniadau pensiwn yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol, ar ôl didynnu treth incwm.

*Minws*

Cyfanred y didyniadau a nodir ym mharagraff 11 (oni bai eu bod eisoes wedi eu didynnu at ddibenion penderfynu ar incwm trethadwy'r myfyriwr).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I127** Atod. 3 para. 10 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Didyniadau at ddiben cyfrifo incwm gweddilliol myfyriwr cymwys**

**11.** At ddibenion cyfrifo incwm gweddilliol myfyriwr cymwys, y didyniadau yw—

*Didyniad A*

Tâl a roddir i'r myfyriwr cymwys yn y flwyddyn academaidd gyfredol am waith a wneir yn ystod unrhyw flwyddyn academaidd o'r cwrs, ond nid tâl mewn cysylltiad ag—

(a) unrhyw gyfnod o absenoldeb a gymerir gan y myfyriwr, neu

(b) cyfnod arall pan fydd y myfyriwr wedi ei ryddhau o ddyletswydd i fod yn bresennol yn y gwaith,

fel y caiff y myfyriwr ymgymryd â'r cwrs.

*Didyniad B*

Swm gros unrhyw bremiwm neu swm a delir gan y myfyriwr cymwys yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol mewn perthynas â phensiwn—

(a) y rhoddir rhyddhad mewn cysylltiad ag ef o dan adran 188 o Ddeddf Cyllid 2004(**50**); neu

(b) pan fo incwm y myfyriwr cymwys yn cael ei gyfrifiannu at ddibenion deddfwriaeth treth incwm **[**[F133]Aelod-wladwriaeth**]** , y byddai rhyddhad yn cael ei roi mewn cysylltiad ag ef pe bai'r ddeddfwriaeth honno yn gwneud darpariaeth sy'n cyfateb i'r ddarpariaeth yn y Deddfau Treth Incwm.

ond nid yw'n cynnwys unrhyw swm a delir fel premiwm o dan bolisi aswiriant bywyd.

**Diwygiadau Testunol**

**F133** Geiriau yn Atod. 3 para. 11 wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **32(4)(a)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I128** Atod. 3 para. 11 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Incwm myfyriwr cymwys a geir mewn arian cyfred ac eithrio sterling**

**12.**—(1) Pan fo'r myfyriwr cymwys yn cael incwm mewn arian cyfred ac eithrio sterling, gwerth yr incwm yw—

(a) swm y sterling y mae'r myfyriwr cymwys yn ei gael ar gyfer yr incwm, neu

(b) pan na fo'r myfyriwr yn troi'r incwm yn sterling, gwerth y sterling y byddai'r incwm yn ei brynu gan ddefnyddio cyfradd gyfnewid CThEM.

(2) Cyfradd gyfnewid CThEM(**51**) yw'r gyfradd a gyhoeddir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer y mis sy'n cyfateb i'r mis y ceir yr incwm ynddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I129** Atod. 3 para. 12 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

(**50**) 2004 p. 12; diwygiwyd adran 188 gan Ddeddf Cyllid 2007 (p. 11), adrannau 68 a 114 ac Atodlenni 18, 19 a 27, Deddf Cyllid 2013 (p. 29), adran 52 a Deddf Cyllid 2014 (p. 26), Atodlen 7.

(**51**) Gweler https://www.gov.uk/government/collections/exchange-rates-for-customs-and-vat.

PENNOD 2

Incwm gweddilliol personau ac eithrio myfyriwr cymwys

**Personau y mae'r bennod hon yn gymwys iddynt**

**13.** Mae'r Bennod hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfrifo incwm gweddilliol person ("P") pan fo P yn golygu'r canlynol—

(a) pan fo incwm P yn cael ei gyfrifo'n gyfanred o dan Gam 1 ym mharagraff 3(1) at ddiben cyfrifo incwm aelwyd myfyriwr cymwys—

(i) rhiant y myfyriwr cymwys,

(ii) partner y myfyriwr cymwys, neu

(iii) partner rhiant y myfyriwr cymwys,

yn ôl y digwydd;

(b) oedolyn dibynnol myfyriwr cymwys at ddibenion cyfrifo swm y grant ar gyfer dibynyddion sy'n daladwy i'r myfyriwr (gweler rheoliad 77).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I130** Atod. 3 para. 13 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Cyfrifo incwm gweddilliol personau ac eithrio myfyriwr cymwys**

**14.** Cyfrifir incwm gweddilliol P fel a ganlyn—

Incwm trethadwy P ar gyfer y flwyddyn ariannol gymwys.

*Plws*

Incwm sy'n daladwy i P o dan orchymyn trefniadau pensiwn yn ystod y flwyddyn ariannol gymwys ar ôl didynnu treth incwm.

*Minws*

Cyfanred y didyniadau a nodir ym mharagraff 15 (oni bai eu bod eisoes wedi eu didynnu at ddibenion penderfynu ar incwm trethadwy P).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I131** Atod. 3 para. 14 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Didyniadau at ddiben cyfrifo incwm gweddilliol personau ac eithrio myfyriwr cymwys**

**15.**—(1) At ddibenion cyfrifo incwm gweddilliol P, y didyniadau yw—

*Didyniad A*

Swm gros unrhyw bremiwm neu swm a delir gan P mewn cysylltiad â phensiwn yn ystod y flwyddyn ariannol gymwys—

(a) y rhoddir rhyddhad mewn perthynas ag ef o dan adran 188 o Ddeddf Cyllid 2004, neu

(b) pan fo incwm P yn cael ei gyfrifiannu at ddibenion deddfwriaeth treth incwm **[**[F134]Aelod-wladwriaeth**]** , y byddai rhyddhad yn cael ei roi mewn perthynas ag ef pe bai'r

ddeddfwriaeth honno yn gwneud darpariaeth sy'n cyfateb i'r ddarpariaeth yn y Deddfau Treth Incwm,

ond nid yw'n cynnwys unrhyw swm a delir fel premiwm o dan bolisi aswiriant bywyd.

*Didyniad B*

Pan fo paragraff 18 yn gymwys, swm sy'n cyfateb i Ddidyniad A ar yr amod nad yw'r swm hwn yn fwy na'r didyniadau a fyddai'n cael eu gwneud pe bai holl incwm P yn incwm at ddibenion Deddfau Treth Incwm mewn gwirionedd.

*Didyniad C*

£1,130, pan fo P—

(a) yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd gyfredol ond hefyd yn rhiant myfyriwr cymwys, neu

(b) wedi cael dyfarndal statudol mewn cysylltiad â'r un cyfnod.

**Diwygiadau Testunol**

**F134** Geiriau yn Atod. 3 para. 15 wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **32(4)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I132** Atod. 3 para. 15 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Blynyddoedd ariannol cymwys: cyfrifo incwm gweddilliol personau ac eithrio myfyriwr cymwys

**16.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn pennu'r flwyddyn ariannol gymwys at ddibenion cyfrifo incwm gweddilliol P.

(2) Oni bai bod is-baragraffau (3) neu (5) yn gymwys, y flwyddyn ariannol gymwys yw BF-1.

[F135(3) Y flwyddyn ariannol gymwys yw BG os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni—

(a) pan fo P yn un o ddau berson y cyfrifir cyfanred eu hincymau gweddilliol o dan baragraff (b)(i) neu (ii) o Restr A ym mharagraff 3(1), fod cyfanred incymau gweddilliol P a'r person arall ar gyfer BG yn debygol o fod o leiaf 15% yn llai na chyfanred incymau gweddilliol P a'r person arall ar gyfer BF-1, neu

(b) mewn unrhyw achos arall, fod incwm gweddilliol P ar gyfer BG yn debygol o fod o leiaf 15% yn llai nag incwm gweddilliol P ar gyfer BF-1.**]**

(4) Mae is-baragraff (5) yn gymwys os y flwyddyn ariannol a oedd yn dechrau yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd flaenorol oedd y flwyddyn ariannol gymwys ar gyfer y flwyddyn academaidd flaenorol.

[F136(5) Pan fo'r is-baragraff hwn yn gymwys—

(a) y flwyddyn ariannol gymwys yw BG os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni—

(i) pan fo P yn un o ddau berson y cyfrifir cyfanred eu hincymau gweddilliol o dan baragraff (b)(i) neu (ii) o Restr A ym mharagraff 3(1), fod cyfanred incymau gweddilliol P a'r person arall ar gyfer BG yn debygol o fod o leiaf 15% yn llai na chyfanred incymau gweddilliol P a'r person arall ar gyfer BF, neu

(ii) mewn unrhyw achos arall, fod incwm gweddilliol P ar gyfer BG yn debygol o fod o leiaf 15% yn llai nag incwm gweddilliol P ar gyfer BF;

(b) fel arall, y flwyddyn ariannol gymwys yw BF.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F135** Atod. 3 para. 16(3) wedi ei amnewid (2.3.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/142), rhlau. 1(2), **6(a)**

**F136** Atod. 3 para. 16(5) wedi ei amnewid (2.3.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/142), rhlau. 1(2), **6(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I133** Atod. 3 para. 16 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Incwm o fusnes neu broffesiwn

**17.**—(1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys pan—

(a) y flwyddyn ariannol gymwys at ddibenion cyfrifo incwm gweddilliol P yw BF-1, a

(b) bo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod incwm P yn deillio'n gyfan gwbl neu'n bennaf o elw busnes neu broffesiwn a gynhelir gan P.

(2) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, incwm gweddilliol P yw ei incwm ar gyfer y cyfnod cynharaf o ddeuddeng mis sy'n dod i ben yn BF-1 y cedwir cyfrifon mewn cysylltiad ag ef sy'n ymwneud â busnes neu broffesiwn P.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I134** Atod. 3 para. 17 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Trin incwm nas trinnir fel incwm at ddibenion treth incwm

**18.**—(1) Mae is-baragraff (3) yn gymwys pan fo P yn cael unrhyw incwm nad yw, am unrhyw un neu ragor o'r rhesymau a nodir yn is-baragraff (2), yn ffurfio rhan o incwm P at ddibenion y Deddfau Treth Incwm neu ddeddfwriaeth treth incwm **[**[F137]Aelod-wladwriaeth**]** .

(2) Y rhesymau yw—

*Rheswm 1*

(a) nid yw P yn preswylio nac wedi ymgartrefu yn y Deyrnas Unedig, neu

(b) cyfrifiennir incwm P at ddibenion deddfwriaeth treth incwm **[**[F137]Aelod-wladwriaeth**]** ac nid yw P yn preswylio nac wedi ymgartrefu yn yr Aelod-wladwriaeth honno.

*Rheswm 2*

(a) nid yw incwm P yn codi yn y Deyrnas Unedig, neu

(b) nid yw incwm P yn codi yn yr Aelod-wladwriaeth y cyfrifiennir incwm P ynddi at ddibenion deddfwriaeth treth incwm y Wladwriaeth honno.

*Rheswm 3*

Mae'r incwm yn codi o swydd, gwasanaeth neu gyflogaeth y mae'r incwm ohoni neu ohono yn esempt rhag treth.

(3) Mae incwm trethadwy P i'w gymryd i gynnwys yr incwm a ddisgrifir yn is-baragraff (1) fel pe bai'n rhan o incwm P at ddibenion y Deddfau Treth Incwm neu ddeddfwriaeth treth incwm **[**[F137]Aelod-wladwriaeth**]** , yn ôl y digwydd.

**Diwygiadau Testunol**

**F137** Geiriau yn Atod. 3 para. 18 wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **32(4)(c)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I135** Atod. 3 para. 18 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Incwm P mewn arian cyfred ac eithrio sterling

**19.**—(1) Pan fo incwm P wedi ei gyfrifiannu at ddibenion deddfwriaeth treth incwm **[**[F138]Aelod-wladwriaeth**]** , mae incwm gweddilliol P i'w gyfrifo yn unol a'r Rhan hon yn arian cyfred yr Aelod-wladwriaeth honno ac i'w gymryd fel gwerth sterling yr incwm hwnnw a benderfynir yn unol â chyfradd berthnasol CThEM.

(2) Cyfradd berthnasol CThEM yw'r gyfradd gyfnewid ar gyfartaledd a ddyroddir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer y flwyddyn galendr sy'n dod i ben yn union cyn diwedd BF-1.

**Diwygiadau Testunol**

**F138** Geiriau yn Atod. 3 para. 19(1) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **32(4)(d)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I136** Atod. 3 para. 19 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 5

## Incwm net dibynyddion

### Incwm net dibynyddion

**20.** Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfrifo incwm net y dibynyddion a ganlyn—

(a) oedolyn dibynnol myfyriwr cymwys, at ddibenion penderfynu a yw myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael grant oedolion dibynnol (gweler rheoliad 71);

(b) plant dibynnol myfyriwr cymwys, at ddibenion cyfrifo swm y grant ar gyfer dibynyddion sy'n daladwy i'r myfyriwr (gweler rheoliad 77).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I137** Atod. 3 para. 20 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Incwm net

**21.**—(1) Incwm net dibynnydd yw incwm y dibynnydd o bob ffynhonnell ar gyfer y flwyddyn berthnasol wedi ei ostwng yn ôl swm y dreth incwm a'r cyfraniadau nawdd cymdeithasol sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r flwyddyn honno ond gan ddiystyru—

(a) unrhyw bensiwn, lwfans neu fudd-dal arall a delir oherwydd anabledd neu analluedd dibynnydd;

(b) budd-dal plant sy'n daladwy o dan Ran 9 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992(**52**);

(c) unrhyw gymorth ariannol sy'n daladwy i'r dibynnydd gan awdurdod lleol yn unol â rheoliadau a wneir o dan adrannau 2, 3 a 4 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**53**);

(d) unrhyw lwfans gwarcheidwad y mae gan y dibynnydd hawlogaeth i'w gael o dan adran 77 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992(**54**);

(e) yn achos dibynnydd y mae plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol wedi ei fyrddio gydag ef, unrhyw daliad a wneir i'r dibynnydd hwnnw yn unol ag adran 23 o Ddeddf Plant 1989(**55**) neu adran 81 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**56**);

(f) unrhyw daliad a wneir i'r dibynnydd o dan adran 110(6) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 neu adran 23C(5A) o Ddeddf Plant 1989(**57**);

(g) unrhyw daliadau a wneir i'r dibynnydd o dan adran 15 o Ddeddf Plant 1989 ac Atodlen 1 iddi mewn cysylltiad â pherson nad yw'n blentyn i'r dibynnydd neu unrhyw gymorth a roddir gan awdurdod lleol yn unol â—

(i) adran 24 o'r Ddeddf honno(**58**), neu

(ii) adran 104 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i'r graddau y mae'r adran honno yn gymwys i bersonau ifanc categori 5 a 6 o fewn ystyr y Ddeddf honno;

(h) unrhyw gredyd treth plant y mae gan y dibynnydd hawlogaeth i'w gael o dan Ran 1 o Ddeddf Credydau Treth 2002(**59**);

(i) yn achos dibynnydd sydd â hawlogaeth i gael dyfarndal o gredyd cynhwysol o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2012(**60**)—

(i) unrhyw swm a gynhwysir wrth gyfrifo'r dyfarndal o dan reoliad 27(1) o Reoliadau Credyd Cynhwysol 2013(**61**), mewn cysylltiad â'r ffaith bod gan y dibynnydd allu cyfyngedig i weithio ac i wneud gweithgarwch cysylltiedig â gwaith,

(ii) unrhyw swm neu swm ychwanegol a gynhwysir wrth gyfrifo'r dyfarndal o dan reoliad 24 o'r Rheoliadau hynny (**62**) (elfen y plentyn).

(2) At ddibenion y paragraff hwn, trinnir taliadau a wneir i'r myfyriwr cymwys tuag at gynhaliaeth plentyn dibynnol fel incwm y plentyn dibynnol.

---

(**52**) 1992 p. 4.
(**53**) 2002 p. 38. Diwygiwyd adran 2 gan O.S. 2016/413 (Cy. 131). Diwygiwyd adran 4 gan O.S. 2010/1158; Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7), Atodlen 5, paragraffau 104 a 105; a chan S.I. 2013/160.
(**54**) Diwygiwyd adran 77 gan Ddeddf Budd-dal Plant 2005, adran 1(3), Atodlen 1, Rhan 1, paragraffau 1 a 4, Deddf Credydau Treth 2002, Atodlen 6, Deddf Partneriaeth Sifil 2004, adran 254(1), Atodlen 24, Rhan 3, paragraff 34.
(**55**) 1989 p. 41. Diwygiwyd adran 23 gan Ddeddf Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990 (p. 41), Atodlen 16, paragraff 12, Deddf Safonau Gofal 2000 (p. 14), Atodlen 4, paragraff 14, Deddf Plant 2004 (p. 31), adran 49(3), Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23), adrannau 8 a 39 ac Atodlen 3, paragraffau 1 a 7 a Deddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6), Atodlen 2, paragraff 30.
(**56**) 2014 dccc 4.
(**57**) Mewnosodwyd is-adrannau (5A) i (5C) o adran 23C o Ddeddf Plant 1989, o ran Lloegr, gan adran 21 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 ac mae O.S. 2009/268 ac O.S. 2009/2273 yn cyfeirio at hyn. Mewnosodwyd is-adrannau (5A) i (5C) yn adran 23C o ran Cymru ac mae O.S. 2010/1329 (Cy. 112) (C. 81) ac O.S. 2011/824 (Cy. 123) (C. 32) yn cyfeirio at hyn.
(**58**) Diwygiwyd adran 24 gan Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 (p. 35), adran 4(1), Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (p, 38), adran 139 ac Atodlen 3, paragraff 60, O.S. 2007/961 (Cy. 85), paragraff 20(2)(b), O.S. 2010/1158, Atodlen 2, paragraff 2, Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7), adran 55 ac Atodlen 5, paragraff 49 ac O.S. 2016/413 (Cy. 131), rheoliad 81.
(**59**) 2002 p. 21.
(**60**) 2012 p. 5.
(**61**) O.S. 2013/376. Diwygiwyd rheoliad 27 gan O.S. 2017/204, rheoliad 4.
(**62**) Mae rheoliad 24 o O.S. 2013/376, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2014/2088 a Deddf Diwygio Lles a Gwaith 2016 (p. 7), adran 14, yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch elfen y plentyn o ddyfarndal.

(3) Yn y paragraff hwn, ystyr "blwyddyn berthnasol" yw—

(a) mewn cysylltiad ag oedolyn dibynnol myfyriwr cymwys, y flwyddyn academaidd gyfredol;

(b) mewn cysylltiad â phlentyn dibynnol myfyriwr cymwys, y flwyddyn ariannol gymwys a benderfynir o dan baragraff 22.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I138** Atod. 3 para. 21 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Blynyddoedd ariannol cymwys: cyfrifo incwm net plant dibynnol myfyriwr cymwys**

**22.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn pennu'r flwyddyn ariannol gymwys at ddibenion cyfrifo incwm net plentyn dibynnol myfyriwr cymwys ("Pl").

(2) Oni bai bod paragraffau (3) neu (5) yn gymwys, y flwyddyn ariannol gymwys yw BF-1.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod incwm net Pl ar gyfer BG yn debygol o fod o leiaf 15% yn llai nag incwm net Pl ar gyfer BF-1, y flwyddyn ariannol gymwys yw BG.

(4) Mae is-baragraff (5) yn gymwys os y flwyddyn ariannol a oedd yn dechrau yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd flaenorol oedd y flwyddyn ariannol gymwys ar gyfer y flwyddyn academaidd flaenorol.

(5) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, mae'r flwyddyn ariannol gymwys i'w phenderfynu fel a ganlyn—

(a) os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod incwm net Pl ar gyfer BG yn debygol o fod o leiaf 15% yn llai nag incwm net Pl ar gyfer BF, y flwyddyn ariannol gymwys yw BG;

(b) fel arall, y flwyddyn ariannol gymwys yw BF.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I139** Atod. 3 para. 22 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 6

## Dehongli

**Dehongli**

**23.**—(1) Yn yr Atodlen hon, ystyr unrhyw gyfeiriad at bartner person ("A") yw—

(a) priod neu bartner sifil A; neu

(b) person sy'n byw fel arfer gydag A fel pe bai'r person yn briod neu'n bartner sifil A.

(2) Yn yr Atodlen hon—

ystyr "BF" ("*PY*") yw'r flwyddyn ariannol yn union cyn BG;

ystyr "BF-1" ("*PY-1*") yw'r flwyddyn ariannol yn union cyn BF;

ystyr "BG" ("*CY*") yw'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyfredol;

ystyr "blwyddyn academaidd gyfredol" ("*current academic year*") yw blwyddyn academaidd y cwrs presennol y mae'r myfyriwr cymwys yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi;

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw'r cyfnod o ddeuddeng mis y cyfrifiennir incwm person mewn cysylltiad ag ef at ddibenion y ddeddfwriaeth treth incwm sy'n gymwys iddo;

ystyr "blwyddyn ariannol gymwys" ("*applicable financial year*") yw'r flwyddyn ariannol y penderfynir arni yn unol â pharagraff 16 neu 22;

ystyr "corff cyhoeddus" ("*public body*") yw awdurdod neu asiantaeth i'r wladwriaeth, boed yn genedlaethol, yn rhanbarthol neu'n lleol;

ystyr "gorchymyn trefniadau pensiwn" ("*pension arrangements order*") yw gorchymyn y mae person yn talu odano fudd-daliadau o dan drefniant pensiwn i berson arall o dan—

(a) adran 23 o Ddeddf Achosion Priodasol 1973(**63**) sy'n cynnwys darpariaeth a wneir yn rhinwedd adran 25B(4) (a chan gynnwys gorchymyn o'r fath fel y gall gael effaith yn rhinwedd adran 25E(3) o'r Ddeddf honno)(**64**), neu

(b) Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004(**65**) sy'n cynnwys darpariaeth a wneir yn rhinwedd Rhan 6 o'r Atodlen honno (a chan gynnwys gorchymyn o'r fath fel y gall gael effaith yn rhinwedd Rhan 7 o'r Atodlen honno).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I140** Atod. 3 para. 23 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

ATODLEN 4 — Rheoliad 98

Grant myfyriwr ôl-raddedig anabl

## Grant myfyriwr ôl-raddedig anabl

**1.**—(1) Mae grant myfyriwr ôl-raddedig anabl yn grant sy'n cael ei roi ar gael gan Weinidogion Cymru i fyfyriwr ôl-raddedig cymwys sydd ag anabledd er mwyn ei gynorthwyo gyda gwariant ychwanegol mewn cysylltiad â chostau byw y mae'n ofynnol i'r myfyriwr fynd iddynt mewn cysylltiad ag ymgymryd â chwrs ôl-radd dynodedig oherwydd anabledd y myfyriwr.

(2) Yn yr Atodlen hon, ystyr "cwrs ôl-radd presennol" yw'r cwrs y mae person yn gwneud cais am grant myfyriwr ôl-raddedig anabl mewn cysylltiad ag ef o dan baragraff 17.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I141** Atod. 4 para. 1 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

(**63**) 1973 p. 18, diwygiwyd adran 23 gan Ddeddf Gweinyddu Cyfiawnder 1982 (p. 53), adran 16.
(**64**) Mewnosodwyd adran 25B gan Ddeddf Pensiynau 1995 (p. 26), adran 166(1) ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio Lles a Phensiynau 1999 (p. 30), Atodlen 4. Mewnosodwyd adran 25E gan Ddeddf Pensiynau 2004 (p. 35), adran 319(1), Atodlen 12, paragraff 3 ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Pensiynau 2008 (p. 30), Atodlen 6, paragraffau 1 a 6 ac Atodlen 11, Rhan 4.
(**65**) 2004 p. 33; addaswyd paragraff 25 o Atodlen 5 gan O.S. 2006/1934 a diwygiwyd paragraff 30 o Atodlen 5 gan Ddeddf Pensiynau 2008 (p. 30), Atodlenni 6 ac 11.

**Cyrsiau ôl-radd dynodedig**

**2.**—(1) Yn yr Atodlen hon (ac at ddibenion adran 22 o Ddeddf 1998), mae cwrs yn gwrs ôl-radd dynodedig os yw'n bodloni pob un o'r amodau a ganlyn—

*Amod 1*

Fel arfer mae gradd gyntaf (neu gymhwyster cyfatebol) neu uwch yn ofynnol ar gyfer cael mynediad i'r cwrs.

*Amod 2*

Nid yw'r cwrs yn gwrs rhyngosod.

*Amod 3*

Hyd y cwrs yw o leiaf un flwyddyn academaidd.

***[**[F139]**Amod 4***

( a) pan fo'r cwrs yn dechrau cyn 1 Awst 2019, mae'n cael ei ddarparu gan sefydliad a oedd cyn 1 Awst 2019 yn sefydliad a gyllidir yn gyhoeddus;

(b) pan fo'r cwrs yn dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2019, mae'n cael ei ddarparu gan sefydliad a gyllidir gan Gymru, sefydliad a gyllidir gan yr Alban, sefydliad a gyllidir gan Ogledd Iwerddon neu sefydliad rheoleiddiedig Seisnig;**]**

*Amod 5*

Mae o leiaf hanner yr addysgu a'r goruchwylio sy'n ffurfio'r cwrs wedi ei ddarparu yn y Deyrnas Unedig.

*Amod 6*

Nid yw'r cwrs yn gwrs ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon neu'n gwrs a ddilynir fel rhan o gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth (o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 7(2)).

(2) At ddibenion Amod 4—

(a) mae cwrs wedi ei ddarparu gan sefydliad os yw'n darparu'r addysgu a'r goruchwylio sy'n ffurfio'r cwrs, pa un a yw'r sefydliad wedi ymrwymo i gytundeb â'r myfyriwr i ddarparu'r cwrs ai peidio;

(b) bernir bod prifysgol ac unrhyw goleg cyfansoddol neu sefydliad cyfansoddol sydd o natur coleg prifysgol yn **[**[F140]sefydliad a gyllidir yn gyhoeddus**]** os yw naill ai'r brifysgol neu'r coleg neu sefydliad cyfansoddol yn **[**[F140]sefydliad a gyllidir yn gyhoeddus**]** ;

**[**[F141](c) ni fernir bod sefydliad yn sefydliad a gyllidir yn gyhoeddus neu'n sefydliad a gyllidir gan Gymru dim ond oherwydd—

(i) pan fo'r cwrs yn dechrau cyn 1 Awst 2019, ei fod yn sefydliad cysylltiedig a gafodd daliad perthnasol cyn y dyddiad hwnnw, neu

(ii) pan fo'r cwrs yn dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2019, ei fod yn sefydliad cysylltiedig sy'n cael taliad perthnasol.**]**

**[**[F142](3) At ddibenion is-baragraff (2)—

(a) ystyr "sefydliad cysylltiedig" yw sefydliad cysylltiedig o fewn ystyr "connected institution" yn adran 65(3B) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992; a

(b) ystyr "taliad perthnasol" yw talu'r cyfan neu ran o unrhyw grant, benthyciad neu daliad arall gan gorff llywodraethu sefydliad a ddarperir i'r sefydliad cysylltiedig yn unol ag adran 65(3A) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F139** Geiriau yn Atod. 4 para. 2(1) wedi eu hamnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(3)(b) of the amending S.I.) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/235), rhlau. 1(3)(a), **57(a)**

**F140** Geiriau yn Atod. 4 para. 2(2) wedi eu hamnewid (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **17(a)**

**F141** Atod. 4 para. 2(2)(c) wedi ei amnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(3)(b) of the amending S.I.) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/235), rhlau. 1(3)(a), **57(b)**

**F142** Atod. 4 para. 2(3) wedi ei fewnosod (gyda chais yn unol â rhl. 1(3)(b) of the amending S.I.) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/235), rhlau. 1(3)(a), **57(c)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I142** Atod. 4 para. 2 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Dynodi cyrsiau ôl-radd eraill

**3.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru bennu bod cwrs ôl-radd i'w drin yn gwrs ôl-radd dynodedig er gwaethaf y ffaith na fyddai fel arall yn gwrs ôl-radd dynodedig, oni bai am y pennu.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru atal dros dro neu ddirymu pennu cwrs ôl-radd o dan is-baragraff (1).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I143** Atod. 4 para. 3 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Myfyrwyr ôl-raddedig cymwys

**4.**—(1) Mae person yn fyfyriwr ôl-raddedig cymwys mewn cysylltiad â chwrs ôl-radd dynodedig y mae'r person yn ymgymryd ag ef—

(a) os oes gan y person anabledd; a

(b) naill ai—

(i) os yw'r person yn dod o fewn un o'r categorïau o bersonau a nodir yn Atodlen 2 ac nad yw unrhyw un neu ragor o'r eithriadau a nodir ym mharagraff 5 o'r Atodlen hon yn gymwys i'r person, neu

(ii) os yw amgylchiadau'r person yn dod o fewn un o'r achosion a nodir ym mharagraff 6.

(2) Dim ond mewn cysylltiad ag un cwrs ôl-radd dynodedig y caiff person fod yn fyfyriwr ôl-raddedig cymwys ar unrhyw un adeg.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I144** Atod. 4 para. 4 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**5.**—(1) Nid yw person ("P") yn fyfyriwr ôl-raddedig cymwys os yw unrhyw un neu ragor o'r eithriadau a ganlyn yn gymwys—

*Eithriad 1*

Ar unrhyw un adeg, mae P hefyd yn cymhwyso i gael cymorth mewn cysylltiad â chwrs dynodedig yn rhinwedd y Rheoliadau hyn neu unrhyw reoliadau eraill a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998 oni bai bod y cwrs yn un y mae gradd gyntaf (neu gymhwyster cyfatebol) neu gymhwyster uwch yn ofyniad mynediad arferol ar ei gyfer.

*Eithriad 2*

Mewn cysylltiad â P yn ymgymryd â'r cwrs ôl-radd dynodedig, rhoddwyd i P neu talwyd iddo—

(a) bwrsari gofal iechyd,

(b) lwfans o dan Reoliadau Lwfansau Myfyrwyr Nyrsio a Bydwreigiaeth (Yr Alban) 2007,

(c) lwfans, bwrsari neu ddyfarndal o ddisgrifiad tebyg a wnaed gan y Cyngor Ymchwil, neu

(d) lwfans, bwrsari neu ddyfarndal o ddisgrifiad tebyg a wnaed—

(i) gan y sefydliad sy'n darparu'r cwrs,

(ii) o dan adran 67(4)(a) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 **[**[F143], neu o dan adran 46 o Ddeddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017,**]**(**66**), neu

(iii) o dan adran 116(2)(a) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**67**),

sy'n cynnwys unrhyw daliad at ddiben talu am wariant ychwanegol yr aeth P iddo oherwydd ei anabledd.

*Eithriad 3*

Mae P wedi torri rhwymedigaeth i ad-dalu benthyciad myfyriwr.

*Eithriad 4*

Mae P wedi cyrraedd 18 oed ac nid yw wedi dilysu cytundeb am fenthyciad myfyriwr a wnaed gyda P pan oedd P o dan 18 oed.

*Eithriad 5*

Mae Gweinidogion Cymru yn meddwl bod ymddygiad P o'r fath fel nad yw P yn addas i gael grant myfyriwr ôl-raddedig anabl.

*Eithriad 6*

Mae P yn garcharor.

Ond caiff P fod yn fyfyriwr ôl-raddedig cymwys er ei fod yn garcharor—

(a) os yw cais P am grant myfyriwr ôl-raddedig anabl mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd y mae P yn mynd i'r carchar neu'n cael ei ryddhau o'r carchar ynddi, neu

(b) os yw P wedi cael ei awdurdodi gan Lywodraethwr neu Gyfarwyddwr y carchar neu gan awdurdod priodol arall i astudio'r cwrs ôl-radd dynodedig a bod dyddiad rhyddhau cynharaf P o fewn 6 mlynedd i ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

*Eithriad 7*

Mae P yn fyfyriwr Categori 6 yn rhinwedd paragraff 6(1) o Atodlen 2 yn unig ac nid yw'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r categorïau eraill o fyfyrwyr cymwys a bennir yn yr Atodlen honno.

(2) Yn Eithriadau 3 a 4, ystyr "benthyciad myfyriwr" yw benthyciad a wneir o dan—

(a) Deddf Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) 1990;

(b) Deddf Addysg (Yr Alban) 1980;

(**66**) 2000 p. 14. Diwygiwyd adran 67(4) gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal (Cymru) 2016 (dccc 2), Atodlen 3, Rhan 2, paragraffau 40 a 43.
(**67**) 2016 dccc 2.

(c) Gorchymyn Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Gogledd Iwerddon) 1990;

(d) Gorchymyn Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Gogledd Iwerddon) 1998;

(e) rheoliadau a wneir o dan unrhyw un neu ragor o'r Deddfau neu'r Gorchmynion hynny;

(f) rheoliadau a wneir o dan Ddeddf 1998.

**Diwygiadau Testunol**

**F143** Geiriau yn Atod. 4 para 5(1)(d)(ii) wedi eu mewnosod (2.12.2019) gan The Children and Social Work Act 2017 (Consequential Amendments) (Social Workers) Regulations 2019 (O.S. 2019/1094), rhl. 1, **Atod. 3 para. 43(2)**; O.S. 2019/1436, **rhl. 2(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I145** Atod. 4 para. 5 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Diwygiadau Testunol**

**F143** Geiriau yn Atod. 4 para 5(1)(d)(ii) wedi eu mewnosod (2.12.2019) gan The Children and Social Work Act 2017 (Consequential Amendments) (Social Workers) Regulations 2019 (O.S. 2019/1094), rhl. 1, **Atod. 3 para. 43(2)**; O.S. 2019/1436, **rhl. 2(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I144** Atod. 4 para. 4 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**I145** Atod. 4 para. 5 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Myfyrwyr ôl-raddedig cymwys sy'n parhau ar gwrs

**6.**—(1) Mae person ("P")—

(a) sydd ag anabledd, a

(b) y mae ei amgylchiadau yn dod o fewn un o'r achosion a ganlyn,

yn fyfyriwr ôl-raddedig cymwys (yn unol â hynny, nid oes angen i P ddod o fewn unrhyw un o'r categorïau o fyfyrwyr cymwys a nodir yn Atodlen 2 ac nid yw'r eithriadau a nodir ym mharagraff 5 yn gymwys i P).

(2) Yr achosion yw—

*Achos 1*

(a) roedd P yn cymhwyso fel myfyriwr ôl-raddedig cymwys mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd gynharach o'r cwrs ôl-radd presennol, a

(b) roedd P yn preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs ôl-radd presennol.

*Achos 2*

(a) roedd P yn fyfyriwr ôl-raddedig cymwys mewn cysylltiad â chwrs ôl-radd dynodedig (y "cwrs cynharach") ac eithrio'r cwrs ôl-radd presennol,

(b) mae statws P fel myfyriwr ôl-raddedig cymwys mewn cysylltiad â'r cwrs cynharach wedi cael ei drosglwyddo i'r cwrs ôl-radd presennol (gweler paragraff 15),ac

(c) roedd P yn preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs cynharach.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I146** Atod. 4 para. 6 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Cyfnod cymhwystra

**7.**—(1) Cedwir statws myfyriwr fel myfyriwr ôl-raddedig cymwys mewn cysylltiad â chwrs ôl-radd dynodedig tan ddiwedd cyfnod cymhwystra'r myfyriwr oni bai bod ei statws wedi ei derfynu yn unol â pharagraff 9, 10, 12 neu 13.

(2) Daw cyfnod cymhwystra myfyriwr i ben ar ddiwedd y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr yn cwblhau'r cwrs ôl-radd dynodedig ynddi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I147** Atod. 4 para. 7 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Cyrsiau rhan-amser – dim cymhwystra am flynyddoedd o astudio dwysedd isel

**8.** Pan fo'r cwrs ôl-radd presennol yn gwrs rhan-amser, nid yw'r myfyriwr ôl-radd cymwys yn gymwys i gael grant myfyriwr ôl-raddedig anabl mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd pan fo'r dwysedd astudio ar gyfer y flwyddyn honno yn llai na 25% (gweler paragraff 5 o Atodlen 1 o ran sut i gyfrifo'r dwysedd astudio ar gyfer blwyddyn academaidd).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I148** Atod. 4 para. 8 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Terfynu cymhwystra yn gynnar

**9.** Mae cyfnod cymhwystra myfyriwr ôl-raddedig cymwys ("P") yn terfynu ar ddiwedd y diwrnod—

(a) pan fydd P yn tynnu'n ôl o'i gwrs ôl-radd dynodedig ac nad yw Gweinidogion Cymru yn trosglwyddo statws P fel myfyriwr ôl-raddedig cymwys o dan baragraff 15,

(b) pan fydd P yn cefnu ar ei gwrs ôl-radd dynodedig neu'n cael ei ddiarddel ohono, neu

(c) pan fydd P **[**[F144]hefyd yn cymhwyso i gael cymorth**]** mewn cysylltiad â chwrs dynodedig yn rhinwedd y Rheoliadau hyn neu unrhyw reoliadau eraill a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998 oni bai bod y cwrs yn un y mae gradd gyntaf (neu gymhwyster cyfatebol) neu gymhwyster uwch yn ofyniad mynediad arferol ar ei gyfer.

**Diwygiadau Testunol**

**F144** Geiriau yn Atod. 4 para. 9(c) wedi eu hamnewid (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **18(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I149** Atod. 4 para. 9 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Terfynu o ganlyniad i gamymddygiad neu fethu â darparu gwybodaeth gywir

**10.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru derfynu cyfnod cymhwystra myfyriwr ôl-raddedig cymwys os ydynt wedi eu bodloni bod ymddygiad y myfyriwr o'r fath fel nad yw'r myfyriwr yn addas mwyach i gael grant myfyriwr ôl-raddedig anabl.

(2) Mae is-baragraff (3) yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod myfyriwr cymwys—

(a) wedi methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan yr Atodlen hon i ddarparu gwybodaeth neu ddogfennaeth, neu

(b) wedi darparu gwybodaeth neu ddogfennaeth a oedd yn sylweddol anghywir.

(3) Pan fo'r is-baragraff hwn yn gymwys, caiff Gweinidogion Cymru—

(a) terfynu cyfnod cymhwystra'r myfyriwr;

(b) penderfynu nad yw'r myfyriwr yn cymhwyso i gael grant myfyriwr ôl-raddedig anabl neu swm o grant o'r fath y maent yn meddwl ei fod yn briodol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I150** Atod. 4 para. 10 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Adfer cymhwystra ar ôl iddo gael ei derfynu

**11.**—(1) Pan fo cyfnod cymhwystra myfyriwr yn terfynu o dan baragraff 9 neu 10 yn ystod y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr yn cwblhau'r cwrs ôl-radd presennol ynddi, caiff Gweinidogion Cymru adfer cyfnod cymhwystra'r myfyriwr am unrhyw gyfnod y maent yn meddwl ei fod yn briodol.

(2) Ond ni chaniateir i gyfnod cymhwystra sydd wedi ei adfer estyn y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr yn cwblhau'r cwrs ôl-radd dynodedig ynddi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I151** Atod. 4 para. 11 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Ffoaduriaid y mae eu caniatâd i aros wedi dod i ben

**12.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) pan oedd person ("P") yn fyfyriwr ôl-raddedig cymwys categori 2 (gweler Atodlen 2) mewn cysylltiad â chais am grant myfyriwr ôl-raddedig anabl—

(i) ar gyfer blwyddyn gynharach o'r cwrs ôl-radd presennol, neu

(ii) mewn cysylltiad â chwrs y mae statws P fel myfyriwr ôl-raddedig cymwys wedi cael ei drosglwyddo ohono i'r cwrs presennol o dan baragraff 15, a

(b) pan, ar ddiwedd y diwrnod cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am grant myfyriwr ôl-raddedig anabl mewn cysylltiad â hi, fo statws ffoadur—

(i) P, neu

(ii) y person yr oedd ei statws fel ffoadur yn golygu bod P yn fyfyriwr ôl-raddedig cymwys categori 2,

wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i aros wedi cael ei roi ac nad oes apêl yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002).

(2) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, mae statws P fel myfyriwr ôl-raddedig cymwys yn terfynu yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am grant myfyriwr ôl-raddedig anabl mewn cysylltiad â hi.

(3) Yn y paragraff hwn, mae i "ffoadur" yr ystyr a roddir gan baragraff 11 o Atodlen 2.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I152** Atod. 4 para. 12 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**[F145 Personau y mae eu caniatâd i aros fel personau diwladwriaeth wedi dod i ben**

**12A.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) pan oedd person ("P") yn fyfyriwr ôl-raddedig cymwys categori 2A (gweler Atodlen 2) mewn cysylltiad â chais am grant myfyriwr ôl-raddedig anabl—

(i) ar gyfer blwyddyn gynharach o'r cwrs ôl-radd presennol, neu

(ii) mewn cysylltiad â chwrs y mae statws P fel myfyriwr ôl-raddedig cymwys wedi cael ei drosglwyddo ohono i'r cwrs ôl-radd presennol o dan baragraff 15, a

(b) pan, ar ddiwedd y diwrnod cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am grant myfyriwr ôl-raddedig anabl mewn cysylltiad â hi, fo'r cyfnod y caiff—

(i) P, neu

(ii) y person, oherwydd ei fod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth, a oedd yn peri i P fod yn fyfyriwr ôl-raddedig cymwys Categori 2A,

aros yn y Deyrnas Unedig wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i aros wedi cael ei roi ac nad oes cais am adolygiad gweinyddol yn unol â'r rheolau mewnfudo yn yr arfaeth.

(2) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, mae statws P fel myfyriwr ôl-raddedig cymwys yn terfynu yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am grant myfyriwr ôl-raddedig anabl mewn cysylltiad â hi.**]**

**Diwygiadau Testunol**
**F145** Atod. 4 para. 12A wedi ei fewnosod (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **17(b)**

**Personau eraill y mae eu caniatâd i ddod i mewn neu i aros wedi dod i ben**

**13.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) pan oedd person ("P") **[F146** yn fyfyriwr ôl-raddedig cymwys categori 3 neu'n fyfyriwr ôl-raddedig cymwys ar sail diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo (gweler Atodlen 2)**]** mewn cysylltiad â chais am grant myfyriwr ôl-raddedig anabl—

(i) ar gyfer blwyddyn gynharach o'r cwrs ôl-radd presennol, neu

(ii) mewn cysylltiad â chwrs y mae statws P fel myfyriwr ôl-raddedig cymwys wedi cael ei drosglwyddo ohono i'r cwrs ôl-radd presennol o dan baragraff 15, a

(b) pan, ar ddiwedd y diwrnod cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am grant myfyriwr ôl-raddedig anabl mewn cysylltiad â hi, fo'r cyfnod y caiff—

(i) P, neu

(ii) y person, oherwydd bod ganddo ganiatâd i ddod i mewn neu i aros, a oedd yn peri i P fod **[**[F147]neu'n fyfyriwr ôl-raddedig cymwys ar sail diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo**]** ,

aros yn y Deyrnas Unedig wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i aros wedi cael ei roi ac nad oes apêl yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002).

(2) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, mae statws P fel myfyriwr ôl-raddedig cymwys yn terfynu yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am grant myfyriwr ôl-raddedig anabl mewn cysylltiad â hi.

**Diwygiadau Testunol**

**F146** Geiriau yn Atod. 4 para. 13(1)(a) wedi eu hamnewid (28.1.2021) gan Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/9), rhlau. 1(2), **49(a)**

**F147** Geiriau yn Atod. 4 para. 13(1)(b)(ii) wedi eu mewnosod (28.1.2021) gan Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/9), rhlau. 1(2), **49(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I153** Atod. 4 para. 13 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### [[F148]Personau y mae eu caniatâd i aros o dan adran 67 wedi dod i ben

**13A.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) pan oedd person ("P") yn fyfyriwr ôl-raddedig cymwys categori 3A (gweler Atodlen 2) mewn cysylltiad â chais am grant myfyriwr ôl-raddedig anabl—

(i) ar gyfer blwyddyn gynharach o'r cwrs ôl-radd presennol, neu

(ii) mewn cysylltiad â chwrs y mae statws P fel myfyriwr ôl-raddedig cymwys wedi cael ei drosglwyddo ohono i'r cwrs ôl-radd presennol o dan baragraff 15, a

(b) pan, ar ddiwedd y diwrnod cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am grant myfyriwr ôl-raddedig anabl mewn cysylltiad â hi, fo'r cyfnod y caiff—

(i) P, neu

(ii) y person, oherwydd ei fod yn berson sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67, a oedd yn peri i P fod yn fyfyriwr ôl-raddedig cymwys categori 3A,

aros yn y Deyrnas Unedig wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i aros wedi cael ei roi ac nad oes apêl yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002).

(2) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, mae statws P fel myfyriwr ôl-raddedig cymwys yn terfynu yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae P yn gwneud cais am grant myfyriwr ôl-raddedig anabl mewn cysylltiad â hi.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F148** Atod. 4 para. 13A wedi ei fewnosod (gyda chais yn unol â rhl. 1(3)(b) of the amending S.I.) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/235), rhlau. 1(3)(a), **57(d)**

**Dod yn gymwys yn ystod blwyddyn academaidd**

**14.**—(1) Pan fo un o'r digwyddiadau ym mharagraff (3) yn digwydd, caiff y myfyriwr ddod yn gymwys i gael grant myfyriwr ôl-raddedig anabl.

(2) Ond ni fydd swm y grant sy'n daladwy i'r myfyriwr ôl-raddedig cymwys ond mewn cysylltiad â'r **[**[F149]flwyddyn academaidd o'r dyddiad y mae'r digwyddiad perthnasol yn digwydd**]**.

(3) Y digwyddiadau yw—

(a) bod cwrs y myfyriwr yn dod yn gwrs ôl-radd dynodedig;

(b) bod y myfyriwr yn dod yn fyfyriwr ôl-raddedig cymwys ar y sail–

**[**[F150](i) bod y myfyriwr neu ei briod, ei bartner sifil neu ei riant yn cael ei gydnabod yn ffoadur, yn dod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth, yn dod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu'n dod yn berson y rhoddwyd diogelwch dyngarol iddo o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo;**]**

**[**[F151](ia) bod y myfyriwr neu riant y myfyriwr yn dod yn berson sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67;**]**

(ii) bod y myfyriwr yn wladolyn o wladwriaeth sy'n ymaelodi â'r Undeb Ewropeaidd pan fo'r myfyriwr wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(iii) bod y myfyriwr yn caffael yr hawl i breswylio'n barhaol;

(iv) bod y myfyriwr yn dod yn blentyn i weithiwr Twrcaidd;

(v) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 4(1)(a) o Atodlen 2;

(vi) bod y myfyriwr yn dod yn blentyn i wladolyn Swisaidd.

(4) Yn is-baragraff (3) mae i'r termau a ganlyn yr un ystyr ag yn Atodlen 2—

"ffoadur" ("*refugee*");

"gweithiwr Twrcaidd" ("*Turkish worker*");

"hawl i breswylio'n barhaol" ("*right of permanent residence*");

**[**[F152]"person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67" ("*person with section 67 leave to remain*");**]**

"person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros" ("*person with leave to enter or remain*");

**[**[F153]"person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth" ("*person granted stateless leave*");**]**

"plentyn" ("*child*");

**[**[F154]"rheolau mewnfudo" ("*immigration rules*");**]**

"rhiant" ("*parent*").

**Diwygiadau Testunol**

**F149** Geiriau yn Atod. 4 para. 14(2) wedi eu hamnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(2) o'r O.S. diwygio) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 11(a)**

**F150** Atod. 4 para. 14(3)(b)(i) wedi ei amnewid (28.1.2021) gan Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/9), rhlau. 1(2), **50(a)**

**F151** Atod. 4 para. 14(3)(b), (ia) wedi ei fewnosod (gyda chais yn unol â rhl. 1(3)(b) of the amending S.I.) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/235), rhlau. 1(3)(a), **57(e)**

**F152** Geiriau yn Atod. 4 para. 14(4) wedi eu mewnosod (gyda chais yn unol â rhl. 1(3)(b) of the amending S.I.) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/235), rhlau. 1(3)(a), **57(f)**

**F153** Geiriau yn Atod. 4 para. 14(4) wedi eu mewnosod (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **17(d)**

**F154** Geiriau yn Atod. 4 para. 14(4) wedi eu mewnosod (28.1.2021) gan Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/9), rhlau. 1(2), **50(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I154** Atod. 4 para. 14 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Trosglwyddo rhwng cyrsiau ôl-radd**

**15.**—(1) Pan fo myfyriwr ôl-raddedig cymwys yn trosglwyddo o gwrs ôl-radd dynodedig i gwrs ôl-radd dynodedig arall, rhaid i Weinidogion Cymru drosglwyddo statws y myfyriwr fel myfyriwr ôl-raddedig cymwys i'r cwrs arall—

(a) os cânt gais oddi wrth y myfyriwr i wneud hynny,

(b) os ydynt wedi eu bodloni bod un o'r seiliau trosglwyddo yn gymwys (gweler is-baragraff (2)), ac

(c) os nad yw cyfnod cymhwystra'r myfyriwr wedi dod i ben nac wedi cael ei derfynu.

(2) Y seiliau trosglwyddo yw—

*Y sail gyntaf*

Mae'r myfyriwr ôl-raddedig cymwys yn peidio ag ymgymryd ag un cwrs ôl-radd dynodedig ac yn ymgymryd â chwrs ôl-radd dynodedig arall yn yr un sefydliad.

*Yr ail sail*

Mae'r myfyriwr ôl-raddedig cymwys yn ymgymryd â chwrs ôl-radd dynodedig mewn sefydliad arall.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I155** Atod. 4 para. 15 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Effaith y trosglwyddo**

**16.**—(1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn trosglwyddo statws myfyriwr ôl-raddedig cymwys ("P") o dan baragraff 15—

(a) cânt ailasesu swm y grant myfyriwr ôl-raddedig anabl sy'n daladwy i P ar ôl y trosglwyddo;

(b) ond os na wneir ailasesiad, mae gan P hawlogaeth, mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd y cwrs y mae P yn trosglwyddo iddo, i gael gweddill y grant myfyriwr ôl-raddedig anabl yr asesodd Gweinidogion Cymru fod gan P hawlogaeth i'w gael mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd y cwrs y trosglwyddodd P ohono.

(2) Pan fo myfyriwr ôl-raddedig cymwys ("P") yn trosglwyddo—

(a) ar ôl i Weinidogion Cymru asesu hawlogaeth P i gael grant myfyriwr ôl-raddedig anabl mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd y cwrs y trosglwyddodd P ohono, ond

(b) cyn i P gwblhau'r flwyddyn honno,

ni chaiff P wneud cais am grant myfyriwr ôl-raddedig anabl mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd honno mewn cysylltiad â'r cwrs y mae P wedi trosglwyddo iddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I156** Atod. 4 para. 16 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Ceisiadau a phenderfyniadau

**17.**—(1) Nid yw person yn cymhwyso i gael grant myfyriwr ôl-raddedig anabl mewn perthynas â blwyddyn academaidd oni bai bod y person yn gwneud cais am y grant mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd honno.

(2) Rhaid i gais o dan is-baragraff (1)—

(a) bod ar y ffurf honno a chynnwys yr wybodaeth honno a bennir gan Weinidogion Cymru,

(b) cynnwys unrhyw ddogfennaeth sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru, ac

(c) cyrraedd Gweinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I157** Atod. 4 para. 17 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**18.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru gymryd unrhyw gamau a gwneud unrhyw ymholiadau y maent yn meddwl eu bod yn angenrheidiol er mwyn gwneud penderfyniad ar gais.

(2) Caiff y camau hynny gynnwys ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd ddarparu gwybodaeth neu ddogfennaeth bellach.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru wneud penderfyniad dros dro ar gais (gweler paragraff 21 ar gyfer darpariaeth ynghylch taliadau a wneir ar sail penderfyniad dros dro).

(4) Caniateir i benderfyniad a wneir gan Weinidogion Cymru ar ôl i benderfyniad dros dro gael ei wneud—

(a) cadarnhau'r penderfyniad dros dro, neu

(b) rhoi penderfyniad gwahanol yn ei le.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r ceisydd am benderfyniad (gan gynnwys penderfyniad dros dro) ar gais.

(6) Rhaid i'r hysbysiad ddatgan—

(a) a yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y ceisydd yn fyfyriwr ôl-raddedig cymwys,

(b) os felly, a yw'r myfyriwr ôl-raddedig cymwys yn cymhwyso i gael grant myfyriwr ôl-raddedig anabl mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd,

(c) os yw'r myfyriwr yn cymhwyso i'w gael, y swm sy'n daladwy mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd,

(d) dadansoddiad sy'n pennu symiau'r grant sy'n daladwy mewn cysylltiad â phob **[**[F155]math o wariant**]** a grybwyllir ym mharagraff 20(2), ac

(e) yn achos penderfyniad dros dro, y ffaith bod y penderfyniad yn un dros dro a chanlyniadau'r ffaith honno.

**Diwygiadau Testunol**

**F155** Geiriau yn Atod. 4 para. (6)(d) wedi eu amnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(2) o'r O.S. diwygio) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 11(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I158** Atod. 4 para. 18 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Diwygiadau Testunol**

**F155** Geiriau yn Atod. 4 para. (6)(d) wedi eu amnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(2) o'r O.S. diwygio) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 11(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I157** Atod. 4 para. 17 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**I158** Atod. 4 para. 18 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Gofynion ar fyfyrwyr ôl-radd cymwys i ddarparu gwybodaeth

**19.**—(1) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael cais i wneud hynny, rhaid i fyfyriwr ôl-raddedig cymwys ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth neu ddogfennaeth sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru iddynt ei chael at ddibenion yr Atodlen hon.

(2) Pan fo digwyddiad a grybwyllir ym mharagraff (3) yn digwydd mewn cysylltiad â myfyriwr ôl-raddedig cymwys, rhaid i'r myfyriwr hysbysu Gweinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y digwyddiad.

(3) Y digwyddiadau yw—

(a) bod y myfyriwr yn tynnu'n ôl o'r cwrs ôl-radd presennol, yn cefnu arno neu'n cael ei ddiarddel ohono;

(b) bod y myfyriwr yn trosglwyddo i gwrs ôl-radd arall (pa un ai yn yr un sefydliad neu mewn sefydliad gwahanol);

(c) bod y myfyriwr fel arall yn peidio ag ymgymryd â'r cwrs ôl-radd presennol ac nad yw'n bwriadu parhau ag ef am weddill y flwyddyn academaidd neu na chaniateir iddo barhau ag ef am weddill y flwyddyn academaidd;

(d) bod y myfyriwr yn absennol o'r cwrs ôl-radd presennol—

(i) am fwy na 60 diwrnod oherwydd salwch, neu

(ii) am unrhyw gyfnod am unrhyw reswm arall;

(e) bod y mis ar gyfer dechrau ar y cwrs ôl-radd presennol neu ei gwblhau yn newid;

(f) bod y manylion a ganlyn, sef—

(i) cyfeiriad cartref y myfyriwr neu ei gyfeiriad yn ystod y tymor,

(ii) rhif ffôn cartref y myfyriwr neu ei rif ffôn yn ystod y tymor, neu

(iii) cyfeiriad e-bost cartref y myfyriwr neu ei gyfeiriad e-bost yn ystod y tymor,

yn newid.

(4) Rhaid darparu gwybodaeth neu ddogfennaeth y mae'n ofynnol iddi gael ei darparu i Weinidogion Cymru o dan yr Atodlen hon ar y ffurf honno a bennir gan Weinidogion Cymru.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol bod rhaid llofnodi—

(a) cais o dan baragraff 17;

(b) unrhyw ddogfennaeth arall a ddarperir iddynt o dan yr Atodlen hon,

yn y modd (gan gynnwys ar ffurf electronig) a bennir ganddynt.

(6) Mae'r cyfeiriad at fyfyriwr ôl-raddedig cymwys yn is-baragraff (1) i'w drin fel pe bai'n cynnwys person sy'n gwneud cais o dan baragraff 17 hyd yn oed os penderfyniad Gweinidogion Cymru ar y cais yw nad yw'r person yn fyfyriwr ôl-raddedig cymwys.

(7) Gweler paragraff 10 am ddarpariaeth ynghylch canlyniadau methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan y paragraff hwn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I159** Atod. 4 para. 19 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Swm grant myfyriwr ôl-raddedig anabl

**[**[F156]**20.**—(1) Swm y grant myfyriwr ôl-raddedig anabl sy'n daladwy i fyfyriwr ôl-raddedig cymwys mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd yw'r swm—

(a) y mae Gweinidogion Cymru yn meddwl ei fod yn briodol, ond

(b) nad yw'n fwy na swm cyfanredol y terfynau sy'n gymwys mewn cysylltiad â'r Achosion a restrir yn is-baragraff (2).**]**

**[**[F157](2) Yr Achosion a'r terfynau yw—

*Achos 1*

Gwariant sy'n ofynnol ar gynorthwyydd personol anfeddygol, eitemau mawr o offer arbenigol ac unrhyw wariant arall y mae'r myfyriwr ôl-raddedig cymwys yn mynd iddo mewn cysylltiad â'r cwrs oherwydd anabledd y myfyriwr (ar wahân i'r gwariant a bennir yn Achos 2).

Terfyn o £31,831 mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd o gwrs.

*Achos 2*

Gwariant ychwanegol yr eir iddo—

(a) o fewn y Deyrnas Unedig at ddiben bod yn bresennol mewn sefydliad, a

(b) o fewn y Deyrnas Unedig neu'r tu allan iddi at ddiben bod yn bresennol, fel rhan o'r cwrs presennol, am unrhyw gyfnod o astudio mewn sefydliad tramor (gan gynnwys Sefydliad Prifysgol Llundain ym Mharis).

Wedi ei gyfyngu i'r gwariant gwirioneddol yr eir iddo at y diben hwn.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F156** Atod. 4 para. 20(1) wedi ei amnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(2) o'r O.S. diwygio) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 11(c)(i)**

**F157** Atod. 4 para. 20(2) wedi ei amnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(2) o'r O.S. diwygio) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 11(c)(ii)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I160** Atod. 4 para. 20 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Talu

**21.**—(1) Mae grant myfyriwr ôl-raddedig anabl yn daladwy mewn cysylltiad â phedwar chwarter y flwyddyn academaidd.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru dalu grant myfyriwr ôl-raddedig anabl mewn unrhyw randaliadau (os bydd rhandaliadau) ac ar unrhyw adegau y maent yn meddwl eu bod yn briodol.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, os ydynt yn meddwl bod hynny'n briodol, dalu unrhyw swm o'r grant myfyriwr ôl-raddedig anabl sy'n daladwy at ddiben cynorthwyo gyda gwariant ar eitemau mawr o offer arbenigol mewn un taliad mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd gyfan.

(4) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad dros dro ar gais am grant myfyriwr ôl-raddedig anabl, caiff Gweinidogion Cymru wneud taliad sy'n seiliedig ar y penderfyniad hwnnw.

(5) Os yw Gweinidogion Cymru yn meddwl ei bod yn briodol gwneud taliadau drwy drosglwyddo'r taliadau i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu, cânt ei gwneud yn ofynnol i fyfyriwr ôl-raddedig cymwys ddarparu manylion unrhyw gyfrif o'r fath yn y Deyrnas Unedig y caniateir i daliadau gael eu gwneud iddo.

(6) Os yw'r gofyniad hwnnw wedi ei osod, ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw daliad o'r grant myfyriwr ôl-raddedig anabl hyd nes bod y myfyriwr ôl-raddedig cymwys wedi cydymffurfio.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I161** Atod. 4 para. 21 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Gordaliadau

**22.**—(1) Pan fo myfyriwr ôl-raddedig cymwys wedi cael taliad o'r grant myfyriwr ôl-raddedig anabl sy'n fwy na'r swm y mae hawlogaeth ganddo i'w gael, rhaid i'r myfyriwr ad-dalu'r swm dros ben os yw Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny.

(2) Yn y paragraff hwn, mae cyfeiriadau at fyfyriwr ôl-raddedig cymwys i'w trin fel pe baent yn cynnwys person sydd wedi cael swm o'r grant myfyriwr ôl-raddedig anabl ond nad yw, neu nad yw mwyach, yn fyfyriwr ôl-raddedig cymwys.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru adennill unrhyw ordaliad o grant myfyriwr ôl-raddedig anabl oni bai eu bod yn meddwl nad yw'n briodol gwneud hynny.

(4) Mae taliad o grant myfyriwr ôl-raddedig anabl sydd wedi ei wneud cyn y diwrnod y mae'r cwrs yn dechrau arno yn ordaliad os yw'r myfyriwr ôl-raddedig cymwys yn tynnu'n ôl o'r cwrs cyn y diwrnod hwnnw.

(5) Mae taliad o grant myfyriwr ôl-raddedig anabl yn ordaliad os yw'r naill neu'r llall o'r achosion a ganlyn yn gymwys—

*Achos 1*

Mae swm o'r grant wedi ei dalu at ddiben cynorthwyo gyda gwariant ar eitemau mawr o offer arbenigol, ond nid yw'r offer wedi eu danfon at y myfyriwr ôl-raddedig cymwys cyn i gyfnod cymhwystra'r myfyriwr ddod i ben neu gael ei derfynu.

*Achos 2*

Mae swm o'r grant at ddiben cynorthwyo gyda gwariant ar eitemau mawr o offer arbenigol yn cael ei dalu ar ôl i gyfnod cymhwystra'r myfyriwr ôl-raddedig cymwys ddod i ben neu gael ei derfynu.

(6) Caniateir adennill gordaliad o grant myfyriwr ôl-raddedig anabl drwy ddidynnu'r gordaliad o unrhyw grant sy'n daladwy i'r myfyriwr ôl-raddedig cymwys o bryd i'w gilydd o dan y Rheoliadau hyn neu unrhyw reoliadau eraill a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 22 o Ddeddf 1998.

(7) Pan—

(a) bo gordaliad o grant myfyriwr ôl-raddedig anabl, a

(b) bo unrhyw swm o'r grant wedi ei dalu at ddiben cynorthwyo gyda gwariant ar eitemau mawr o offer arbenigol,

caiff Gweinidogion Cymru dderbyn offer arbenigol yn ôl fel modd i adennill y cyfan neu ran o'r gordaliad.

(8) Nid yw is-baragraffau (6) a (7) yn rhwystro Gweinidogion Cymru rhag adennill gordaliad drwy unrhyw ddull arall sydd ar gael iddynt.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I162** Atod. 4 para. 22 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

## ATODLEN 5

Rheoliad 99

Benthyciadau at ffioedd colegau Oxbridge

### Benthyciadau at ffioedd colegau Oxbridge

**1.**—(1) Mae benthyciad at ffioedd colegau Oxbridge yn fenthyciad sy'n cael ei roi ar gael gan Weinidogion Cymru i fyfyriwr Oxbridge cymwys ar gyfer talu ffioedd coleg mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd o gwrs Oxbridge dynodedig.

(2) Ystyr "ffioedd coleg" yw'r ffioedd sy'n daladwy gan fyfyriwr Oxbridge cymwys i un o golegau neu neuaddau preifat parhaol Prifysgol Rhydychen, neu i un o golegau Prifysgol Caergrawnt, mewn cysylltiad â myfyriwr yn ymgymryd â chwrs Oxbridge dynodedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I163** Atod. 5 para. 1 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Cyrsiau Oxbridge dynodedig

**2.** Mae cwrs yn gwrs Oxbridge dynodedig os yw'n bodloni pob un o'r amodau a ganlyn—

*Amod 1*

Mae'r cwrs yn gwrs dynodedig (gweler Pennod 1 o Ran 4).

*Amod 2*

Mae'n gwrs llawnamser.

*Amod 3*

Mae wedi ei ddarparu gan Brifysgol Rhydychen neu Brifysgol Caergrawnt.

*Amod 4*

Mae'r cwrs naill ai—

(a) yn arwain at gymhwyso yn—

(i) gweithiwr cymdeithasol,

(ii) meddyg,

(iii) deintydd,

(iv) milfeddyg, neu

(v) pensaer, neu

(b) yn gwrs pan fo o leiaf un flwyddyn academaidd yn un y mae'r myfyriwr Oxbridge cymwys yn gymwys mewn perthynas â hi i wneud cais am—

(i) bwrsari neu ddyfarndal o ddisgrifiad tebyg o dan adran 63 o Ddeddf Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd 1968 neu Erthygl 44 o Orchymyn Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 1972, neu

(ii) lwfans gofal iechyd yr Alban,

ar yr amod bod y bwrsari neu'r dyfarndal tebyg neu'r lwfans wedi ei gyfrifo drwy gyfeirio at incwm y myfyriwr (pa un a yw swm y cyfrifiad yn cyfateb i ddim ai peidio).

*Amod 5*

Nid yw'r cwrs yn gwrs dysgu o bell (ond gweler paragraff 3(4)).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I164** Atod. 5 para. 2 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Myfyrwyr Oxbridge cymwys**

**3.**—(1) Mae person ("P") yn fyfyriwr Oxbridge cymwys—

(a) os yw'n bodloni pob un o'r amodau yn is-baragraff (2), a

(b) os nad yw'n dod o fewn yr eithriad yn is-baragraff (3).

(2) Yr amodau yw—

*Amod 1*

Mae P yn fyfyriwr cymwys (gweler Adran 1 o Bennod 2 o Ran 4).

*Amod 2*

Mae gan P radd anrhydedd o sefydliad yn y Deyrnas Unedig.

*Amod 3*

Mae P yn ymgymryd â chwrs Oxbridge dynodedig.

*Amod 4*

Mae P yn aelod—

(a) o un o golegau neu neuaddau preifat parhaol Prifysgol Rhydychen, neu

(b) o un o golegau Prifysgol Caergrawnt.

*Amod 5*

Mae P o dan 60 oed ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs Oxbridge dynodedig.

(3) Yr eithriad yw bod P yn preswylio fel arfer yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

(4) Er gwaethaf Amod 5 o baragraff 2, mae P yn fyfyriwr Oxbridge cymwys—

(a) os oes ganddo anabledd,

(b) os yw'n ymgymryd â chwrs Oxbridge dynodedig yn y Deyrnas Unedig,

(c) os nad yw'n bresennol ar y cwrs oherwydd ei anabledd, a

(d) os yw fel arall yn bodloni'r meini prawf a nodir yn is-baragraff (1).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I165** Atod. 5 para. 3 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Myfyrwyr sy'n dod yn gymwys yn ystod blwyddyn academaidd**

**4.**—(1) Pan fo myfyriwr yn dod yn fyfyriwr cymwys am fod un o'r digwyddiadau a restrir yn is-baragraff (2) yn digwydd yn ystod blwyddyn academaidd, caiff y myfyriwr gymhwyso i gael benthyciad at ffioedd colegau Oxbridge yn unol â'r Atodlen hon mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd honno ar yr amod i'r digwyddiad ddigwydd o fewn tri mis cyntaf y flwyddyn academaidd.

(2) Y digwyddiadau yw—

[F158(a) bod y myfyriwr neu ei briod, ei bartner sifil neu ei riant yn cael ei gydnabod yn ffoadur, yn dod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth, yn dod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu'n dod yn berson y rhoddwyd diogelwch dyngarol iddo o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo;]

[F159(aa) bod y myfyriwr neu riant y myfyriwr yn dod yn berson sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67;]

(b) bod gwladwriaeth yn ymaelodi â'r Undeb Ewropeaidd pan fo'r myfyriwr yn wladolyn o'r wladwriaeth honno neu'n aelod o deulu gwladolyn o'r wladwriaeth honno;

(c) bod y myfyriwr yn dod yn aelod o deulu gwladolyn UE [F160neu berson sy'n gymwys o dan baragraff 6(1) o Atodlen 2 yn rhinwedd paragraff 6(1A) o'r Atodlen honno ac eithrio fel aelod o'r teulu] ;

[F161(d) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 1(2)(a) o Atodlen 2;]

(e) bod y myfyriwr yn dod yn blentyn i weithiwr Twrcaidd;

(f) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 4(1)(a) o Atodlen 2;

(g) bod y myfyriwr yn dod yn blentyn i wladolyn Swisaidd.

(3) Yn is-baragraff (2) mae i'r termau a ganlyn yr un ystyr ag yn Atodlen 2—

"aelod o deulu"("*family member*") (o fewn yr ystyr a roddir gan baragraff 6(5) o Atodlen 2); (within the meaning given by paragraph 6(5) of Schedule 2);

"ffoadur" ("*refugee*");

"gweithiwr Twrcaidd" ("*Turkish worker*");

"hawl i breswylio'n barhaol" ("*right of permanent worker*");

[F162"person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67" ("*person with section 67 leave to remain*");]

"person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros" ("*person with leave to enter or remain*";

[F163"person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth" ("*person granted stateless leave*");]

"plentyn" ("*child*");

[F164"rheolau mewnfudo" ("*immigration rules*");]

"rhiant" ("*parent*").

**Diwygiadau Testunol**

**F158** Atod. 5 para. 4(2)(a) wedi ei amnewid (28.1.2021) gan Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/9), rhlau. 1(2), **51(a)**

**F159** Atod. 5 para. 4(2)(aa) wedi ei fewnosod (gyda chais yn unol â rhl. 1(3)(b) of the amending S.I.) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/235), rhlau. 1(3)(a), **58(a)**

**F160** Geiriau yn Atod. 5 para. 4(2)(c) wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **33(2)(a)**

**F161** Atod. 5 para. 4(2)(d) wedi ei amnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1302), rhlau. 1(3), **33(2)(b)**

**F162** Geiriau yn Atod. 5 para. 4(3) wedi eu mewnosod (gyda chais yn unol â rhl. 1(3)(b) of the amending S.I.) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/235), rhlau. 1(3)(a), **58(b)**

**F163** Geiriau yn Atod. 5 para. 4(3) wedi eu mewnosod (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **19(b)**

**F164** Geiriau yn Atod. 5 para. 4(3) wedi eu mewnosod (28.1.2021) gan Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/9), rhlau. 1(2), **51(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I166** Atod. 5 para. 4 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Cyfnod cymhwystra

**5.**—(1) Mae benthyciad at ffioedd colegau Oxbridge ar gael mewn cysylltiad â phob blwyddyn academaidd safonol o'r cwrs Oxbridge dynodedig ac mewn cysylltiad ag un flwyddyn academaidd o'r cwrs nad yw'n flwyddyn academaidd safonol.

(2) Pan ganiateir i fyfyriwr Oxbridge cymwys astudio cynnwys un flwyddyn academaidd safonol o'r cwrs Oxbridge dynodedig dros ddwy flwyddyn academaidd neu ragor, at ddiben penderfynu a yw'r myfyriwr yn cymhwyso i gael benthyciad at ffioedd colegau Oxbridge ar gyfer y blynyddoedd hynny, mae'r gyntaf o'r blynyddoedd hynny o astudio i'w thrin yn flwyddyn academaidd safonol ac mae'r blynyddoedd canlynol o'r math hwnnw i'w trin yn flynyddoedd academaidd nad ydynt yn flynyddoedd academaidd safonol.

(3) Yn y paragraff hwn, ystyr "blwyddyn academaidd safonol" yw blwyddyn academaidd o'r cwrs Oxbridge dynodedig y byddai person nad yw'n ailadrodd unrhyw ran o'r cwrs ac sy'n dechrau ar y cwrs ar yr un pwynt ag y mae'r myfyriwr Oxbridge cymwys yn ymgymryd â hi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I167** Atod. 5 para. 5 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Swm y benthyciad at ffioedd colegau

**6.**—(1) Ni chaniateir i swm benthyciad at ffioedd colegau Oxbridge mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd o gwrs Oxbridge dynodedig fod yn fwy na'r swm sy'n hafal i'r ffioedd coleg sy'n daladwy gan y myfyriwr Oxbridge cymwys i'w goleg neu i'w neuadd breifat barhaol mewn cysylltiad â'r flwyddyn honno.

(2) Pan fo myfyriwr Oxbridge cymwys wedi gwneud cais am fenthyciad at ffioedd colegau Oxbridge sy'n llai na'r uchafswm sydd ar gael mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd, caiff y myfyriwr wneud cais i fenthyg swm ychwanegol nad yw, o'i adio at y swm y gwnaed cais amdano eisoes, yn fwy na'r uchafswm sydd ar gael.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I168** Atod. 5 para. 6 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

## Trosglwyddo

**7.**—(1) Pan fo myfyriwr Oxbridge cymwys yn trosglwyddo o un cwrs Oxbridge dynodedig i un arall, rhaid i Weinidogion Cymru drosglwyddo statws y myfyriwr fel myfyriwr Oxbridge cymwys i'r cwrs arall—

(a) os ydynt yn cael cais oddi wrth y myfyriwr i wneud hynny; a

(b) os nad yw cyfnod cymhwystra'r myfyriwr wedi dod i ben nac wedi cael ei derfynu.

(2) Os yw'r myfyriwr Oxbridge cymwys yn trosglwyddo cyn diwedd y flwyddyn academaidd ond ar ôl gwneud cais am fenthyciad at ffioedd colegau Oxbridge, mae'r swm y gwneir cais amdano i'w dalu i'r coleg perthnasol neu'r neuadd breifat barhaol berthnasol mewn cysylltiad â'r cwrs Oxbridge dynodedig y mae'r myfyriwr yn trosglwyddo iddo (oni bai bod is-baragraff (4) yn gymwys).

(3) Pan fo is-baragraff (2) yn gymwys, ni chaiff y myfyriwr Oxbridge cymwys wneud cais i gael benthyciad arall at ffioedd colegau Oxbridge mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd honno.

(4) Os yw myfyriwr Oxbridge cymwys yn trosglwyddo ar ôl i'r benthyciad at ffioedd colegau Oxbridge gael ei dalu a chyn diwedd y flwyddyn academaidd, ni chaiff y myfyriwr wneud cais am fenthyciad arall at ffioedd colegau Oxbridge mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd y cwrs Oxbridge dynodedig y mae'r myfyriwr yn trosglwyddo iddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I169** Atod. 5 para. 7 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

## Talu

**8.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru dalu benthyciad at ffioedd colegau Oxbridge y mae myfyriwr Oxbridge cymwys yn cymhwyso i'w gael i'r coleg neu'r neuadd breifat barhaol y mae'r myfyriwr yn atebol i wneud taliad iddo neu iddi.

(2) Rhaid talu'r benthyciad mewn un cyfandaliad.

(3) Ni chaiff Gweinidogion Cymru dalu'r benthyciad—

(a) cyn iddynt gael oddi wrth y coleg neu'r neuadd breifat barhaol—

(i) cais ysgrifenedig am daliad, a

(ii) cadarnhad o bresenoldeb ar y ffurf a bennir gan Weinidogion Cymru, a

(b) cyn bod y cyfnod o dri mis sy'n dechrau â diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae'r benthyciad yn ymwneud â hi wedi dod i ben.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru dalu benthyciad at ffioedd colegau Oxbridge heb gael cadarnhad o bresenoldeb os ydynt yn meddwl y byddai'n briodol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau eithriadol.

(5) Yn y paragraff hwn, ystyr "cadarnhad o bresenoldeb" yw cadarnhad fel y cyfeirir ato yn rheoliad 87(1).

(6) Ni chaniateir i Weinidogion Cymru wneud taliad o fenthyciad at ffioedd colegau Oxbridge mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd o gwrs Oxbridge dynodedig—

(a) os yw'r myfyriwr Oxbridge cymwys yn peidio ag ymgymryd â'r cwrs cyn i'r cyfnod o dri mis sy'n dechrau â diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd ddod i ben, a

(b) os yw'r coleg neu'r neuadd breifat barhaol wedi penderfynu neu wedi cytuno na fydd y myfyriwr yn dechrau ymgymryd â'r cwrs yn y Deyrnas Unedig eto yn ystod y flwyddyn academaidd.

(7) Mae paragraffau 9 a 10 yn nodi amgylchiadau eraill pan na chaniateir i daliad o fenthyciad at ffioedd colegau Oxbridge gael ei wneud neu pan ganiateir iddo gael ei gadw'n ôl.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I170** Atod. 5 para. 8 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Gofyniad i ddarparu rhif yswiriant gwladol**

**9.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn un o amodau hawlogaeth i gael taliad o fenthyciad at ffioedd colegau Oxbridge fod yn rhaid i fyfyriwr Oxbridge cymwys ddarparu iddynt ei rif yswiriant gwladol yn y Deyrnas Unedig.

(2) Os yw'r amod hwnnw wedi ei osod, ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw daliad o'r benthyciad hyd nes bod y myfyriwr Oxbridge cymwys wedi cydymffurfio ag ef, oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni, oherwydd amgylchiadau eithriadol, y byddai'n briodol gwneud taliad er na chydymffurfiwyd â'r amod.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I171** Atod. 5 para. 9 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Gofynion gwybodaeth a chytundebau ar gyfer ad-dalu**

**10.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ar unrhyw adeg ofyn i fyfyriwr Oxbridge cymwys am unrhyw wybodaeth neu ddogfennaeth sy'n ofynnol ganddynt at ddibenion—

(a) penderfynu ar gymhwystra i gael benthyciad at ffioedd colegau Oxbridge, neu

(b) adennill benthyciad.

(2) Caniateir i gais o dan is-baragraff (1) gynnwys gofyn i fyfyriwr Oxbridge cymwys am gael gweld—

(a) ei basbort dilys a ddyroddwyd gan y wladwriaeth y mae'r myfyriwr hwnnw yn wladolyn ohoni,

(b) ei gerdyn adnabod cenedlaethol dilys, neu

(c) ei dystysgrif geni.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi gofyn am wybodaeth neu ddogfennaeth o dan is-baragraff (1), cânt gadw yn ôl unrhyw daliad o fenthyciad at ffioedd colegau Oxbridge hyd nes bod y myfyriwr yn darparu'r hyn y gofynnwyd amdano neu'n rhoi esboniad boddhaol am beidio â chydymffurfio â'r cais.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol ar unrhyw adeg i fyfyriwr Oxbridge cymwys ymrwymo i gytundeb i ad-dalu benthyciad at ffioedd colegau Oxbridge drwy ddull penodol.

(5) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi gofyn am gytundeb ynghylch y dull o ad-dalu, cânt gadw yn ôl unrhyw daliad o fenthyciad at ffioedd colegau Oxbridge hyd nes bod y myfyriwr yn darparu'r hyn y gofynnwyd amdano.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I172** Atod. 5 para. 10 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

### Gordalu

**11.** Caiff Gweinidogion Cymru adennill unrhyw ordaliad o fenthyciad at ffioedd colegau Oxbridge oddi wrth y coleg neu'r neuadd breifat barhaol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I173** Atod. 5 para. 11 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

Tabl 15A (Rheoliad 25(2))

Codau a Labeli Cwrs y Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch

Mae Tabl 15 yn nodi codau a labeli cwrs y Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch (DPAU) at ddibenion **[**[F165]is-baragraff (b) o Achos 3 yn rheoliad 25(2)**]**. **[**[F166]Mae i "y Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch" yr ystyr a roddir ym mharagraff (3) o reoliad 25.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F165** Geiriau yn Atod. 5A wedi eu hamnewid (gyda chais yn unol â rhl. 1(2) o'r O.S. diwygio) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 46(a)**

**F166** Geiriau yn Atod. 5A wedi eu mewnosod (gyda chais yn unol â rhl. 1(2) o'r O.S. diwygio) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 46(b)**

**[**[F167]**Tabl 15A**

| *Cod DPAU* | *Label DPAU* |
|---|---|
| 100706 | Gwallt a cholur |
| 101374 | Gwasanaethau trin gwallt |
| 100131 | Radioleg |
| 100456 | Astudiaethau plentyndod |
| 100302 | Hanes |
| 100337 | Athroniaeth |
| 100621 | Astudiaethau rhywedd |

| *Cod DPAU* | *Label DPAU* |
|---|---|
| 101233 | Astudiaethau diwylliannol |
| 100986 | Rheoli adnoddau dŵr |
| 100807 | Rheoli treftadaeth |
| 101091 | Astudiaethau cwaternaidd |
| 101078 | Y gwyddorau amgylcheddol cymhwysol |
| 101079 | Hydroleg |
| 101072 | Rheoli llygredd |
| 100381 | Y gwyddorau amgylcheddol |
| 101070 | Newid hinsawdd |
| 101067 | Priddeg |
| 101394 | Rhewlifeg a systemau cryosfferig |
| 100408 | Daearyddiaeth amgylcheddol |
| 101352 | Bioddaearyddiaeth |
| 101065 | Daearyddiaeth arforol |
| 101064 | Geomorffoleg |
| 100410 | Daearyddiaeth ffisegol |
| 101058 | Y gwyddorau mapio |
| 101056 | Synhwyro o bell |
| 100369 | Systemau gwybodaeth ddaearyddol |
| 100052 | Ergonomeg |
| 101104 | Daeareg gymhwysol |
| 101351 | Rhyngweithiadau rhwng yr atmosffer a’r cefnforoedd |
| 100379 | Gwyddor hinsawdd |
| 100394 | Gwyddorau’r ddaear |
| 101106 | Daeareg beirianyddol |
| 100380 | Gwyddorau daear amgylcheddol |
| 101093 | Daeareg archwilio |
| 101084 | Geoffiseg archwilio |
| 101083 | Geocemeg |
| 101082 | Peryglon daearegol |
| 101086 | Eigioneg ddaearegol |
| 100395 | Daeareg |
| 100396 | Geoffiseg |
| 101089 | Hydroddaeareg |

| *Cod DPAU* | *Label DPAU* |
|---|---|
| 101073 | Hydrograffeg |
| 100418 | Gwyddorau'r môr |
| 100382 | Meteoroleg |
| 100421 | Gwyddorau eigion |
| 100398 | Palaeontoleg |
| 101105 | Daeareg betrolewm |
| 101081 | Fwlcanoleg**]** |

**Diwygiadau Testunol**

**F167** Sch. 5A Table 15A substituted (with application in accordance with reg. 1(2) of the amending S.I.) by The Education (Student Support) (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2021 (S.I. 2021/73), **reg. 46(c)**

## ATODLEN 6

Rheoliad 100

### Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017

**1.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I174** Atod. 6 para. 1 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**2.** Yn rheoliad 1 (enwi, cychwyn a chymhwyso), ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i ddarparu cymorth i fyfyrwyr mewn perthynas â chwrs sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018 oni bai bod rheoliad 2(3) o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 yn gymwys i'r cwrs."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I175** Atod. 6 para. 2 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**3.** Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "myfyriwr mynediad graddedig carlam 2012", ar y diwedd mewnosoder "a chyn 1 Awst 2018";

(b) yn y diffiniad o "myfyriwr carfan 2012", ar ôl "1 Medi 2012" yn y lle cyntaf y mae'n digwydd mewnosoder "a chyn 1 Awst 2018 (ond gan gynnwys cwrs sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018 os yw'r cwrs yn un y mae statws y myfyriwr wedi trosglwyddo mewn perthynas ag ef o dan reoliad 8, 75 neu 102 neu os yw'n gwrs penben)";

(c) yn y diffiniad o "cwrs mynediad graddedig carlam", yn is-baragraff (c), ar ôl "1 Medi 2012" mewnosoder "a chyn 1 Awst 2018";

(d) yn y diffiniad o "myfyriwr cwrs gradd cywasgedig", yn is-baragraff (b)(ii), ar ôl "1 Medi 2013" mewnosoder "a chyn 1 Awst 2018";

(e) yn y diffiniad o "cwrs blwyddyn gyntaf gywasgedig", yn is-baragraff (a), ar ôl "1 Medi 2013" mewnosoder "a chyn 1 Awst 2018";

(f) yn y diffiniad o "cwrs dysgu o bell", ar ôl "1 Medi 2012" mewnosoder "a chyn 1 Awst 2018";

(g) yn y diffiniad o "carcharor rhan-amser cymwys", yn is-baragraff (a), ar ôl "1 Medi 2014" mewnosoder "a chyn 1 Awst 2018";

(h) yn y diffiniad o "carcharor cymwys", yn is-baragraff (a), ar ôl "1 Medi 2012" mewnosoder "a chyn 1 Awst 2018";

(i) yn y diffiniad o "blwyddyn Erasmus", yn is-baragraffau (b) ac (c), ar ôl "1 Medi 2012" mewnosoder "a chyn 1 Awst 2018";

(j) yn y diffiniad o "bwrsari gofal iechyd", ar ôl "1968" mewnosoder "ond nid taliad a wneir o'r Gronfa Cymorth Dysgu";

(k) yn y diffiniad o "myfyriwr rhan-amser cymwys newydd", ar ôl "1 Medi 2014" yn y lle cyntaf y mae'n digwydd mewnosoder "a chyn 1 Awst 2018 (ond gan gynnwys cwrs sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018 os yw'r cwrs yn un y mae statws y myfyriwr wedi trosglwyddo mewn perthynas ag ef o dan reoliad 8, 75 neu 102 neu os yw'n gwrs penben)";

(l) yn y diffiniad o "cwrs cymhwysol", ar ôl "cwrs dynodedig llawnamser" mewnosoder "sy'n dechrau cyn 1 Awst 2018 ac";

(m) yn y diffiniad o "sefydliad addysgol cydnabyddedig", yn is-baragraff (b), ar ôl "1 Medi 2017" mewnosoder "a chyn 1 Awst 2018";

(n) yn y lle priodol mewnosoder "ystyr "Cronfa Cymorth Dysgu" ("*Learning Support Fund*") yw'r gronfa sydd wedi ei rhoi ar gael gan GIG Lloegr i fyfyrwyr penodol mewn cysylltiad â chyrsiau gofal iechyd cymhwysol;".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I176** Atod. 6 para. 3 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**4.** Yn rheoliad 3(16) (cymhwyso)—

(a) ar y dechrau mewnosoder "Yn ddarostyngedig i reoliad 1(3)";

(b) ar ôl "1 Medi 2017" yn y lle cyntaf y mae'n digwydd, mewnosoder "a chyn 1 Awst 2018".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I177** Atod. 6 para. 4 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**5.** Yn lle paragraff (7) o reoliad 4 (myfyrwyr cymwys), rhodder—

"(7) Yn ddarostyngedig i baragraffau (9) i (11), os yw person yn bodloni'r amodau ym mharagraff (8)(a), (b) neu (c) ac nid yw'n bodloni paragraff (3)(c) mae'r person yn fyfyriwr cymwys at ddiben y Rheoliadau hyn ac yn unol â hynny, nid yw paragraffau (2) a (3)(a), (b), (d), (e) ac (f) yn gymwys i'r person."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I178** Atod. 6 para. 5 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**6.** Yn rheoliad 16 (grant newydd at ffioedd)—

(a) ym mharagraff (3)—

(i) yn is-baragraff (a), yn lle "£4,954" rhodder "£4,800";

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle "£4,046" rhodder "£4,200";

(b) ym mharagraff (4)—

(i) yn is-baragraff (a), yn lle "£2,560" rhodder "£2,480";

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle "£1,940" rhodder "£2,020".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I179** Atod. 6 para. 6 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**7.** Yn rheoliad 19 (benthyciad newydd at ffioedd mewn perthynas â chyrsiau sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2012)—

(a) ym mharagraff (3)(a), yn lle "£4,046" rhodder £4,200";

(b) ym mharagraff (4)(a), yn lle "£1,940" rhodder £2,020".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I180** Atod. 6 para. 7 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**8.** Yn rheoliad 30 (grantiau ar gyfer dibynyddion – dehongli)—

(a) ym mharagraff (1)(o), yn y geiriau cloi sy'n dilyn paragraffau (i) i (iii), yn lle "arall—" rhodder "arall;"

(b) cywirer y rhifo ar ôl paragraff (1)(o) a rhoi—

(i) "(p)" yn lle "(a)";

(ii) "(q)" yn lle "(b)";

(iii) "(r)" yn lle "(c)";

(c) ym mharagraff (3), yn lle "rheoliad 28" rhodder "rheoliad 27".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I181** Atod. 6 para. 8 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**9.** Yn rheoliad 43 (uchafswm benthyciadau i fyfyrwyr penodol)—

(a) ym mharagraff (2)—

(i) yn is-baragraff (i), ar ôl "£5,358" mewnosoder "ar gyfer myfyriwr carfan 2010, fel arall yn £5,529";

(ii) yn is-baragraff (ii), ar ôl "£9,697" mewnosoder "ar gyfer myfyriwr carfan 2010, fel arall yn £10,007";

(iii) yn is-baragraff (iii), ar ôl "£8,253" mewnosoder "ar gyfer myfyriwr carfan 2010, fel arall yn £8,517";

(iv) yn is-baragraff (iv), ar ôl "£8,253" mewnosoder "ar gyfer myfyriwr carfan 2010, fel arall yn £8,517";

(v) yn is-baragraff (v), ar ôl "£6,922" mewnosoder "ar gyfer myfyriwr carfan 2010, fel arall yn £7,143";

(b) ym mharagraff (3)—

(i) yn is-baragraff (i), ar ôl "£4,851" mewnosoder "ar gyfer myfyriwr carfan 2010, fel arall yn £5,006";

(ii) yn is-baragraff (ii), ar ôl "£8,830" mewnosoder "ar gyfer myfyriwr carfan 2010, fel arall yn £9,112";

(iii) yn is-baragraff (iii), ar ôl "£7,179" mewnosoder "ar gyfer myfyriwr carfan 2010, fel arall yn £7,408";

(iv) yn is-baragraff (iv), ar ôl "£7,179" mewnosoder "ar gyfer myfyriwr carfan 2010, fel arall yn £7,408";

(v) yn is-baragraff (v), ar ôl "£6,412" mewnosoder "ar gyfer myfyriwr carfan 2010, fel arall yn £6,617".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I182** Atod. 6 para. 9 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**10.** Yn rheoliad 45 (myfyrwyr sydd â hawlogaeth ostyngol)—

(a) ym mharagraff (1)(a)—

(i) ym mharagraff (i), yn lle "£2,544" rhodder "£2,625";

(ii) ym mharagraff (ii), yn lle "£4,768" rhodder "£4,920";

(iii) ym mharagraff (iii), yn lle "£3,392" rhodder "£3,500";

(iv) ym mharagraff (iv), yn lle "£3,392" rhodder "£3,500";

(v) ym mharagraff (v), yn lle "£3,392" rhodder "£3,500";

(b) ym mharagraff (1)(b)—

(i) ym mharagraff (i), yn lle "£2,544" rhodder "£2,625";

(ii) ym mharagraff (ii), yn lle "£4,768" rhodder "£4,920";

(iii) ym mharagraff (iii), yn lle "£4,056" rhodder "£4,186";

(iv) ym mharagraff (iv), yn lle "£4,056" rhodder "£4,186";

(v) ym mharagraff (v), yn lle "£3,392" rhodder "£3,500";

(c) ym mharagraff (1)(c)—

(i) ym mharagraff (i), yn lle "£4,019" rhodder "£4,147";

(ii) ym mharagraff (ii), yn lle "£7,273" rhodder "£7,505";

(iii) ym mharagraff (iii), yn lle "£6,190" rhodder "£6,388";

(iv) ym mharagraff (iv), yn lle "£6,190" rhodder "£6,388";

(v) ym mharagraff (v), yn lle "£5,191" rhodder "£5,357";

(d) ym mharagraff (2)(a)—

(i) ym mharagraff (i), yn lle "£1,934" rhodder "£1,996";

(ii) ym mharagraff (ii), yn lle "£3,646" rhodder "£3,763";

(iii) ym mharagraff (iii), yn lle "£2,643" rhodder "£2,727";

(iv) ym mharagraff (iv), yn lle "£2,643" rhodder "£2,727";

(v) ym mharagraff (v), yn lle "£2,643" rhodder "£2,727";

(e) ym mharagraff (2)(b)—

(i) ym mharagraff (i), yn lle "£1,934" rhodder "£1,996";

(ii) ym mharagraff (ii), yn lle "£3,644" rhodder "£3,763";

(iii) ym mharagraff (iii), yn lle "£2,965" rhodder "£3,060";

(iv) ym mharagraff (iv), yn lle "£2,965" rhodder "£3,060";

(v) ym mharagraff (v), yn lle "£2,643" rhodder "£2,727";

(f) ym mharagraff (2)(c)—

(i) ym mharagraff (i), yn lle "£3,638" rhodder "£3,755";

(ii) ym mharagraff (ii), yn lle "£6,623" rhodder "£6,834";

(iii) ym mharagraff (iii), yn lle "£5,384" rhodder "£5,556";

(iv) ym mharagraff (iv), yn lle "£5,384" rhodder "£5,556";

(v) mharagraff (v), yn lle "£4,809" rhodder "£4,963".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I183** Atod. 6 para. 10 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**11.** Yn rheoliad 50 (codiadau yn yr uchafswm)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "rheoliad 44" rhodder "rheoliad 43 neu, yn ôl y digwydd, 44";

(b) ym mharagraff (2), yn lle "rheoliad 44" rhodder "rheoliad 43 neu, yn ôl y digwydd, 44".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I184** Atod. 6 para. 11 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**12.** Yn rheoliad 56 (cymhwyso'r cyfraniad)

(a) ym mharagraff (3)—

(i) yn is-baragraff (a), yn lle "£4,019" rhodder "£4,147";

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle "£7,273" rhodder "£7,505";

(iii) yn is-baragraff (c), yn lle "£6,190" rhodder "£6,388";

(iv) yn is-baragraff (d), yn lle "£6,190" rhodder "£6,388";

(v) yn is-baragraff (e), yn lle "£5,191" rhodder "£5,357";

(b) ym mharagraff (4)—

(i) yn is-baragraff (a), yn lle "£3,638" rhodder "£3,755";

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle "£6,623" rhodder "£6,834";

(iii) yn is-baragraff (c), yn lle "£5,384" rhodder "£5,556";

(iv) yn is-baragraff (d), yn lle "£5,384" rhodder "£5,556";

(v) yn is-baragraff (e), yn lle "£4,809" rhodder "£4,963".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I185** Atod. 6 para. 12 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**13.** Yn rheoliad 92(3)(b) (grant rhan-amser ar gyfer gofal plant), yn lle "ganddo" rhodder "gan y myfyriwr rhan-amser cymwys neu bartner y myfyriwr rhan-amser cymwys".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I186** Atod. 6 para. 13 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**14.** Yn rheoliad 95(1)(i) (grantiau rhan-amser ar gyfer ddibynyddion - dehongli), yn lle "(6)" rhodder "(7)".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I187** Atod. 6 para. 14 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**15.** Yn Atodlen 2, paragraff 3(a), yn lle "Thechnegwyr" rhodder "Thechnoleg".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I188** Atod. 6 para. 15 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

## ATODLEN 7

Rheoliad 4(2)

### Mynegai o dermau wedi eu diffinio

**1.** Mae Tabl 16 yn rhestru ymadroddion sydd wedi eu diffinio neu sydd wedi eu hesbonio fel arall yn y Rheoliadau hyn.

**Tabl 16**

| *Ymadrodd* | *Wedi ei ddiffinio, neu y cyfeirir ato, yn...* |
|---|---|
| "AEE" | Atodlen 2, paragraff 11 |
| "aelod o deulu" (at ddibenion penderfynu ar gategori person o dan Atodlen 2) | Atodlen 2, paragraffau 4(3), 5(5) a 6(5) |
| | |
| "aelod o'r lluoedd arfog" | Atodlen 1, paragraff 6(1) |
| "anabledd" | Rheoliad 61(2) |
| "athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig" | Atodlen 1, paragraff 6(1) |
| "awdurdod academaidd" | Atodlen 1, paragraff 6(1) |
| "awdurdod lleol Cymreig" | Atodlen 2, paragraff 10(2) |
| "benthyciad at ffioedd colegau Oxbridge" | Atodlen 5, paragraff 1(1) |

| *Ymadrodd* | *Wedi ei ddiffinio, neu y cyfeirir ato, yn...* |
|---|---|
| "benthyciad at ffioedd dysgu" | Rheoliad 38 |
| "benthyciad cynhaliaeth" | Rheoliad 53 |
| "benthyciad myfyriwr" (at ddibenion penderfynu a yw myfyriwr yn fyfyriwr cymwys) | Rheoliad 10(3) |
| "benthyciad myfyriwr" (at ddibenion penderfynu a yw myfyriwr yn fyfyriwr ôl-raddedig cymwys) | Atodlen 4, paragraff 5(2) |
| "BF" | Atodlen 3, paragraff 23(2) |
| "BF-1" | Atodlen 3, paragraff 23(2) |
| "BG" | Atodlen 3, paragraff 23(2) |
| "blwyddyn academaidd" | Atodlen 1, paragraff 1 |
| "blwyddyn academaidd gyfredol" (at ddibenion cyfrifo incwm o dan Atodlen 3) | Atodlen 3, paragraff 23(2) |
| "blwyddyn academaidd gyfredol" (at ddibenion penderfynu ar hawlogaeth myfyriwr i grant ar gyfer dibynyddion) | Rheoliad 70(1) |
| "blwyddyn academaidd safonol" (mewn perthynas â chwrs Oxbridge dynodedig) | Atodlen 5, paragraff 5(3) |
| "blwyddyn ariannol" | Atodlen 3, paragraff 23(2) |
| "blwyddyn ariannol gymwys" | Atodlen 3, paragraff 23(2) |
| "blwyddyn berthnasol" (at ddibenion cyfrifo incwm net) | Atodlen 3, paragraff 21(3) |
| "blwyddyn Erasmus" | Atodlen 1, paragraff 4(1) |
| "bwrsari gofal iechyd" | Rheoliad 10(4) |
| "byw gartref" | Atodlen 1, paragraff 3(1)(a) |
| "byw oddi cartref, astudio yn Llundain" | Atodlen 1, paragraff 3(1)(b) |
| "byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall" | Atodlen 1, paragraff 3(1)(c) |
| "carcharor" | Atodlen 1, paragraff 6(1) |
| "corff cyhoeddus" | Atodlen 3, paragraff 23(2) |
| "Cronfa Cymorth Dysgu" | Rheoliad 10(4) |
| "cwrs addysg perthnasol" (at ddibenion diffinio "cwrs penben") | Atodlen 1, paragraff 6(1) |
| "cwrs ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon" | Atodlen 1, paragraff 6(1) |
| "cwrs blaenorol" | Rheoliad 17(3) |
| "cwrs blwyddyn gyntaf gywasgedig" | Atodlen 1, paragraff 6(1) |
| "cwrs cynharach" | Rheoliad 11(3) |

| *Ymadrodd* | *Wedi ei ddiffinio, neu y cyfeirir ato, yn...* |
|---|---|
| "cwrs dynodedig" | Pennod 1 o Ran 4 |
| "cwrs dysgu o bell" | Atodlen 1, paragraff 6(1) |
| "cwrs gradd cywasgedig" | Atodlen 1, paragraff 6(1) |
| "cwrs gradd perthnasol" (at ddibenion diffinio "cwrs penben") | Atodlen 1, paragraff 6(1) |
| "cwrs mynediad graddedig carlam" | Atodlen 1, paragraff 6(1) |
| "cwrs newydd" | Rheoliad 28(1) |
| "cwrs llawnamser cyfatebol" (at ddibenion cyfrifo'r dwysedd astudio) | Atodlen 1, paragraff 5(3) |
| "cwrs ôl-radd dynodedig" | Atodlen 4, paragraffau 2 a 3 |
| "cwrs ôl-radd presennol" | Atodlen 4, paragraff 1(2) |
| "cwrs Oxbridge dynodedig" | Atodlen 5, paragraff 2 |
| "cwrs penben" | Atodlen 1, paragraff 6(1) |
| "cwrs presennol" | Atodlen 1, paragraff 6(1) |
| "cwrs rhagarweiniol" | Rheoliad 16(1) |
| "cwrs rhyngosod" | Atodlen 1, paragraff 6(1) |
| "cyfanswm newydd sy'n daladwy" | Rheoliad 88(4) |
| "Cyfarwyddeb 2004/38" | Atodlen 2, paragraff 11 |
| "cyfnod arferol" | Rheoliad 17(1) |
| "cyfnod cymhwystra" (mewn perthynas â chwrs dynodedig) | Adran 2 o Bennod 2 o Ran 4 |
| "cyfnod cymhwystra" (mewn perthynas â chwrs ôl-radd dynodedig) | Atodlen 4, paragraff 7 |
| "cyfnod cymhwystra" (mewn perthynas â chwrs Oxbridge dynodedig) | Atodlen 5, paragraff 5 |
| "cyfnod o brofiad gwaith" | Atodlen 1, paragraff 6(1) |
| "cyfnod sy'n ofynnol fel arfer i gwblhau'r cwrs llawnamser cyfatebol" (at ddibenion cyfrifo'r dwysedd astudio) | Atodlen 1, paragraff 5(3) |
| "cyfnod talu" | Rheoliad 95(9) |
| "Cyngor Ymchwil" | Atodlen 1, paragraff 6(1) |
| "cymorth" | Atodlen 1, paragraff 6(1) |
| "cymorth perthnasol" | Rheoliad 27(2) |
| "cyn-Ddosbarth yr Heddlu Metropolitanaidd" | Atodlen 1, paragraff 3(3) |
| "cynllun ERASMUS" | Atodlen 1, paragraff 4(3) |
| "cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth" | Rheoliad 7(2) |

| *Ymadrodd* | *Wedi ei ddiffinio, neu y cyfeirir ato, yn...* |
|---|---|
| "Cytundeb y Swistir" | Atodlen 2, paragraff 11 |
| "chwarter" | Atodlen 1, paragraff 6(1) |
| "chwarter cymhwysol" | Rheoliad 66(1) |
| "darparwr arferol" | Rheoliad 40(2)(c)(i) |
| **[**F168"darparwr cynllun Seisnig" | Atodlen 1, paragraff 2(1) |
| "darparwr Seisnig gwarchodedig" | Atodlen 1, paragraff 2(1)**]** |
| "Deddf 1998" | Rheoliad 5 |
| "derbyn gofal" | Atodlen 2, paragraff 10(2) |
| **[**F169"y Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch (DPAU)" | Rheoliad 25(3)**]** |
| "dwysedd astudio" (mewn perthynas â chwrs rhan-amser) | Atodlen 1, paragraff 5 |
| "dyfarndal statudol" | Atodlen 1, paragraff 6(1) |
| "ffioedd" | Atodlen 1, paragraff 6(1) |
| "ffioedd coleg" | Atodlen 5, paragraff 1(2) |
| "ffioedd rhagnodedig" (mewn perthynas â'r grant gofal plant) | Rheoliad 75(3) |
| "ffoadur" | Atodlen 2, paragraff 11 |
| "gorchymyn trefniadau pensiwn" | Atodlen 3, paragraff 23(2) |
| "grant at deithio" | Rheoliad 64 |
| "grant bwrsari at gostau byw" | Rheoliad 10(2) |
| "grant cynhaliaeth" | Rheoliad 43 |
| "grant dysgu ar gyfer rhieni" | Rheoliad 68(1) |
| "grant gofal plant" | Rheoliad 68(1) |
| "grant myfyriwr anabl" | Rheoliad 61(1) |
| "grant myfyriwr ôl-raddedig anabl" | Atodlen 4, paragraff 1(1) |
| "grant oedolion dibynnol" | Rheoliad 68(1) |
| "grant sylfaenol" | Rheoliad 43 |
| "grantiau ar gyfer dibynyddion" | Rheoliad 68 |
| F170 . . . | F171 . . . |
| "gweithiwr" | Atodlen 2, paragraff 4(4) |
| "gweithiwr mudol AEE" | Atodlen 2, paragraff 4(3) |
| "gweithiwr trawsffiniol AEE" | Atodlen 2, paragraff 4(3) |
| "gweithiwr Twrcaidd" | Atodlen 2, paragraff 8(2) |

| *Ymadrodd* | *Wedi ei ddiffinio, neu y cyfeirir ato, yn...* |
|---|---|
| "gwladolyn AEE" | Atodlen 2, paragraff 4(4) |
| "hawl i breswylio'n barhaol" | Atodlen 2, paragraff 11 |
| "hen gwrs" | Rheoliad 28(1) |
| **[**[F169]Hierarchiaeth Cydgasglu Cyffredin | Rheoliad 25(3)**]** |
| "incwm aelwyd" | Atodlen 3 Rhan 2 |
| "incwm gweddilliol" | Atodlen 3, Rhan 4 |
| "incwm net" (dibynyddion) | Atodlen 3, Rhan 5 |
| "incwm trethadwy" | Atodlen 3, paragraff 9 |
| "lwfans gofal iechyd yr Alban" | Rheoliad 10(4) |
| "y lleoliad" | Rheoliad 66(1) |
| "Llundain" | Atodlen 1, paragraff 3(2) |
| "myfyriwr ar gwrs hyfforddi athrawon" | Rheoliad 15(6) |
| "myfyriwr cymwys" | Rheoliad 9(1) |
| "myfyriwr cymwys annibynnol" | Atodlen 3, paragraff 4 |
| "myfyriwr llawnamser" (at ddibenion penderfynu ar hawlogaeth myfyriwr i gael categori penodol o gymorth) | Rheoliad 46(1), 55(1) |
| "myfyriwr llawnamser safonol" (at ddibenion cyfrifo'r dwysedd astudio) | Atodlen 1, paragraff 5(3) |
| "myfyriwr ôl-raddedig cymwys" | Atodlen 4, paragraffau 4, 5 a 6 |
| "myfyriwr Oxbridge cymwys" | Atodlen 5, paragraff 3 |
| "myfyriwr rhan-amser" (at ddibenion penderfynu ar hawlogaeth myfyriwr i gael categori penodol o gymorth) | Rheoliad 47(1), 58(1) |
| "oedolyn dibynnol" | Rheoliad 70(1) |
| "partner" (at ddibenion cyfrifo incwm o dan Atodlen 3) | Atodlen 3, paragraff 23(1) |
| "partner" (at ddibenion penderfynu ar hawlogaeth myfyriwr i gael grantiau ar gyfer dibynyddion) | Rheoliad 70(2) |
| "person â gradd anrhydedd" | Rheoliad 24(1) |
| "person cyflogedig" | Atodlen 2, paragraff 4(4) |
| "person cyflogedig Swisaidd" | Atodlen 2, paragraff 4(3) |
| "person cyflogedig trawsffiniol Swisaidd" | Atodlen 2, paragraff 4(3) |
| "person graddedig" | Rheoliad 25(1) |
| "person hunangyflogedig" | Atodlen 2, paragraff 4(4) |

| *Ymadrodd* | *Wedi ei ddiffinio, neu y cyfeirir ato, yn...* |
|---|---|
| "person hunangyflogedig AEE" | Atodlen 2, paragraff 4(3) |
| "person hunangyflogedig Swisaidd" | Atodlen 2, paragraff 4(3) |
| "person hunangyflogedig trawsffiniol AEE" | Atodlen 2, paragraff 4(3) |
| "person hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd" | Atodlen 2, paragraff 4(3) |
| **[**[F168]"person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67" | Atodlen 2, paragraff 3A(3)**]** |
| "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros" | Atodlen 2, paragraff 3(4) |
| "person sy'n ymadael â gofal" | Rheoliad 49 |
| **[**[F172]"person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth" | Atodlen 2, paragraff 2A(4)**]** |
| "perthynas agos" | Atodlen 1, paragraff 6(1) |
| "plentyn dibynnol" | Rheoliad 70(1) (ond gweler hefyd reoliad 75(3) mewn perthynas â grant gofal plant) |
| **[**[F172]"rheolau mewnfudo" | Atodlen 2, paragraff 11**]** |
| "Rheoliadau 2017" | Rheoliad 2(3)(a) |
| "rhiant" a "plentyn" (at ddibenion penderfynu ar gategori person o dan Atodlen 2) | Atodlen 2, paragraff 11 |
| "rhiant unigol" | Rheoliad 70(1) |
| **[**[F168]"sefydliad a gyllidir gan yr Alban" | Atodlen 1, paragraff 2(1) |
| "sefydliad a gyllidir gan Gymru" | Atodlen 1, paragraff 2(1) |
| "sefydliad a gyllidir gan Ogledd Iwerddon" | Atodlen 1, paragraff 2(1)**]** |
| "sefydliad a gyllidir yn gyhoeddus" | Atodlen 1, paragraff 6(1) |
| "sefydliad addysgol cydnabyddedig" | Atodlen 1, paragraff 2(a) |
| "sefydliad preifat" | Rheoliad 40(2)(c)(ii) |
| **[**[F168]"sefydliad rheoleiddiedig Cymreig" | Atodlen 1, paragraff 2(1)**]** |
| "sefydliad rheoleiddiedig Cymreig" | Atodlen 1, paragraff 2(b) |
| **[**[F168]"sefydliad rheoleiddiedig Seisnig" | Atodlen 1, paragraff 2(1)**]** |
| "sefydliad rheoleiddiedig Seisnig" | Atodlen 1, paragraff 2(c) |
| **[**[F168]"sefydliad Seisnig cofrestredig" | Atodlen 1, paragraff 2(1)**]** |
| "swm llawn" | Rheoliad 95(4) |
| "swm rhannol" | Rheoliad 95(4) |
| "y System Cyd-godio Pynciau Academaidd" | Rheoliad 25(3) |
| "taliad cymorth arbennig" | Rheoliad 50 |

| *Ymadrodd* | *Wedi ei ddiffinio, neu y cyfeirir ato, yn...* |
|---|---|
| "wedi setlo" | Atodlen 2, paragraff 11 |
| "Ynysoedd" | Atodlen 2, paragraff 11 |
| "ysgol a gynhelir" | Rheoliad 7(3) |

**Diwygiadau Testunol**

**F168** Geiriau yn Atod. 7 Table 16 wedi eu mewnosod (gyda chais yn unol â rhl. 1(3)(b) of the amending S.I.) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/235), rhlau. 1(3)(a), **60**

**F169** Geiriau yn Atod. 7 Tabl 16 wedi eu mewnosod (gyda chais yn unol â rhl. 1(2) o'r O.S. diwygio) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 47**

**F170** Geiriau yn Atod. 7 Tabl 16 wedi eu hepgor (gyda chais yn unol â rhl. 1(2) o'r O.S. diwygio) yn rhinwedd Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 12(a)**

**F171** Geiriau yn Atod. 7 Tabl 16 wedi eu hepgor (gyda chais yn unol â rhl. 1(2) o'r O.S. diwygio) yn rhinwedd Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 12(b)**

**F172** Geiriau yn Atod. 7 Table 16 wedi eu mewnosod (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **20**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I189** Atod. 7 para. 1 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018. Maent hefyd yn darparu cymorth ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau cyn y dyddiad hwnnw ac sy'n cael eu troi wedi hynny o gyrsiau llawnamser i gyrsiau rhan-amser neu o gyrsiau rhan-amser i gyrsiau llawnamser ar neu ar ôl 1 Awst 2018.

Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017") yn parhau mewn grym fel y'u diwygir gan reoliad 100 o'r Rheoliadau hyn ac Atodlen 6 iddynt. Mae Rheoliadau 2017 yn gymwys i'r ddarpariaeth o gymorth i fyfyrwyr sy'n parhau ar gyrsiau a ddechreuwyd ganddynt ar neu ar ôl 1 Medi 2017 a chyn 1 Awst 2018. Mae Rheoliadau 2017 hefyd yn gymwys i gyrsiau penben (o fewn yr ystyr yn y Rheoliadau hynny) ac mewn perthynas â chyrsiau pan fo statws myfyriwr wedi trosglwyddo o dan reoliad 8, 75, 102 a 114 o Reoliadau 2017 neu baragraff 11 o Atodlen 4 iddynt, pa un a yw'r trosglwyddiad hwnnw yn digwydd cyn, ar neu ar ôl 1 Awst 2018.

Er mwyn cymhwyso i gael cymorth o dan y Rheoliadau hyn, rhaid i fyfyriwr fod yn "myfyriwr cymwys". I fod yn fyfyriwr cymwys, rhaid i berson fodloni'r darpariaethau cymhwystra yn Rhan 4 (Pennod 2, Adran 1) ac unrhyw ofynion cymhwystra eraill a nodir mewn mannau eraill yn y

Rheoliadau. Rhaid i fyfyriwr cymwys fodloni hefyd y gofynion penodol sy'n gymwys i bob math o gymorth ariannol.

I fod yn fyfyriwr cymwys, rhaid i berson ddod o fewn un o'r categorïau a nodir yn Atodlen 2. Mae'r rhan fwyaf o gategorïau yn Atodlen 2 yn ei gwneud yn ofynnol i'r myfyriwr breswylio fel arfer yng Nghymru (ac eithrio categorïau 4(1)(a)(iv) – (vi) a chategori 6(1)). At ddibenion y Rheoliadau hyn, ystyrir bod person sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, o ganlyniad i symud o un o'r ardaloedd hynny at ddiben ymgymryd â chwrs dynodedig, yn preswylio fel arfer yn y lle y symudodd y person hwnnw ohono (Atodlen 2, paragraff 9(1)).

Penderfynir ar y cyfnod y mae myfyriwr yn gymwys i gael cymorth ar ei gyfer o dan y Rheoliadau hyn yn unol â rheoliadau 12 i 23. Mae rheoliadau 24 i 27 yn cyfyngu ar argaeledd cymorth pan fo myfyriwr wedi ymgymryd ag astudio blaenorol penodol. O dan amgylchiadau penodol, caiff myfyriwr cymwys drosglwyddo o un cwrs dynodedig i gwrs dynodedig arall, gan gynnwys o gwrs llawnamser i gwrs rhan-amser ac i'r gwrthwyneb (rheoliadau 28 i 31).

Nid yw cymorth ond ar gael o dan y Rheoliadau hyn mewn cysylltiad â chyrsiau "dynodedig" o fewn ystyr rheoliadau 5 ac 8. Darperir cymorth i fyfyrwyr cymwys sy'n ymgymryd â chwrs dynodedig ble bynnag y bônt yn astudio yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu set graidd o reolau ar gyfer y ddarpariaeth o gymorth i fyfyrwyr cymwys pa un a ydynt yn astudio'n llawnamser, yn rhan-amser, ar gyrsiau rhyngosod neu ar gyrsiau dysgu o bell. Mae unrhyw wahaniaethau yn y ffordd y mae'r cyrsiau hynny yn cael eu trin wedi eu rhagnodi yn y rheoliadau perthnasol. Ni fydd myfyrwyr cymwys sy'n ymgymryd â chyrsiau rhan-amser yn gymwys i gael cymorth o dan y Rheoliadau hyn mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd pan fo dwysedd astudio'r myfyriwr ar gyfer y flwyddyn honno yn llai na 25% (rheoliad 13). Mae Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch dehongli termau allweddol penodol ac mae paragraff 5 o Atodlen 1 yn nodi sut y mae "dwysedd astudio" i gael ei gyfrifo.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer ceisiadau am gymorth (rheoliad 32), terfynau amser ar gyfer ceisiadau (rheoliad 33) ac mae rheoliad 34 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud unrhyw ymholiadau y maent yn meddwl eu bod yn angenrheidiol er mwyn gwneud penderfyniad ar gais ac er mwyn hysbysu ceisydd am benderfyniad. Mae'r Rhan hon yn gosod rhwymedigaethau ar fyfyrwyr cymwys i ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru (rheoliad 35), i ymrwymo i gontract ar gyfer benthyciad (rheoliad 36) a rhwymedigaeth ar awdurdodau academaidd i hysbysu Gweinidogion Cymru pan fo myfyriwr wedi peidio ag ymgymryd â chwrs (rheoliad 37).

Mae cymorth o dan y Rheoliadau hyn ar gael ar ffurf y grantiau a'r benthyciadau a ganlyn-

a. benthyciad at ffioedd dysgu (Rhan 6);

b. grant sylfaenol a grant cynhaliaeth (Rhan 7);

c. benthyciad cynhaliaeth (Rhan 8);

d. grant myfyriwr anabl (Rhan 9);

e. grantiau at deithio (Rhan 10);

f. grantiau ar gyfer dibynyddion (Rhan 11);

g. grant myfyriwr ôl-raddedig anabl (Rhan 15);

h. benthyciadau at ffioedd colegau Oxbridge (Rhan 16).

Er mwyn cymhwyso i gael benthyciad at ffioedd dysgu, grant sylfaenol, grant cynhaliaeth, benthyciad cynhaliaeth, grant myfyriwr anabl, grant at deithio, neu grantiau ar gyfer dibynyddion, rhaid i fyfyriwr cymwys fodloni'r amodau cymhwyso ar gyfer y mathau hynny o gymorth. Er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth, rhaid i fyfyrwyr cymwys sy'n dymuno ymgymryd â chwrs dysgu o bell, yn ychwanegol at fodloni'r amodau cymhwyso, fod yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs. Nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys i fyfyrwyr nad ydynt yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs oherwydd eu bod hwy, neu eu perthynas agos,

yn gwasanaethu fel aelod o lynges, byddin neu lu awyr rheolaidd y Goron y tu allan i Gymru. Nid yw myfyrwyr cymwys sy'n ymgymryd â chyrsiau dysgu o bell yn gymwys i gael grantiau at deithio, grantiau ar gyfer dibynyddion, na benthyciadau at ffioedd colegau Oxbridge (yn ddarostyngedig i'r eithriad ym mharagraff 3(4) o Atodlen 5).

Nid yw grantiau at ffioedd a oedd yn daladwy o dan Reoliadau 2017 ar gael o dan y Rheoliadau hyn ac maent wedi eu disodli gan fenthyciadau at ffioedd dysgu sy'n daladwy yn unol â Rhan 6. Mae Rhan 7 yn darparu ar gyfer talu grant sylfaenol newydd a grant cynhaliaeth. Mae'r grant sylfaenol yn daliad o £1,000 ar gyfer myfyrwyr cymwys sy'n ymgymryd â chyrsiau llawnamser ac ar gyfer myfyrwyr cymwys sy'n ymgymryd â chyrsiau rhan-amser mae'n £1,000 wedi ei luosi â dwysedd eu hastudio.

Penderfynir ar swm y grant cynhaliaeth sy'n daladwy i fyfyrwyr llawnamser drwy gyfeirio at drefniadau byw'r myfyriwr, incwm ei aelwyd a pha un a yw'n berson sy'n ymadael â gofal (rheoliad 46). Penderfynir ar swm y grant cynhaliaeth sy'n daladwy i fyfyrwyr rhan-amser drwy gyfeirio at incwm aelwyd y myfyriwr, pa un a yw'n berson sy'n ymadael â gofal a dwysedd ei astudio (rheoliad 47). Cyfrifir incwm aelwyd myfyriwr cymwys yn unol â Rhan 2 o Atodlen 3. Mae "person sy'n ymadael â gofal" at y dibenion hyn wedi ei ddiffinio yn rheoliad 49.

Mae Pennod 4 o Ran 7 o'r Rheoliadau hyn yn darparu i daliad cymorth arbennig gael ei wneud i fyfyriwr cymwys sy'n bodloni un o'r amodau cymhwyso yn rheoliad 51 ac sy'n cymhwyso i gael grant sylfaenol neu grant cynhaliaeth. Bwriedir i'r taliad cymorth arbennig dalu am gostau llyfrau ac offer, treuliau teithio a chostau gofal plant yr eir iddynt gan fyfyriwr cymwys sy'n ymgymryd â chwrs dynodedig.

Mae benthyciadau cynhaliaeth yn daladwy i fyfyriwr cymwys yn unol â Rhan 8 o'r Rheoliadau hyn. Bydd myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael benthyciad cynhaliaeth oni bai bod un o'r eithriadau yn rheoliad 54 yn gymwys i'r myfyriwr. Cyfrifir swm y benthyciad cynhaliaeth sydd ar gael yn unol â rheoliadau 55 i 57 ar gyfer myfyrwyr llawnamser a rheoliad 58 ar gyfer myfyrwyr rhan-amser.

Mae Rhan 9 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â grantiau myfyrwyr anabl. Mae'r amodau cymhwyso ar gyfer grantiau o'r fath wedi eu nodi yn rheoliad 62. Swm y grant sydd ar gael i fyfyrwyr anabl yw'r swm y mae Gweinidogion Cymru yn meddwl ei fod yn briodol ac nad yw'n fwy na swm cyfanredol y terfynau sy'n gymwys mewn cysylltiad â'r Achosion a restrir yn rheoliad 63(2).

Mae Rhan 10 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â grantiau at deithio; gan gynnwys grantiau at deithio ar gyfer myfyrwyr meddygol (rheoliad 65) ac ar gyfer astudio neu waith dramor (rheoliad 66).

Mae Rhan 11 yn gwneud darpariaeth ar gyfer grantiau i fyfyrwyr cymwys mewn cysylltiad â'r costau sy'n gysylltiedig â dibynyddion penodol. Mae tri grant ar gael; grant oedolion dibynnol (Pennod 2), grant dysgu ar gyfer rhieni (Pennod 3) a grant gofal plant (Pennod 4). Er mwyn cymhwyso i gael grant, rhaid i fyfyriwr cymwys fodloni'r amodau cymhwyso penodol ar gyfer y grant hwnnw a'r amodau cymhwyso yn rheoliad 69.

Mae Rhan 12 yn gwneud darpariaeth ar gyfer myfyrwyr sy'n cymhwyso i gael mathau penodol o gymorth ran o'r ffordd drwy flwyddyn academaidd. Pan fo myfyriwr yn cymhwyso i gael benthyciad cynhaliaeth neu grant yn ystod blwyddyn academaidd, ni thelir y cymorth hwnnw ond mewn cysylltiad â'r chwarteri academaidd yn dilyn y digwyddiad sy'n sbarduno eu cymhwystra. Ni fydd benthyciad cynhaliaeth ond yn daladwy os yw'n chwarter y byddai'r benthyciad fel arall yn daladwy mewn cysylltiad ag ef o dan reoliad 85(6) a (7).

Mae Rhan 13 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â thaliadau, gordaliadau ac adennill taliadau.

Mae rheoliadau 93 i 95 yn gwneud darpariaeth i gymorth sy'n daladwy o dan y Rheoliadau hyn gael ei ostwng o dan amgylchiadau penodol; gan gynnwys pan fo myfyriwr cymwys yn dod

yn garcharor, yn rhoi'r gorau i ymgymryd â'r cwrs presennol am unrhyw gyfnod, neu pan fo ei gymhwystra wedi dod i ben neu wedi cael ei derfynu, yn ystod blwyddyn academaidd.

Mae Atodlen 3 yn ymwneud â chyfrifo incwm. Mae Rhan 2 o Atodlen 3 yn darparu ar gyfer y ffordd y bydd incwm aelwyd myfyriwr cymwys yn cael ei gyfrifo at ddibenion penderfynu ar swm y grant cynhaliaeth, y grant at deithio a'r grantiau ar gyfer dibynyddion a all fod yn daladwy i'r myfyriwr cymwys. Er mwyn cyfrifo incwm aelwyd mae angen cyfrifo incwm trethadwy ac incwm gweddilliol pob person sydd ar yr aelwyd. Mae Rhan 3 o Atodlen 3 yn nodi ystyr incwm trethadwy at y dibenion hyn. Mae Rhan 4 o Atodlen 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfrifo incwm gweddilliol person. Mae Rhan 5 o Atodlen 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfrifo incwm net at ddibenion penderfynu a yw myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael grant oedolion dibynnol, ac at ddibenion cyfrifo swm y grant ar gyfer dibynyddion sy'n daladwy i'r myfyriwr.

Mae Rhan 15 ac Atodlen 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cymorth i fyfyrwyr ôl-raddedig sydd ag anableddau.

Mae Rhan 16 ac Atodlen 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer "benthyciadau at ffioedd colegau Oxbridge". Benthyciadau yw'r rhain mewn cysylltiad â'r ffioedd coleg sy'n daladwy gan fyfyriwr Oxbridge cymwys (fel y'u diffinnir ym mharagraff 3 o Atodlen 5) i goleg neu neuadd breifat barhaol ym Mhrifysgol Rhydychen, neu i un o golegau Prifysgol Caergrawnt, mewn cysylltiad â phresenoldeb y myfyriwr ar gwrs Oxbridge dynodedig (fel y'i diffinnir ym mharagraff 2 o Atodlen 5).

Mae Rhan 17 ac Atodlen 6 yn cynnwys diwygiadau i Reoliadau 2017.

Atodlen 7 yw'r atodlen olaf i'r Rheoliadau hyn ac mae'n cynnwys y mynegai o dermau wedi eu diffinio.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 11/02/2022.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.